ACI2 – Bioamrywiaeth	-	Mae'r polisi hwn yn cefnogi gwaith datblygu cynyddol mewn ardaloedd gwledig, sy'n debygol o gynyddu gwaith datblygu ar safleoedd maes glas ac effeithio'n negyddol ar ardaloedd sensitif o ran bioamrywiaeth heb eu cyffwrdd ar hyn o bryd.	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4: Seilwaith Gwyrdd - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
ACI3 – Ansawdd Aer	+	Bydd hybu gwaith datblygu mewn ardaloedd gwledig yn lleddfu'r pwysau ar ardaloedd trefol sy'n agos at fynd yn groes, neu sydd yn mynd yn groes, i amcanion Ansawdd Aer y DU (Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer). Bydd cadw cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at leihau'r defnydd o geir preifat.	
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	+	Bydd cadw cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at	

		leihau'r defnydd o geir preifat ac felly'n lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.	
ACI5 – Dŵr	-	Mae datblygiadau gwledig yn debygol o arwain at ddisodli safleoedd maes glas hydraidd ag arwyneb solet, a all gynyddu'r risg o lifogydd a dŵr wyneb. Mae'r polisi hwn yn datgan yn benodol bod yn rhaid i ddatblygiad ystyried effeithiau ar seilwaith lleol, a fyddai'n cynnwys cyflenwad dŵr a gollyngiadau carthffosiaeth.	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas SP9: Seilwaith CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr
ACI6 - Asedau Materol	+	Mae'r polisi hwn yn cefnogi cadw cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig ac felly'n cynorthwyo'r elfen o ddiwallu anghenion yn lleol.	
ACI7 - Pridd	-	Mae datblygiadau gwledig yn debygol o arwain at ddisodli safleoedd maes glas hydraidd ag arwyneb solet.	PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol.
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol	I	Mae'r graddau y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ACI8 yn ddibynnol ar y dewis o safleoedd a'r modd y cânt eu datblygu.	SP15: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd PSD2: Egwyddorion Uwchgyllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy
ACI9 – Tirwedd	-	Mae datblygiadau gwledig yn annhebygol o arwain at aildefnyddio tir diffaith.	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd BHE2: Cymeriad y Dirwedd
ACI10 – Poblogaeth	+	Mae cadw a gwella cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth gwledig yn debygol o arwain at	

		effaith gadarnhaol ar gadw pobl ifanc a chynnwys grwpiau difreintiedig a lleiafrifol y gymdeithas.	
ACI11 – Y Gymraeg	+/-	Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ACI11. Gall twf economaidd a mewnfudo cysylltiedig wanhau'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd.	WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	Byddai datblygiadau gwledig yn cynyddu mynediad at fannau gwyrdd a threftadaeth naturiol a diwylliannol y Sir. Bydd cadw a gwella cyfleusterau a gwasanaethau gwledig hefyd yn sicrhau y diogelir mynediad at wasanaethau iechyd a hamdden lleol.	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	Mae'r polisi hwn yn hwyluso trefniadau cadw a gwella cyfleusterau a gwasanaethau gwledig sy'n debygol o sicrhau y diogelir mynediad at gyfleusterau addysg gwledig.	
ACI14 – Yr Economi	++	Mae'r polisi hwn yn ceisio ymdrin â'r anghydraddoldeb economaidd rhwng gogledd a de y sir, trwy ddarparu cyflogaeth leol wedi'i chefnogi gan weithlu lleol mewn ardal wledig.	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	++	Mae cadw a gwella cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth gwledig yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar gadw pobl ifanc a chynnwys grwpiau difreintiedig a lleiafrifol y gymdeithas.	
Sylwadau ac Argymhellion ynghylch yr ACI			

- Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisiau diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol.

SP 14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol			
Amcan yr ACI	Arfarniad	Sylwadau	Polisiau Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+		
ACI2 – Bioamrywiaeth	++	Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag ACI2 i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol.	
ACI3 – Ansawdd Aer	+	Bydd gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol yn cyfrannu at hidlo a dileu llygryddion o'r aer.	
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	+	Gall gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy ailgylchu CO ₂ a darparu effeithiau oeri ac amsugno dŵr glaw a all leihau risg llifogydd.	
ACI5 – Dŵr	+	Mae'r polisi hwn yn cynnwys gwarchod a gwella cyrff dŵr.	
ACI6 - Asedau Materol	0		
ACI7 - Pridd	+	Mae'r polisi hwn yn cynnwys gwarchod a gwella adnoddau pridd.	
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol	+	Mae cysylltiad cryf rhwng yr amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol.	
ACI9 – Tirwedd	+	Mae'r polisi hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at warchod a gwella tirwedd Sir Gaerfyrddin.	

ACI10 – Poblogaeth	+	Gall diogelu'r amgylchedd naturiol olygu bod Sir Gaerfyrddin yn lle mwy dymunol i fyw ynddo, a allai annog pobl ifanc i aros yn y sir. Ceir hefyd astudiaethau sy'n dod i'r casgliad y gall mannau gwyrdd naturiol gynyddu cynhwysiant cymdeithasol.	
ACI11 – Y Gymraeg	0		
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	Bydd gwarchod a gwella asedau naturiol y Sir yn cefnogi'n uniongyrchol drefniadau hybu mynediad at dreftadaeth naturiol Sir Gaerfyrddin a mannau agored.	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	Mae treftadaeth naturiol Sir Gaerfyrddin yn adnodd gwerthfawr yn addysg plant ac oedolion.	
ACI14 – Yr Economi	+	Mae gwarchod asedau naturiol Sir Gaerfyrddin yn cadw bioamrywiaeth ac amgylchedd naturiol unigryw y Sir, sy'n gwella twristiaeth a'r economi ymwelwyr.	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	Mae astudiaethau hefyd sy'n dod i'r casgliad y gall mannau gwyrdd naturiol, bioamrywiol gynyddu cynhwysiant cymdeithasol a chyfrannu at greu aneddiadau sy'n fwy diogel ac yn fwy iach.	
Sylwadau ac Argymhellion ynghylch yr ACI			
<ul style="list-style-type: none"> Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar y Fframwaith ACI o ganlyniad i'r polisi hwn. Awgrymir newidiadau i eiriad y polisi er mwyn cryfhau'r gofyniad i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol; Dileu'r cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru a TAN5 i gynnwys 'yr holl ofynion Polisi Cenedlaethol a deddfwriaethol' gan gynnwys deddfau cymwys eraill; defnyddio terminoleg wahanol i gyd-fynd â'r ffocws cyfredol (h.y. budd net i fioamrywiaeth) Dylid cyfeirio'n benodol yn y testun ategol at ddyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2018. 			

SP 15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol.			
Amcan yr ACI	Arfarniad	Sylwadau	Polisiau Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+	Mae gwarchod yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion datblygiad cynaliadwy a llesiant.	
ACI2 – Bioamrywiaeth	0		
ACI3 – Ansawdd Aer	0		
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	0		
ACI5 – Dŵr	0		
ACI6 - Asedau Materol	0		
ACI7 - Pridd	0		
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol	++	Mae'r polisi hwn yn cefnogi'n uniongyrchol drefniadau gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol a chynllun o ansawdd uchel Sir Gaerfyrddin.	
ACI9 – Tirwedd	+	Mae'r polisi hwn yn cefnogi'n uniongyrchol drefniadau gwarchod trefluniau a thirweddau'r Sir.	

ACI10 – Poblogaeth	+	Gall diogelu'r amgylchedd hanesyddol olygu bod Sir Gaerfyrddin yn lle mwy dymunol i fyw ynddo, a allai annog pobl ifanc i aros yn y sir.	
ACI11 – Y Gymraeg	+	Mae gan dreftadaeth adeiledig Sir Gaerfyrddin gysylltiadau cryf â'r iaith Gymraeg.	
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	Mae gwarchod yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn cynnal mynediad at dreftadaeth ddiwylliannol at ddibenion Llesiant.	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	Mae treftadaeth adeiledig Sir Gaerfyrddin yn adnodd gwerthfawr yn addysg plant ac oedolion.	
ACI14 – Yr Economi	+	Mae gwarchod asedau diwylliannol Sir Gaerfyrddin yn cadw amrywiaeth a threftadaeth gyfoethog y Sir, sy'n gwella twristiaeth a'r economi ymwelwyr.	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	Bydd sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig yn cael ei ddiogelu yn sicrhau bod mynediad i adnoddau o'r fath mor eang â phosibl, yn enwedig i rannau difreintiedig o'r gymdeithas.	
Sylwadau ac Awgrymiadau ynghylch yr ACI			
<ul style="list-style-type: none"> Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar y Fframwaith ACI o ganlyniad i'r polisi hwn. Er nad yw'r polisi hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar ACI3 – Ansawdd Aer, gall ansawdd aer effeithio ar y polisi ei hun. Gall ansawdd aer gwael effeithio ar yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol fel cynyddu'r nwyon cyrydol yn yr atmosffer yn ogystal â dyddodi gronynnau a all achosi i arwynebau ddaoliwio. Dylid crybwyll hyn yn nhestun ategol y polisi hwn i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus iddo mewn unrhyw gais cynllunio. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r polisi gyfeirio at y ffaith bod yr amgylchedd hanesyddol yn adnodd penodol, anadnewyddadwy a rennir ac yn rhan hanfodol ac annatod o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Cymru. Gellir ond cynnal yr amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol os bydd asedau hanesyddol yn cael eu gwarchod a'u hadfer. 			

SP 16: Newid yn yr Hinsawdd			
Amcan yr ACI	Arfarniad	Sylwadau	
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	++	Mae'r polisi yn cefnogi'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd mewn datblygiadau yn y dyfodol ac yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Sir Gaerfyrddin.	
ACI2 – Bioamrywiaeth	+	Bydd annog trafndiaeth gynaliadwy yn arwain yn ei dro at effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer, sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig penodol yn y Sir ar hyn o bryd.	
ACI3 – Ansawdd Aer	+	Bydd annog trafndiaeth gynaliadwy yn arwain yn ei dro at effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer trwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â cheir.	
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	++	Mae'r polisi hwn yn cefnogi prosesau lleihau allyriadau carbon yn ogystal â diogelu datblygiadau newydd ar gyfer risg llifogydd yn y dyfodol, gan gynnwys cyfeirio at TAN 15. Mae hefyd yn annog pob datblygiad newydd i fod yn effeithlon o ran ynni ac i ymgorffori cynllun sy'n gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.	
ACI5 – Dŵr	+	Mae annog ymgorfforiad systemau draenio trefol cynaliadwy mewn gwaith datblygu yn y dyfodol, yn ogystal â chynllun a all wrthsefyll llifogydd yn cyd-fynd yn gadarnhaol ag ACI5.	
ACI6 - Asedau Materol	+	Mae'r polisi hwn yn sicrhau y caiff trafndiaeth gynaliadwy ei hystyried mewn datblygiadau newydd.	
ACI7 - Pridd	0		

ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol	0		
ACI9 – Tirwedd	0		
ACI10 – Poblogaeth	0		
ACI11 – Y Gymraeg	0		
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	Mae lleihau'r angen i deithio yn cefnogi teithio llesol.	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	?	Ceir potensial i feithrin datblygiad sgiliau sy'n gysylltiedig â chynllun arloesol sy'n ymateb i'r hinsawdd.	
ACI14 – Yr Economi	?	Yn anuniongyrchol yn hyrwyddo swyddi gwyrdd a busnesau cynaliadwy.	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	?	Mae gan ddyluniad sy'n ymateb i'r hinsawdd y potensial i wella diogelwch a sicrwydd i bobl ac eiddo.	
Sylwadau ac Awgrymiadau ynghylch yr ACI			
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen gwneud datganiad cryfach i ymrwymiad i leihau allyriadau carbon mewn polisïau. Dylid cyfeirio'n benodol at y cynnig ar newid yn yr hinsawdd a basiwyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2019 a arweiniodd at ddatgan argyfwng hinsawdd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Dylai'r CDLI wneud cyfeiriad yn rhywle yn y cynllun adneuo at sut mae'r CDLI yn ceisio mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd hwn. 			

- Nid yw'r polisi yn sôn am fanteision Seilwaith Gwyrdd, o liniaru a chynyddu gwytnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn enwedig fel dalfeydd carbon. Byddai cyfeirio at seilwaith gwyrdd yn arwain at newid o ddim effaith i effeithiau positif ar AC17 - pridd. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn argymhell y dylid cyfeirio'n benodol at fuddion amlswyddogaethol seilwaith gwyrdd ar gyfer gwytnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd a lliniaru yn y polisi hwn.

SP 17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd			
Amcan yr ACI	Arfarniad	Sylwadau	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	++	Mae'r polisi hwn yn sylfaen i'r gallu i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, trwy leihau'r defnydd o geir preifat a sicrhau mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.	
ACI2 – Bioamrywiaeth	+	Bydd defnyddio llai ar geir preifat yn lleihau'r llygryddion aer cysylltiedig sy'n effeithio'n negyddol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd mewn rhai ardaloedd o Sir Gaerfyrddin.	
ACI3 – Ansawdd Aer	++	Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni rhwydwaith teithio cynaliadwy a fydd yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar wella ansawdd aer.	
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	+	Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni rhwydwaith teithio cynaliadwy a fydd yn lleihau'r defnydd o geir preifat ac allyriadau nwyon tŷ gwyrdd cysylltiedig.	
ACI5 – Dŵr	0		

ACI6 - Asedau Materol	++	Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at gyflawni rhwydwaith teithio cynaliadwy a fydd yn cynnwys teithio llesol fel cerdded a beicio, yn ogystal â defnydd o gar trydan.	
ACI7 - Pridd	0		
ACI8	0		
ACI9 – Tirwedd	0		
ACI10 – Poblogaeth	+	Mae'r polisi hwn yn ceisio mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol trwy gynyddu mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau.	
ACI11 – Gymraeg	0		
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	Mae'r polisi hwn yn ceisio cynyddu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau iechyd a hamdden, a hefyd mae'n ceisio gwella mynediad i lwybrau teithio llesol.	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	Mae'r polisi hwn yn ceisio cynyddu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys cyfleusterau addysg a sgiliau.	
ACI14 – Economi	0		
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	Mae'r polisi hwn yn ceisio mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol trwy gynyddu mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau.	
Sylwadau ac Awgrymiadau ynghylch yr ACI			
<ul style="list-style-type: none"> Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar y Fframwaith ACI o ganlyniad i'r polisi hwn. Awgrymir cyfeirio yn y testun ategol at ddatblygiadau mewn lleoliadau gwledig, a'u lleoli, yn ddefnyddiol, o fewn ac yn ymyl aneddiadau sy'n elwa ar wasanaethau a chyfleusterau allweddol, yn hytrach na lleoliadau sydd ar wasgar yng nghefn gwlad. 			

SP 18: Adnoddau Mwynol			
Amcan yr ACI	Arfarniad	Sylwadau	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	I	Mae'r graddau y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ACI1 yn ddibynol ar y dewis o safleoedd a'r modd y cânt eu datblygu.	
ACI2 – Bioamrywiaeth	-	Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar nodweddion ecolegol sensitif. Mae gwaith mwynau hefyd yn debygol o fod wedi'i leoli mewn ardaloedd heb eu datblygu/meysydd glas.	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4: Seilwaith Gwyrdd - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
ACI3 – Ansawdd Aer	-	Caiff lleoliad agregau ei yrru gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly bydd yn anodd lleihau'r pellteroedd sy'n ofynnol i gludo nwyddau.	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	-	Caiff lleoliad agregau ei yrru gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly bydd yn anodd lleihau'r pellteroedd sy'n ofynnol i gludo nwyddau.	
ACI5 – Dŵr	-	Tra bod y graddau y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ACI5 yn ddibynol ar y dewis o safleoedd a'r modd y cânt eu datblygu, ni ellir osgoi'n llwyr yr effaith ar adnoddau dŵr daear.	
ACI6 - Asedau Materol	0	Mae'r polisi hwn yn diogelu cronfeydd agregau i sicrhau eu bod ar gael yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwysu prosesau tynnu adnoddau	

		mwynol â defnyddio deunyddiau ailgylchu ac eilaidd. Fodd bynnag, mae'r polisi yn cyfeirio'n benodol at wneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer ail-ddefnyddio ac ailgylchu mwynau addas fel dewis amgen yn lle agregau crai.	
ACI7 - Pridd	-	Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar adnoddau pridd penodol.	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol	I	Mae'r graddau y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ACI8 yn ddibynnol ar y dewis o safleoedd a'r modd y cânt eu datblygu.	SP15: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy
ACI9 – Tirwedd	-	Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar ardaloedd tirwedd sensitif. Mae gwaith mwynau hefyd yn debygol o fod wedi'i leoli mewn ardaloedd heb eu datblygu.	MR1: Cynigion Mwynau
ACI10 – Poblogaeth	0		
ACI11 – Y Gymraeg	0		
ACI12 – Iechyd a Llesiant	-	Tra bod y graddau y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ACI12 yn ddibynnol ar y dewis o safleoedd a'r modd y	

		cânt eu datblygu, bydd yna effeithiau (mewn amrywiol raddau) ar iechyd dynol a llesiant. Gall datblygu gyfyngu ar fynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru gan effeithio ar lesiant, a gall llygryddion drwy sawl cyfrwng (sŵn, aer a dŵr) effeithio ar iechyd pobl.	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	0		
ACI14 – Yr Economi	+	Mae echdynnu agregau yn cefnogi datblygiad a thwf economaidd.	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	0		
Sylwadau ac Awgrymiadau ynghylch yr ACI			
<ul style="list-style-type: none"> Er mwyn lliniaru'r polisi hwn ymhellach yn erbyn ACI4 Ffactorau Hinsoddol, dylid cyfeirio yn y polisi at sicrhau, lle bo modd, fod cloddio am fwynau'n defnyddio cysylltiadau trafndiaeth fel trafndiaeth rheilffyrdd/neu ddŵr yn hytrach na chludo nwyddau ar ffyrdd. Awgrymir ychwanegu datganiad clir yn egluro na fydd y Cyngor yn cefnogi datblygiad gwaith glo ar dir neu waith olew neu nwy anghonfensiynol, gan gynnwys archwilio, gwerthuso ac echdynnu olew a nwy drwy ddulliau anghonfensiynol (gan gynnwys gwneud tyllau turio), oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu dangos bod y cynnig yn cydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol. Egluro bod petrolewm yn cyfeirio at unrhyw olew mwynol neu hydrocarbon cymharol a nwy naturiol sy'n bodoli yn ei strata naturiol fel y'i diffinnir yn Neddf Petrolewm 1998. Mae hyn felly'n cynnwys olew a nwy siâl a methan gwely glo. Mae'r diffiniad o lo wedi'i godi o Ddeddf Diwydiant Glo 1994. Mae hyn yn cynnwys glo a nweiddio glo tanddaearol. Er mwyn lliniaru'r effeithiau gweddilliol ar ACI7 – Pridd, dylid ychwanegu geiriad at y testun ategol sy'n ei gwneud yn glir y bydd yn rhaid cadw unrhyw bridd a symudir o ganlyniad i'r broses echdynnu a'i ailosod yn yr un man. Er bod polisi penodol MR1 Cynigion Mwynau yn delio i raddau ag unrhyw effeithiau negyddol eraill ar ACI9 – Tirwedd, awgrymir bod geiriad ychwanegol ar ddiogelu cymeriad y Dirwedd ac amwynder gweledol yn cael ei roi yn y polisi hwn i atgyfnerthu pwysigrwydd hynny. 			

SP 19: Rheoli Gwastraff			
Amcan yr ACI	Arfarniad	Sylwadau	Polisiau Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	I	Mae'r graddau y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ACI1 yn ddibynnol ar y dewis o safleoedd a'r modd y cânt eu datblygu.	
ACI2 – Bioamrywiaeth	-	Gall unrhyw ddatblygiad neu drefniadau gwaredu gwastraff effeithio'n andwyol ar gynefinoedd naturiol. Fodd bynnag, mae'r polisi yn cyfeirio at sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd.	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4: Seilwaith Gwyrdd - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
ACI3 – Ansawdd Aer	I	Mae safleoedd Ynni o Wastraff wedi'u rheoleiddio'n llym o ran llygryddion fel SO ₂ , NO _x , HCl a CO. Yn y pen draw, mae effeithiau yn dibynnu ar y math o gyfleusterau rheoli gwastraff a'u lleoliad.	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas WM1 Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a Datblygiadau Newydd
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	I	Mae safleoedd Ynni o Wastraff wedi'u rheoleiddio'n llym o ran llygryddion fel SO ₂ , NO _x , HCl a CO. Yn y pen draw, mae effeithiau yn dibynnu ar y math o gyfleusterau rheoli gwastraff a'u lleoliad. Mae'r polisi yn cyfeirio at y posibilrwydd o gydleoli cyfleusterau rheoli gwastraff i greu rhwydweithiau gwres.	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas WM1 Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a Datblygiadau Newydd
ACI5 – Dŵr	0		

ACI6 - Asedau Materol	+	Mae'r polisi hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr hierarchaeth wastraff ac at hyrwyddo dulliau o ailgylchu a lleihau gwastraff.	
ACI7 - Pridd	-	Gall cael gwared ar wastraff, gan gynnwys safleoedd tirlenwi a gwaredu lludw o safleoedd Ynni o Wastraff effeithio'n andwyol ar adnoddau pridd.	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol	I	Mae'r graddau y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ACI8 yn ddibynnol ar y dewis o safleoedd a'r modd y cânt eu datblygu.	SP15: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd PSD2: Egwyddorion Uwchgyllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy
ACI9 – Tirwedd	I	Mae'r polisi yn cyfeirio'n uniongyrchol at sicrhau nad yw'r un cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar amwynder lleol	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd BHE2: Cymeriad y Dirwedd
ACI10 – Poblogaeth	0		
ACI11 – Y Gymraeg	0		
ACI12 – Iechyd a Llesiant	0	Mae'r polisi yn cyfeirio'n benodol at y rheidwydd sydd ar unrhyw ddatblygiad i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol, andwyol ar iechyd y cyhoedd.	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	0		

ACI14 – Yr Economi	+	Mae safleoedd rheoli gwastraff newydd yn creu swyddi a chyfleoedd cyflogaeth lleol a hirdymor.	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	0		
Sylwadau ac Awgrymiadau ynghylch yr ACI			
<ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r polisi gyfeirio at faen prawf sy'n datgan na ddylai fod yna unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd oherwydd cynigion rheoli gwastraff. • Awgrymir mwy yn y testun ategol ynglŷn â lleoliad cynaliadwy cyfleusterau rheoli gwastraff, yn arbennig pan fyddant wedi'u lleoli y tu allan i derfynau datblygu. • Er mwyn cryfhau'r mesurau lliniaru ymhellach yn erbyn yr effeithiau negyddol posibl ar ACI9 – Tirwedd, dylid cyfeirio at gadw dyluniad yr adeiladau yn gydnaws â'r dirwedd o'u hamgylch. • Cynnwys cyfeiriad at yr egwyddor agosatrydd i leihau'r pellter rhwng ble y caiff gwastraff ei gynhyrchu a'i reoli. • Awgrymir cynnwys rhai geiriau ynghylch pwysigrwydd seilwaith gwyrdd ar gyfer sgrinio llygredd gweledol, sŵn ac aer. 			

Atodiad G

**Polisiâu
Penodol ACI**

Atodiad G: Polisiâu Penodol ACI

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys arfarniad o 78 o bolisiâu penodol (a sylwadau cysylltiedig o ran yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig) sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI diwygiedig (wedi'u rhannu dros 18 o bolisiâu strategaeth; sylwer nad yw SP6 yn cynnwys unrhyw bolisiâu penodol ac felly, nid yw'n cael ei gynnwys isod). Dylid ei darllen ar y cyd â Phennod 6.6 o adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Cyflwynir crynodeb o ganlyniadau'r arfarniad yn erbyn y Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn Nhabl 20 o adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Lle bo'n berthnasol, ymhelaethwyd ar y sylwadau ar gyfer y polisiâu hynny sydd wedi newid ychydig ers eu hasesiad blaenorol yn Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd (2020); fodd bynnag, darparwyd sylwadau newydd ar gyfer y polisiâu penodol newydd, y rhai sydd wedi newid yn fawr o ran cyd-destun/geiriad, a'r rhai sydd wedi'u sgorio'n wahanol gan ystyried gwaelodlin/cwmpas wedi'i ddiweddarau.

Mae'r tabl isod yn cynnwys y meini prawf asesu ar gyfer polisiâu drafft a dewisiadau amgen rhesymol, fel y'u haddaswyd o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru Rhifyn 3 (2020).

Symbol	Effaith a Ragwelir	Camau/ymateb a awgrymir
++	Effaith gadarnhaol iawn – byddai testun yr arfarniad o help mawr i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd.	Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol iawn ymhellach
+	Effaith gadarnhaol – byddai testun yr arfarniad yn helpu i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd.	Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach
+/-	Effeithiau cadarnhaol a negyddol – byddai testun yr arfarniad yn helpu rhai elfennau o'r amcan Cynaliadwyedd ond yn llesteirio elfennau eraill.	Ystyried camau lliniaru ar gyfer yr effeithiau negyddol ac a ellir gwella'r effeithiau cadarnhaol
-	Effaith negyddol – byddai testun yr arfarniad yn amharu ar yr amcan Cynaliadwyedd.	Ystyried camau lliniaru fel dileu/ailstyried/diwygio'r polisi neu'r dyraniad safle; ailstyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig.
--	Effaith negyddol iawn – byddai testun yr arfarniad yn amharu'n sylweddol ar yr amcan Cynaliadwyedd.	Dulliau lliniaru sylweddol i leihau difrifoldeb neu effaith; ailstyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig
I	Bydd effaith ar yr amcan Cynaliadwyedd yn dibynnu ar sut y gweithredir y polisi a'r dyraniad	Awgrymiadau ar gyfer gweithredu
0	Effaith niwtral o gymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried a allai ymyrraeth ddod ag effeithiau cadarnhaol
?	Effaith ansicr - mae angen rhagor o wybodaeth	Ystyried o ble bydd hyn yn dod – gan bwy mae'r wybodaeth? Sut y caiff ei chasglu? Pryd y caiff ei chasglu?

SP1 Twf Strategol				
Polisiâu Penodol	SG1: Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg SG2: Safleoedd wrth Gefn SG3: Penrhyn Pen-bre			
Amcan yr ACI	SG1	SG2	SG3	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	I	I	I	Gweler y polisiâu perthnasol isod
ACI2 – Bioamrywiaeth	-	-	-	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
ACI3 – Ansawdd Aer	-	-	-	PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD12: Llygredd Golau ac Aer
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	I	I	-	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd

				TRA2: Teithio Llesol
ACI5 – Dŵr			-	SP 9: Seilwaith SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgylchoedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus (SG3)
ACI6 - Asedau Materol	+		+	
ACI7 - Pridd	+/-		+/-	PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol				SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth BHE2: Cymeriad y Dirwedd NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd PSD2: Egwyddorion Uwchgyllunio - Creu Cymdogaethau Cynaliadwy.
ACI9 – Tirwedd				SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy

				SP 14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol SP 15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth BHE2: Cymeriad y Dirwedd PSD11: Llygredd Sŵn PSD12: Llygredd Golau ac Aer NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol
ACI10 – Poblogaeth	++	+	++	
ACI11 – Y Gymraeg	+/-	+/-	+/-	SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd PSD9: Hysbysebion
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+		+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+		+	
ACI14 – Yr Economi	++	++	++	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+		+	
Sylwadau				

Mae'r tri pholisi hyn yn unigol yn ceisio cefnogi economi gynaliadwy ac yn darparu cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol (ACI1), a bydd safleoedd cyflogaeth defnydd cymysg yn darparu cyfleoedd cyflogaeth/busnes (ACI14). Mae pob datblygiad yn debygol o gynyddu llygredd lleol (aer, dŵr, neu dir (halogi pridd)) ac felly bydd angen mynd i'r afael â hyn yn briodol yn unol â'r hierarchaeth lliniaru (osgoi, lleihau, lliniaru a/neu wneud iawn am golled).

SG1 – Roedd yr arfarniad hwn yn ystyried effeithiau tebygol darparu pob dyraniad defnydd cymysg a amlinellir yn y polisi. Mae nifer o safleoedd yn parchu seilwaith cyfagos presennol (e.e., PrC1/MU2, PrC1/MU3) (ACI6/12/13/15), ac ychydig sy'n defnyddio tir llwyd sy'n gwarchod adnoddau pridd (ACI7). Serch hynny, bydd pob safle yn cael ei asesu ar wahân yn fanylach o fewn adran 6.8 o Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd defnyddio briffiau datblygu yn caniatáu i ystyriaeth fanylach gael ei rhoi i unrhyw gyfyngiadau a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau, yn arbennig ystyried a chynnwys seilwaith gwyrdd a glas ac asedau bioamrywiaeth ar y safle. Mae'r perygl llifogydd yn cynyddu yng Nghymru ac er bod nifer cyfyngedig o'r safleoedd sydd yn rhan o SG1 wedi'u lleoli o fewn parth perygl llifogydd ar hyn o bryd (fel y nodir ym Mapiau Cyngor Datblygu TAN 15), mae'n bwysig bod ymateb addasol yn cael ei ystyried ar sail safleoedd unigol i sicrhau gwydnwch hinsawdd (4-3) ACI4. Felly, ar lefel strategol gyffredinol, mae'r effaith debygol ar ACI4 ac ACI5 yn dibynnu ar sut mae dyraniadau'n cael eu gweithredu.

SG2 – Croesewir cyfeiriad penodol yn y polisi at gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â dylunio o ansawdd da, seilwaith gwyrdd a glas a llwybrau teithio llesol. I leihau ymhellach unrhyw effeithiau negyddol ar ACI2 – Bioamrywiaeth, awgrymir bod cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at bolisi PS14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. Byddai'n rhaid i'r datblygu gydymffurfio â Nodyn Cyngor Technegol 15 a pholisi CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd, a fyddai'n lleihau i'r graddau mwyaf posibl y risgiau cysylltiedig â llifogydd, yn enwedig ar gyfer safleoedd mewn ardaloedd arfordirol. Ceisia'r polisi ddefnyddio safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen sy'n beth cadarnhaol yng nghyd-destun ACI7 – Pridd ac ACI9 – Tirwedd. Gall cynyddu'r gwaith sydd ar gael ledled y sir helpu i gadw pobl ifanc, a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar ACI11 - Y Gymraeg. Fodd bynnag, gall twf a mewnfudo wanhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn rhai ardaloedd.

SG3 - Mae Pen-bre yn draeth Baner Las ar hyn o bryd ond byddai angen rhoi dulliau priodol ar waith i leihau sbwriel i'r graddau eithaf posibl ac i ailgylchu cymaint ag y bo modd er mwyn diogelu ansawdd y dŵr. Mae'r penrhyn hefyd wedi'i amgylchynu gan barth llifogydd C2, gan gynnwys y mynediad a'r allanfa i'r safle. Byddai'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod unrhyw ddatblygiad sy'n cael ei ystyried mewn perygl yn cydymffurfio â'r amodau dan Nodyn Cyngor Technegol 15. Mae'r penrhyn hefyd yn ardal o fioamrywiaeth a gwerth diwylliannol uchel a byddai angen i unrhyw gynigion ystyried hyn yn ofalus mewn unrhyw gais. Byddai angen i ddatblygu fod yn sensitif a chadw'n gydnaws â'r amgylchedd naturiol ac unigryw er mwyn lleihau unrhyw effeithiau posibl ar ACI9 Tirwedd.

Sylwadau ac Argymhellion yr ACI

SG1 – Sicrhau bod safleoedd yn cael eu hasesu'n briodol, gan gyfeirio at yr effeithiau andwyol tebygol fel y nodir ar lefel strategol.

SG2 - Awgrymu bod cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at bolisi SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol.

SG3 - Awgrymu bod mwy o eiriad yn cael ei ychwanegu at y testun ategol am bwysigrwydd diwylliannol a bioamrywiaeth Pen-bre (gan nodi polisïau lliniaru yn benodol). Byddai angen i'r Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig fod yn eglur am ddylunio a thirwedd yn ogystal â threftadaeth ddiwylliannol a bioamrywiaeth er mwyn sicrhau bod cyn lleied o effeithiau negyddol ar y dirwedd â phosibl.

SP2: Adwerthu a Chanol Trefi			
Polisiâu Penodol	RTC1: Diogelu siopau a chyfleusterau lleol RTC2: Adwerthu mewn Ardaloedd Gwledig		
Amcan yr ACI	RTC1	RTC2	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+	I	Gweler y polisiâu perthnasol isod (ACI2/7)
ACI2 – Bioamrywiaeth	0	-	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
ACI3 – Ansawdd Aer	+/-	+	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	+/-	+	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd TRA2: Teithio Llesol

ACI5 – Dŵr	0	I	<p>SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr</p> <p>CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd</p> <p>INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgylchoedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus (RTC3)</p>
ACI6 - Asedau Materol	+	+	
ACI7 - Pridd	+	-	<p>PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas</p> <p>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</p> <p>PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd</p>
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	+	0	
ACI9 – Tirwedd	+	I	<p>SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>SP 14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</p> <p>SP 15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol</p> <p>BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth</p> <p>BHE2: Cymeriad y Dirwedd</p> <p>PSD11: Llygredd Sŵn</p> <p>PSD12: Llygredd Golau ac Aer</p> <p>NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol</p>

ACI10 – Poblogaeth	+	+	
ACI11 – Y Gymraeg	+	+	
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	+	
ACI14 – Yr Economi	++	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	+	
Sylwadau			
<p>Mae'r ddau bolisi hyn yn unigol yn ceisio cefnogi economi gynaliadwy ac yn darparu cyfle i ddiwallu anghenion yn lleol (ACI1), a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth/busnes (ACI14).</p> <p>RTC1 – Diogelu siopau a chyfleusterau lleol a fydd yn helpu i sicrhau y gellir diwallu anghenion yn lleol heb ddefnyddio ceir preifat. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ACI3 Ansawdd Aer, ACI4 Ffactorau Hinsoddol ac ACI6 Asedau Materol. Mae'r polisi hwn hefyd yn sgorio'n gadarnhaol yn erbyn amcanion economaidd-gymdeithasol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, gan y bydd cadw'r cyfleusterau a'r gwasanaethau yn helpu i gadw pobl ifanc drwy ddarparu swyddi a mynediad at ddatblygu sgiliau. Mae'r brif ardal adwerthu a'r ardal adwerthu eilaidd yng Nghaerfyrddin ill dwy o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Gallai cynyddu'r ddarpariaeth adwerthu yn yr ardal hon arwain at gynnydd mewn danfoniadau a cherbydau nwyddau trwm yn yr ardal, a fydd yn cael effaith negyddol ar ansawdd aer. Dylid ystyried y cynnydd canlyniadol mewn allyriadau CO2 hefyd. Fodd bynnag, caiff Canol Tref Caerfyrddin ei wasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus, sy'n gyfle i leihau'r llygredd aer a'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â defnyddio ceir preifat. Mae gwella'r ddarpariaeth adwerthu yng nghanol trefi yn debygol o annog diwallu anghenion yn lleol drwy gadw ddarpariaeth adwerthu allweddol, a bydd hynny'n fanteisiol hefyd o ran yr economi, addysg a sgiliau.</p> <p>RTC2 – Gall darparu gwasanaethau a chyfleusterau mewn ardaloedd gwledig leihau'r defnydd o geir preifat ac, yn ei dro, wella ansawdd yr aer ac allyriadau carbon cysylltiedig. Mae datblygu gwledig yn debygol o arwain at ddatblygu tir glas sy'n gallu bod yn uchel ei fioamrywiaeth a/neu werth pridd.</p>			

Fodd bynnag, gellir lliniaru hyn yn briodol drwy gydymffurfio â pholisi SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol a pholisïau penodol cysylltiedig. Er mwyn sicrhau bod ACI1 yn cael ei gyflawni, rhaid sicrhau dulliau lliniaru sy'n gysylltiedig ag ACI2 ac ACI7.

Sylwadau ac Argymhellion yr ACI

RTC2 - Cydnabyddiaeth yn y polisi bod y brif ardal adwerthu a'r ardal adwerthu eilaidd sydd yng nghanol y dref o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer ac y byddai ceisiadau adwerthu yn amodol ar gyflwyno Asesiad Ansawdd Aer yn unol â Pholisi PSD12 Ansawdd Golau ac Aer.

Pob un – dylai polisïau gyfeirio at y gofyniad posibl eu bod yn cyflawni WL1 ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg trwy PSD9.

SP3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau		
Polisiâu Penodol	SD1: Terfynau Datblygu	
Amcan yr ACI	SD1	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	I	Gweler yr holl bolisiâu perthnasol isod.
ACI2 – Bioamrywiaeth	+/-	<p>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</p> <p>NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol</p> <p>NE2: Bioamrywiaeth</p> <p>NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw</p> <p>PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas</p> <p>PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd</p>
ACI3 – Ansawdd Aer	+/-	<p>PSD12: Llygredd Golau ac Aer</p> <p>PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas</p>
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	+	
ACI5 – Dŵr	I	<p>SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr</p>

		CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgyloedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus
ACI6 - Asedau Materol	+	
ACI7 - Pridd	+/-	PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol		SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy
ACI9 – Tirwedd		SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd BHE2: Cymeriad y Dirwedd
ACI10 – Poblogaeth	+	
ACI11 – Y Gymraeg	?	SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd PSD9: Hysbysebion
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	

ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	
ACI14 – Yr Economi	++	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	++	
Sylwadau		
<p>Mae gan unrhyw ddatblygiadau'r potensial i effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, bydd defnyddio terfynau datblygu yn atal unrhyw ddatblygiadau amhriodol yng nghefn gwlad, a fydd yn diogelu tiroedd glas sydd heb gael eu troi rhag cael eu datblygu. Mae hyn hefyd yn wir am effeithiau ar Bridd. Mae polisi SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, yn ogystal â pholisïau NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol, NE2: Bioamrywiaeth, NE3: Coridorau, rhwydweithiau a nodweddion unigryw, PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas, PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas – Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd oll yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol gweddilliol y mae datblygu yn eu cael ar ACI2 - Bioamrywiaeth ac ACI7 - Pridd.</p> <p>Mae cyfeirio twf i leoliadau cynaliadwy â digon o fynediad at wasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o leihau'r defnydd o geir preifat a'r llygredd aer cysylltiedig. Fodd bynnag, mae gan brif ganolfannau fel Llanelli a Chaerfyrddin broblemau eisoes o ran ansawdd aer megis Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, a gall cynyddu twf yn yr ardaloedd hyn arwain at ddirywiad pellach mewn ansawdd aer. Gall polisïau PSD12: Llygredd Golau ac Aer a PSD3: Seilwaith Gwyrdd a Glas lliniaru'r effeithiau posibl hyn.</p> <p>Gall unrhyw effeithiau negyddol posibl ar ACI8 neu ACI9 wrth weithredu'r polisi hwn gael eu lliniaru gan bolisïau SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol, PSD1: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy, PSD2: Egwyddorion Uwchgyllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy, SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy a BHE2: Cymeriad y Dirwedd.</p> <p>Er mwyn gwarchod adnoddau dŵr, dylai terfynau datblygu roi sylw i gyflenwad dŵr, cysylltiad carthffosiaeth, a/neu ddichonoldeb ehangu rhwydweithiau presennol gyda digon o gapasiti o ran maethynnau yn y gwaith trin dŵr gwastraff sy'n gwasanaethu'r ardal honno (mewn cydweithrediad â Dŵr Cymru).</p> <p>Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag ACI15 ac mae'n rhoi rhywfaint o ystyriaeth i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol y Cyngor, gan annog darparu tai mewn ardaloedd gwledig i sicrhau hyfywedd hirdymor cymunedau gwledig. Mae'n anodd pennu'r graddau y mae'n cyd-fynd ag ACI11 oherwydd nad oes digon o ddata ar gael sy'n seiliedig ar effaith terfynau datblygu ar iaith/diwylliant.</p>		
Sylwadau ac Argymhellion yr ACI		

Sicrhau bod polisiau lliniaru yn cwmpasu'r holl senarios posibl a allai gael eu datblygu ym mhob haen er mwyn osgoi amgylchiadau a fydd yn debygol o arwain at effeithiau amgylcheddol andwyol.

SP4: Dull Cynaliadwy o Ddarparu Cartrefi Newydd											
Polisiau Penodol	<p>HOM1: Dyraniadau Tai</p> <p>HOM2: Tai o fewn Terfynau Datblygu</p> <p>HOM3: Cartrefi mewn Pentrefi Gwledig</p> <p>HOM4: Cartrefi mewn Aneddiadau Gwledig Anniffiniedig</p> <p>HOM5: Addasu neu Isrannu Anheddau Presennol</p> <p>HOM6: Tai Arbenigol</p> <p>HOM7: Adnewyddu Adeiladau Adfeiliedig neu Adawedig</p> <p>HOM8: Carafanau Preswyl</p> <p>HOM9: Datblygiad Preswyl Ategol</p>										
	Amcan yr ACI	HOM1	HOM2	HOM3	HOM4	HOM5	HOM6	HOM7	HOM8	HOM9	Polisiau Lliniaru
	ACI1 – Datblygu Cynaliadwy										Gweler y polisiau perthnasol isod
	ACI2 – Bioamrywiaeth	+/-	+/-	-	-			-			<p>SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</p> <p>NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol</p> <p>NE2: Bioamrywiaeth</p> <p>NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw</p>

										<p>PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas</p> <p>PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd</p>
ACI3 – Ansawdd Aer	-		+	+	-	0	-	0	0	<p>PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas</p> <p>PSD12: Llygredd Golau ac Aer</p>
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol						0		0		<p>SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan</p> <p>CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd</p> <p>TRA2: Teithio Llesol</p>
ACI5 – Dŵr										<p>SP 9: Seilwaith</p> <p>SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr</p> <p>CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd</p> <p>INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgylchoedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus (SG3)</p>

ACI6 - Asedau Materol		+	+	+	-	+	+/-		-	<p>SP 9: Seilwaith</p> <p>SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan</p> <p>TRA2: Teithio Llesol</p>
ACI7 - Pridd					0	0	+		0	<p>PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas</p> <p>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</p> <p>PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd</p>
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol							+	0	0	<p>SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol</p> <p>BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth</p> <p>BHE2: Cymeriad y Dirwedd</p> <p>NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol</p> <p>SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd</p> <p>PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio - Creu Cymdogaethau Cynaliadwy.</p>

ACI9 – Tirwedd	+/-				+/-		+			<p>SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>SP 14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</p> <p>SP 15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol</p> <p>BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth</p> <p>BHE2: Cymeriad y Dirwedd</p> <p>PSD11: Llygredd Sŵn</p> <p>PSD12: Llygredd Golau ac Aer</p> <p>NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol</p>
ACI10 – Poblogaeth	+	+	+	+	+	+	+	+	+	
ACI11 – Y Gymraeg	+	+	+	+	?	+	?	?	?	<p>SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru</p> <p>WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd</p> <p>PSD9: Hysbysebion</p>
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	+	+	+	0	+	0	0	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	+	+	+	0	0	0	0	0	

ACI14 – Yr Economi	++	+	+	+	0	+	0	+	0	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	+	+	+	+	+	+	0	+	

Sylwadau

Mae'r polisïau hyn yn ceisio cefnogi economi gynaliadwy drwy ddarparu cyfleoedd i ddiwallu anghenion yn lleol (ACI1). Fodd bynnag, fel mater o egwyddor, mae pob datblygiad yn debygol o gynyddu llygredd lleol (aer, dŵr, neu dir (halogi pridd)) a bydd angen mynd i'r afael â hyn yn briodol yn unol â'r hierarchaeth lliniaru (osgoi, lleihau, lliniaru a/neu wneud iawn am golled). O ganlyniad, mae hyn yn gwrthdaro ag 1-1 ACI1 ac, felly, rhagwelir bod yr effaith yn ddibynnol ar weithredu'r polisi/dyraniadau. Hefyd, mae tai fforddiadwy yn y polisïau hyn a thai arbenigol yn debygol o gael effaith gadarnhaol drwy (1-4) gael gwared â rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer newid ymddygiad. Mae'r perygl llifogydd yn cynyddu yng Nghymru ac er bod nifer cyfyngedig o'r safleoedd sydd yn rhan o HOM1 wedi'u lleoli o fewn parth perygl llifogydd ar hyn o bryd (fel y nodir ym Mapiau Cyngor Datblygu TAN 15), mae'n bwysig bod ymateb addasol yn cael ei ystyried ar sail safleoedd unigol i sicrhau gwydnwch hinsawdd (4-3) ACI4. Felly, ar lefel strategol gyffredinol, mae'r effaith debygol ar ACI4 ac ACI5 yn dibynnu ar sut mae dyraniadau'n cael eu gweithredu.

HOM1 – Roedd yr arfarniad hwn yn ystyried effeithiau tebygol darparu pob dyraniad a amlinellir yn y polisi. Serch hynny, bydd pob safle yn cael ei asesu ar wahân yn fanylach o fewn adran 6.8 o Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Bydd defnyddio briffiau datblygu yn caniatáu i ystyriaeth fanylach gael ei rhoi i unrhyw gyfyngiadau a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau, yn arbennig ystyried a chynnwys seilwaith gwyrdd a glas ac asedau bioamrywiaeth ar y safle.

HOM2 – Mae terfynau datblygu yn debygol o osgoi niwed i fioamrywiaeth mewn ardaloedd gwledig ond gallant roi pwysau ar fioamrywiaeth drefol.

HOM3/HOM4 - Mae'r polisïau hyn yn annog datblygiadau ar raddfa fach mewn pentrefi ac aneddiadau gwledig. Mae hyn yn debygol o annog cadw gwasanaethau a chyfleusterau mewn ardaloedd gwledig, ac felly dylai leihau'r defnydd o geir preifat a'r effeithiau cysylltiedig ar ansawdd aer. Gall datblygiadau ar raddfa fach mewn aneddiadau leihau'r tebygolrwydd o ddatblygu tir glas, ond rhaid sicrhau bod seilwaith digonol ar gael i gefnogi twf mewn pentrefi gwledig. Bydd twf rheoledig mewn ardaloedd o'r fath yn helpu i gadw cymunedau gwledig gyda'i gilydd, a bydd hyn yn ei dro yn annog cadw pobl ifanc, yn diogelu'r Gymraeg ac yn hwyluso'r economi wledig.

HOM5 - Gall trosi adeiladau yn rhai amfeddiannaeth arwain at fwy o geir mewn ardal. Gallai fod gan hyn oblygiadau o ran ansawdd aer ac allyriadau carbon, yn enwedig mewn ardaloedd trefol (gan gynnwys Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer). Dylid mwyhau cysylltiadau â llwybrau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a dylai'r polisi sicrhau bod llefydd pwrpasol ar gael i gadw beiciau. Mae'r polisi'n cyfeirio at sicrhau bod ansawdd, cymeriad a golwg yr adeilad yn cael eu diogelu. Fodd bynnag, dylai'r polisi gyfeirio mwy at y defnydd o'r adeilad pan fydd wedi'i adeiladu a sicrhau bod darpariaeth effeithiol o ran storio, a hynny ar gyfer sbwriel, deunydd ailgylchu, a beiciau. Bydd y cyflenwad dŵr a'r cyflenwad carthffosiaeth yn destun ymgynghori â Dŵr Cymru, ac ni ddylent arwain at unrhyw effeithiau negyddol.

HOM6 - Drwy ddarparu tai arbenigol mae'r polisi hwn yn ceisio darparu fframwaith ar gyfer ystyried cynigion i wneud ystyriaethau priodol ar gyfer anghenion y rhai y mae angen gofalu arnynt. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ACI10 Poblogaeth, ACI12 Iechyd a Llesiant ac ACI15 Gwead Cymdeithas, gan fod y polisi'n sicrhau y diwellir anghenion poblogaeth Sir Gaerfyrddin sy'n heneiddio neu sy'n agored i niwed.

HOM7 - Gallai adnewyddu adeiladau adfeiliedig y tu allan i derfynau aneddiadau arwain at ddatblygu mewn man anghynaliadwy, sydd heb ddigon o fynediad i gyfleusterau, gwasanaethau, trafndiaeth gyhoeddus na llwybrau teithio llesol. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o ddefnydd ar geir preifat, ac, o ganlyniad, ddirywio ansawdd yr aer a chynyddu allyriadau carbon. Bydd adeiladau adfeiliedig yn aml yn cynnwys ystlumod neu fioamrywiaeth arall ac wrth eu hailddatblygu dylid sicrhau y cydymffurfir yn llawn â pholisi SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol ac NE2: Bioamrywiaeth, ond gellid cryfhau geiriad y polisi i liniaru'r effeithiau hyn ymhellach. Mae datblygiadau y tu allan i derfynau aneddiadau yn llai tebygol o fod yn agos at seilwaith ategol, a gallai fod angen defnyddio atebion llai cynaliadwy megis tanciau septig yn hytrach na chysylltu â'r rhwydwaith carthffosiaeth presennol. Serch hynny, mae'r math hwn o ddatblygiad yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar ACI7, ac o bosibl yn lleihau'r defnydd o adnoddau cyfyngedig a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o'i gymharu â datblygiad cwbl newydd.

HOM8 – Dylid gofalu nad oes dim effeithiau negyddol ar y dirwedd o ganlyniad i garafanau preswyl, yn ogystal â llygredd dŵr yn sgil gwaredu dŵr gwastraff/carthion.

HOM9 - Gall adeiladau gwledig o oedran penodol gynnwys rhywogaethau a warchodir y byddai'n rhaid ymchwilio iddynt drwy arolwg ecolegol fel rhan o unrhyw gais cynllunio. Caiff unrhyw botensial am effeithiau negyddol ei liniaru drwy gydymffurfio â pholisi SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol a pholisi NE2: Bioamrywiaeth, ond gellid cryfhau geiriad y polisi er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn ymhellach.

HOM5/7/8/9 – effaith anhysbys ar y Gymraeg. Gall y mathau hyn o ddatblygiad helpu i gadw pobl yn y Sir, ond mae'n anodd rhagweld effaith debygol hyn.

Sylwadau ac Argymhellion yr ACI

HOM1/2/3/4 – dylid gwneud cyfeiriad penodol at sicrhau bod tir halogedig / safleoedd tir llwyd yn cael eu hadfywio.

HOM5 – dylid cyfeirio'n benodol at sicrhau bod manau parcio beiciau diogel ar gael a mynediad i lwybrau teithio llesol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle mae problemau ansawdd aer yn bodoli. Dylai'r polisi hwn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys darpariaeth addas ac effeithiol ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff mewn dulliau cynaliadwy eraill.

HOM5 – dylai'r polisi hwn ystyried y perygl llifogydd a achosir i anheddau a datblygiad presennol. I'r rhai sy'n debygol o gael llifogydd, mae addasu/isrannu gyda'r nod o gynyddu meddiannaeth yn debygol o achosi perygl llifogydd i eraill mewn ardaloedd cymwys. I oresgyn hyn dylai nodi bod yn rhaid i ddatblygiadau fod yn wydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd/llifogydd ac, o bosibl, cynyddu gwydnwch yr annedd bresennol.

HOM7 - dylai'r polisi fod yn glir ynghylch sicrhau bod unrhyw gais am ddatblygu adeiladau gadawedig yn amlinellu sut mae gan y lleoliad fynediad i gyfleusterau a gwasanaethau neu sut mae'n hwylus i drafndiaeth gyhoeddus/teithio llesol. Ychwanegwch destun am rywogaethau a warchodir megis: Gall adeiladau gwledig traddodiadol ddarparu cynefinoedd pwysig i rywogaethau gwerthfawr, gan gynnwys ystlumod a thylluanod gwynion. Bydd angen i gynigion i

addasu adeiladau o'r fath sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar rywogaethau a warchodir yn unol â Pholisi NE2: Bioamrywiaeth a'r Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth.

SP5: Strategaeth Tai Fforddiadwy			
Polisiâu Penodol	AHOM1: Darparu Tai Fforddiadwy AHOM2: Tai Fforddiadwy – Safleoedd Eithriedig		
Amcan yr ACI	AHOM1	AHOM2	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy			Gweler y polisiâu perthnasol isod
ACI2 – Bioamrywiaeth	-	-	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
ACI3 – Ansawdd Aer			PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol			SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd TRA2: Teithio Llesol

ACI5 – Dŵr	I	I	<p>SP 9: Seilwaith</p> <p>SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr</p> <p>CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd</p> <p>INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgyloedd</p> <p>Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus (SG3)</p>
ACI6 - Asedau Materol	0	0	
ACI7 - Pridd	I	-	<p>PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas</p> <p>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</p> <p>PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd</p>
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	I	I	<p>SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol</p> <p>BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth</p> <p>BHE2: Cymeriad y Dirwedd</p> <p>NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol</p> <p>SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd</p> <p>PSD2: Egwyddorion Uwchgyllunio - Creu Cymdogaethau Cynaliadwy.</p>
ACI9 – Tirwedd	I	I	<p>SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>BHE2: Cymeriad y Dirwedd</p> <p>PSD11: Llygredd Sŵn</p>

ACI10 – Poblogaeth	++	++	
ACI11 – Y Gymraeg	+	+	
ACI12 – Iechyd a Llesiant			
ACI13 - Addysg a Sgiliau			
ACI14 – Yr Economi	+	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	++	++	
Sylwadau			
<p>Bydd darparu tai fforddiadwy yn helpu i sicrhau bod tai ar gael yn haws i'r rheiny nad ydynt yn gallu fforddio tai ar y farchnad agored. Mae hyn yn debygol o fod o fudd i bobl ifanc ac o helpu i'w cadw yn y sir, a fydd yn ei dro yn helpu i ddiogelu'r Gymraeg.</p> <p>Mae'r graddau y mae'r ddau bolisi hyn yn cyd-fynd ag ACI3/4/5/7/8/9/12/13 yn ddibynnol ar y dewis o safleoedd a'r modd y cânt eu datblygu. O ran ACI15, mae'r polisiâu hyn yn effeithio ar ddyluniad aneddiadau sy'n gwella gwead cymdeithas trwy ddileu rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol, drwy hyrwyddo darparu tai fforddiadwy.</p> <p>Mae'r polisi hwn yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol y Cyngor, gan annog y farchnad i gynnwys tai fforddiadwy i'r rhai sy'n profi anghydraddoldebau.</p> <p>Mae'n debygol y bydd y ddau yn cael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth a bydd AHOM2 yn cael effaith andwyol ar bridd gan ei fod yn caniatáu datblygu y tu allan i derfynau datblygu a allai gynnwys tir glas.</p>			
Sylwadau ac Argymhellion ynghylch yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig			

Sicrhau bod y diffiniad o anghenion lleol (fel sydd yn AHOM2) yn adlewyrchu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n deillio o wahaniaethau mewn galwedigaeth, addysg, man preswyllo, dosbarth cymdeithasol, neu/a nodwedd warchoddedig, gyda chysylltiad perthnasol â'r angen am dai fforddiadwy.

SP7: Cyflogaeth a'r Economi						
Amcan yr ACI	Polisiâu Penodol					Polisiâu Lliniaru
	EME1	EME2	EME3	EME4	EME5	
	EME1: Diogelu Safleoedd Cyflogaeth EME2: Cyflogaeth – Estyniadau a Dwysáu EME3: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Dyranedig EME4: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Nas Dyranwyd EME5: Busnesau sy'n Gweithio Gartref					
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+					Gweler y polisiâu perthnasol isod (ACI2/3/4/5/6/7/8/9)
ACI2 – Bioamrywiaeth	0		-	-		SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
ACI3 – Ansawdd Aer	0	-	-	-	0	PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD12: Llygredd Golau ac Aer
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	0	-	-	-	0	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy

						CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd TRA2: Teithio Llesol
ACI5 – Dŵr	0					SP 9: Seilwaith SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgyloedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus (SG3)
ACI6 - Asedau Materol	0	+	+	+	-	
ACI7 - Pridd	0				0	PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	0		0		0	
ACI9 – Tirwedd	0			0		SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy BHE2: Cymeriad y Dirwedd PSD11: Llygredd Sŵn
ACI10 – Poblogaeth	+	+	+/-	+	?	

ACI11 – Y Gymraeg	0	+	+	+	?	SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd PSD9: Hysbysebion
ACI12 – Iechyd a Llesiant	0	+	+	+	?	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	0	+	+	+	+	
ACI14 – Yr Economi	++	++	++	++	++	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	+	+	+	+	
Sylwadau						
<p>EME1 – Gall eithriadau a nodir yng ngeiriad y polisi ganiatáu ar gyfer mathau eraill o ddatblygiad sy'n fuddiol yn anuniongyrchol i ACI10/15 yn ddiabynnol ar y math o ddatblygiad. Mae'r ffactor hwn yn caniatáu i newidiadau gyd-fynd ag anghenion lleol. Serch hynny, prif ddiben y polisi hwn yw diogelu tir at ddefnydd cyflogaeth yn y dyfodol sydd â budd uniongyrchol i'r economi yn y dyfodol (ac sy'n ymwneud â Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).</p> <p>EME2 - Bydd y safleoedd hyn yn cael eu hasesu ar wahân yn fanylach o fewn adran 6.8 o Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r polisi hwn yn darparu mwy o gyfleoedd i fusnesau cynaliadwy a bach sydd â safleoedd defnydd cymysg (hefyd cyflogaeth, a buddion ffabrig trefol o bosibl). Fodd bynnag, gallai'r ystyriaeth hon hefyd ddefnyddio tir datblygu yn y dyfodol gan leihau'r tir sydd ar gael ar gyfer tai, os bydd o fewn ardaloedd sy'n cystadlu.</p> <p>EME4 - Nid yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ACI9 Tirwedd gan fod geiriad y polisi yn nodi bod yn rhaid i ddatblygiad fod o faint ac o fath sy'n gydnaws â'r ardal o'i gwmpas ac na fydd yn achosi unrhyw niwed annerbyniol i amwynder lleol. Dylai fod yn ofynnol i gynigion ar gyfer cyflogaeth wledig fod yn hygyrch drwy ddulliau eraill o deithio heblaw'r car preifat.</p> <p>EME5 – Mae'n anodd rhagweld a fyddai'r polisi hwn yn debygol o effeithio ar ACI10/11/12.</p>						

Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

EME2/EME3/EME4 – byddai cadw seilwaith gwyrdd a glas ar y safle yn helpu i ddiogelu amwynder eiddo cyfagos.

EME3/EME4 – dylid cyfeirio at y ffaith na ddylai cynigion datblygu fod yn niweidiol o ran cymeriad a golwg briodol y drefwedd / tirwedd, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth i oresgyn materion a ragwelir o ran ACI2.

EME3 – geiriad y **polisi** i osgoi gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddiau tir.

SP8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru		
Polisiâu Penodol	WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd	
Amcan yr ACI	WL1:	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+	
ACI2 – Bioamrywiaeth	0	
ACI3 – Ansawdd Aer	0	
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	0	
ACI5 – Dŵr	0	
ACI6 - Asedau Materol	0	
ACI7 - Pridd	0	
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	++	

ACI9 – Tirwedd	0	
ACI10 – Poblogaeth	++	
ACI11 – Y Gymraeg	++	
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	
ACI14 – Yr Economi	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	++	
Sylwadau		
<p>EME4 – Mae'r polisi hwn yn ceisio diogelu'r Gymraeg ar draws y sir gan ei bod wedi'i dynodi'n un ieithyddol sensitif, a bydd yn cael effaith gadarnhaol gref ar ACI8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac ACI11 y Gymraeg. Mae'r polisi hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â gofynion y Gymraeg.</p>		
Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig		
<p>Rhoi eglurder ynghylch yr angen a nodir yng ngeiriad y polisi am liniaru (bydd trosolwg yn y testun ategol yn ddigonol gan gadw manylion ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol).</p>		

Polisi Strategol	SP9: Seilwaith					
Polisiau Penodol	INF1: Rhwymedigaethau Cynllunio INF2: Cymunedau Iach INF3: Band Eang a Thelathrebu INF4: Gwaredu Dŵr Wyneb Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgyllchoedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus					
Amcan yr ACI	INF1	INF2	INF3	INF4	INF5	Polisiau Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+	+		+		
ACI2 – Bioamrywiaeth	+	0	-	+	+/-	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw
ACI3 – Ansawdd Aer	0	+	+	0	0	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	0	+	+	+	0	CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd
ACI5 – Dŵr	+	0	0	+	+	CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd

ACI6 - Asedau Materol	+	+	+	+	+	
ACI7 - Pridd	0	0	?	+	+/-	PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	+	0	0	0	0	
ACI9 – Tirwedd	+	+		+	+/-	SP 15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth BHE2: Cymeriad y Dirwedd PSD12: Llygredd Golau ac Aer NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol
ACI10 – Poblogaeth	+	+	+	+	+	
ACI11 – Y Gymraeg	+	0	+	0	?	SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd PSD9: Hysbysebion
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	++	+	+	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	+	+	0	0	

ACI14 – Yr Economi	0	+	++	+	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	+	+	0	+	
Sylwadau						
<p>INF1 – Gellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio i gyfrannu at wella seilwaith ategol megis ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, ysgolion ac addysg, iechyd, manau agored a seilwaith gwyrdd, amddiffynfeydd llifogydd, bioamrywiaeth a'r Gymraeg i sicrhau nad oes effeithiau negyddol o ganlyniad i'r datblygiad.</p> <p>INF2 - Mae'r gofyniad bod datblygiadau mawr yn destun Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cael effeithiau cadarnhaol cryf o ran ACI12 Iechyd a Llesiant. Mae geiriad y polisi yn cefnogi teithio llesol, seilwaith a manau gwyrdd hygyrch a defnyddiadwy, gan leihau anghydraddoldebau iechyd, mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch. Mae annog ffyrdd iach o fyw yn debygol o arwain at leihau'r angen am gyfleusterau iechyd, a all gael effaith gadarnhaol ar yr economi. Mae'r polisi hwn yn ymwneud ag elfennau iechyd meddwl yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac yn sicrhau nodau penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>INF3 - Mae sicrhau y bydd gan ddatblygiadau newydd fynediad at fand eang cyflym a dibynadwy yn debygol o hwyluso twf economaidd a galluogi gweithio'n hyblyg gartref. Mae hyn yn ddymunol i bobl ifanc yn ogystal â busnesau bach a bydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar wead cymdeithas a'r economi. Mae manteision eilaidd yn gysylltiedig â thelathrebu gwell hefyd, er enghraifft, gall gweithio gartref hefyd leihau cyfraddau cymudo a fydd o fudd i ansawdd aer ac allyriadau carbon. Mae'r datblygiadau hyn yn debygol o fod yn niweidiol i ACI2/9. Mae'n anodd rhagweld a fydd y math hwn o ddatblygiad yn cael effeithiau andwyol hirdymor ar bridd, er bod gwaith adeiladu megis pibellau tanddaearol yn debygol o achosi effeithiau andwyol byrdymor.</p> <p>INF4 - Mae'r polisi hwn yn ceisio diogelu ansawdd dŵr dalgylch Llanelli trwy reoli dŵr wyneb yn gynaliadwy. Mae'r polisi hwn yn perfformio'n dda iawn yn erbyn y Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.</p> <p>INF5 – Mae'r polisi hwn yn ceisio cael ateb i'r nifer fawr o garthffosydd preifat sy'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Mae hyn yn debygol o leihau llygredd gwasgaredig ac, felly, gwarchod bioamrywiaeth (a thirwedd o ganlyniad i hynny), ond mae'r polisi hwn yn cefnogi creu datblygiadau newydd mewn ardaloedd gwledig (safleoedd tir glas o bosibl) yn anuniongyrchol gan effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth a phridd, er y byddai'n fuddiol i hyfywedd hirdymor cymunedau lleol (gall hyn, yn ei dro, effeithio ar y Gymraeg ond mae'n anodd pennu hyn).</p>						
Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig						

INF5 – rhoi eglurder/cyfeirio at y polisiau lliniaru yn y testun ategol.

SP10: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr		
Polisiâu Penodol	GTP1: Llety Sipsiwn a Theithwyr	
Amcan yr ACI	GTP1	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	I	Gweler y polisiâu perthnasol isod.
ACI2 – Bioamrywiaeth	I	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI3 – Ansawdd Aer	0	
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	-	SP9: Seilwaith CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd SP16: Newid yn yr Hinsawdd
ACI5 – Dŵr	I	CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd
ACI6 - Asedau Materol	+	
ACI7 - Pridd	-	PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas

		SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	0	
ACI9 – Tirwedd	I	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy BHE2: Cymeriad y Dirwedd PSD11: Llygredd Sŵn
ACI10 – Poblogaeth	+	
ACI11 – Y Gymraeg	?	SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd PSD9: Hysbysebion
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	
ACI14 – Yr Economi	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	++	
Sylwadau		

Mae gan ddatblygu o unrhyw fath y potensial i effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth ac adnoddau pridd, ond gellir lliniaru hyn yn ddigonol drwy gydymffurfio â SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. Yn yr un modd, byddai angen i unrhyw gynnydd ar gyfer safleoedd sipsiwn newydd neu estyniadau i safleoedd presennol sicrhau bod digon o adnoddau dŵr a charthffosiaeth ar gael mewn ymgynghoriad â Dŵr Cymru adeg cyflwyno'r cais cynllunio, ac mae mynediad digonol i gyfleustodau yn ystyriaeth benodol yn y polisi. Mae'r polisi hwn yn ceisio darparu ar gyfer anghenion grwpiau lleiafrifol ac felly rhagwelir effeithiau cadarnhaol o ran dyletswyddau ac amcanion economaidd-gymdeithasol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

Anodd yw pennu faint y mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ACI11. Gall twf a mewnfudo wanhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n cynyddu'r potensial i gadw siaradwyr Cymraeg ifanc yn y sir ac felly gall arwain at effaith gadarnhaol hefyd.

Mae lleoliad y safle sydd newydd gael ei gynnydd yn agos iawn at ddatblygiadau preswyl a masnachol presennol. Dylid cynnal coridorau seilwaith gwyrdd presennol hefyd fel clustogfeydd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y dirwedd.

Mae gan y polisi hwn rywfaint o gysylltiad â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb drwy roi sylw i'r anghydraddoldebau sy'n deillio o wahaniaethau mewn galwedigaeth, addysg, man preswyl, dosbarth cymdeithasol, neu/a nodwedd warchoddedig. Mae'n cefnogi ACI15 yn uniongyrchol trwy gael gwared â rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol, a gwella hygyrchedd i wasanaethau, yn enwedig i rannau difreintiedig o'r gymdeithas.

Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Argymhellir bod y Cyngor yn ystyried yn briodol a yw SP9 yn cydymffurfio â'r gofynion polisi a geir ym Mholisi CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd mewn perthynas â pherygl llifogydd. Dylai'r cyfryw ystyriaeth gael ei llywio ymhellach gan unrhyw Aseidiadau o Ganlyniadau Llifogydd manwl/ar lefel prosiect. Gallai Aseiad o Ganlyniadau Llifogydd helpu i egluro tebygolrwydd a difrifoldeb perygl llifogydd yn y 3 lleoliad a restrir o dan Bolisi Strategol 9 i'r Cyngor.

Mae gan derfyn safle arfaethedig Pen-y-fan rywfaint o brysgwydd sydd â gwerth bioamrywiaeth, a hefyd mae'n darparu rhywfaint o sgrinio llygredd sŵn/llygredd aer o'r rheilffordd gyfagos. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn argymhell bod hwn yn cael ei gadw fel clustogfa i'r rheilffordd gyfagos.

SP10: Yr Economi Ymwelwyr					
Amcan yr ACI	Polisiâu Penodol				Polisiâu Lliniaru
	VE1	VE2	VE3	VE4	
	VE1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr VE2: Llety Gwyliau VE3: Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen nad yw'n Barhaol VE4: Safleoedd Carafanau Sefydlog a Chalets a Llety Gwersylla Amgen Parhaol				
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+/-	+/-	+/-	+/-	Gweler y polisiâu perthnasol isod.
ACI2 – Bioamrywiaeth	-	-	-	-	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI3 – Ansawdd Aer			-	-	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan TRA2: Teithio Llesol
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol			-	-	CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan TRA2: Teithio Llesol
ACI5 – Dŵr					CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd

					<p>PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas</p> <p>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</p>
ACI6 - Asedau Materol			-	-	<p>CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan</p> <p>TRA2: Teithio Llesol</p>
ACI7 - Pridd					<p>PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas</p> <p>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</p>
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	?	?	?	?	<p>SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol</p> <p>BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth</p> <p>BHE2: Cymeriad y Dirwedd</p> <p>NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol</p> <p>SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd</p> <p>PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio - Creu Cymdogaethau Cynaliadwy.</p>
ACI9 – Tirwedd					<p>SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</p> <p>BHE2: Cymeriad y Dirwedd</p> <p>PSD11: Llygredd Sŵn</p>
ACI10 – Poblogaeth	?	?	?	?	<p>SP1: Twf Strategol</p> <p>SP3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau</p>

ACI11 – Y Gymraeg	?	?	?	?	SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd PSD9: Hysbysebion
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	+	+	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	+	0	0	
ACI14 – Yr Economi	++	++	++	++	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	+	+	+	
Sylwadau					
<p>VE1/VE2 – Gall datblygu y tu allan i derfynau datblygu arwain weithiau at fwy o ddefnydd ar geir preifat i gyrraedd lleoliadau o'r fath, ond mae mesurau lliniaru eisoes yn bodoli yn y polisi ar ffurf geiriad mewn perthynas â'r ffaith y dylai cynigion fod yn hwylus i'w cyrraedd ar lwybrau trafndiaeth gyhoeddus/teithio llesol. Mae datblygu y tu allan i derfynau aneddiadau hefyd yn debygol o arwain at golli tir glas sy'n gallu lleihau tir hydraid a lleihau gwynwch ardaloedd yn wyneb llifogydd. Gall Polisiâu PSD3 Seilwaith Gwyrdd a Glas a CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd liniaru'r effeithiau negyddol hyn. Caiff unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y dirwedd eu lliniaru gan eiriad polisi presennol o ran parchu'r ymdeimlad o le mewn ardal o ran graddfa, math, cymeriad, dyluniad ac ati.</p> <p>VE3 /VE4 - Mae gan ddatblygu o unrhyw fath y potensial i effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth ac adnoddau pridd, ond gellir lliniaru hyn yn ddigonol drwy gydymffurfio â SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. Nid yw'r naill bolisi na'r llall yn cyfeirio at sicrhau bod safleoedd yn hwylus i'w cyrraedd ar lwybrau trafndiaeth gyhoeddus/teithio llesol a allai arwain at leoli datblygiadau mewn lleoliadau anghynaliadwy. Caiff unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y dirwedd eu lliniaru gan eiriad polisi presennol o ran parchu'r ymdeimlad o le mewn ardal o ran graddfa, math, cymeriad, dyluniad ac ati. Mae'r potensial ar gyfer effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol yn ansicr gan nad yw'r polisi yn nodi safleoedd penodol ac felly mae'n anodd penderfynu a yw effeithiau'n debygol. Eir i'r afael â hyn yn ystod y cam cais cynllunio a chaiff ei liniaru drwy gydymffurfio â pholisi PS15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol. Mae nifer o fuddion economaidd-gymdeithasol ynghlwm wrth ddatblygiadau at ddibenion twristiaeth, gan fod twristiaeth yn elfen allweddol o economi Sir Gaerfyrddin ac yn ffynhonnell gyflogaeth gref. Mae gan gyfleusterau twristiaeth sy'n cyd-fynd â</p>					

pholisïau corfforaethol fel dyheadau'r Sir o ran beicio y potensial i annog pobl i gerdded/beicio, mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol a mynediad at gyfleusterau iechyd ac adloniant.

Mae'n anodd rhagweld effaith debygol twristiaeth ar ACI8/10/11.

Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

VE1 – Ystyried gosod y frawddeg hon o'r testun ategol yng ngeiriad y polisi a chryfhau'r geiriad (h.y., *Rhaid* sicrhau nad oes unrhyw niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o ganlyniad i'r cynnig a rhaid bod lefelau hygyrchedd yn foddhaol).

VE3/VE4 - Awgrymir ychwanegu'r geiriad hwn at y ddau bolisi er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ACI3 Ansawdd Aer ac ACI4 Ffactorau Hinsoddol: (d) eu bod mewn lleoliad addas mewn perthynas â'r prif rwydwaith priffyrdd, **yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol**, ac y gellir darparu mynediad digonol heb fod hynny'n niweidiol i'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

Awgrymir ychwanegu lliniaru effeithiau niweidiol yng ngeiriad polisi SP11 i fod yn berthnasol i bob polisi. h.y., Er mwyn hwyluso cynaliadwyedd amgylcheddol, rhaid i ddatblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth gydnabod nodweddion unigryw lleol ac ymdeimlad o le, a bod yn wydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd a sicrhau buddion net i fioamrywiaeth. Fel arall, cyfeiriwch at SP12.

SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy														
Polisiau Penodol	PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd PSD5: Datblygu a'r Economi Gylchol PSD6: Cyfleusterau Cymunedol PSD7: Diogelu Mannau Agored PSD8: Darparu Mannau Agored Newydd PSD9: Hysbysebion PSD10: Estyniadau PSD11: Llygredd Sŵn PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD13 Tir Halogedig													
	Amcan yr ACI	PSD1	PSD2	PSD3	PSD4	PSD5	PSD6	PSD7	PSD8	PSD9	PSD10	PSD11	PSD12	PSD13
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	++	++	++	+	++	++	++	+	+	+	+	+	+	
ACI2 – Bioamrywiaeth	I	I	++	++	0	I	+	+	0	I	+	+	I	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI3 – Ansawdd Aer	0	+	+	+	+	+	+	+	0	0	+	++	0	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

														TRA2: Teithio Llesol
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	0	+	++	+	+	+	+	+	0	0	0	+	0	CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan TRA2: Teithio Llesol
ACI5 – Dŵr	+	+	+	+	0	I	+	+	0	0	0	0	+	CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI6 - Asedau Materol	0	+	+	0	++	+	+	+	0	0	0	+	+	CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan TRA2: Teithio Llesol
ACI7 - Pridd	I	+	+	+	+	I	+	+	0	I	0	0	+	PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	+	+	+	+	0	+	0	0	+	0	+	+	I	

ACI9 – Tirwedd	+	+	+	+	0	+	+	+			+	+	+	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy BHE2: Cymeriad y Dirwedd PSD11: Llygredd Sŵn
ACI10 – Poblogaeth	+	+	+	+	0	++	+	+	+	+	+	+	0	
ACI11 – Y Gymraeg	0	+	0	0	0	+	0	0	++	0	0	0	0	
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	+	+	+	+	+	++	++	0	0	+	+	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	0	+	0	0	0	+	+	+	+	0	0	0	0	
ACI14 – Yr Economi	+	+	+	+	+	+	+	+	+	0	0	0	0	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	+	+	+	+	+	++	++	+	0	+	+	0	
Sylwadau														
<p>PSD1 – Gallai'r polisi hwn gael effeithiau cadarnhaol ar ACI3 Ansawdd Aer ac ACI4 Ffactorau Hinsoddol pe bai'n cyfeirio at ddylunio carbon isel, ynni adnewyddadwy, a darpariaeth seilwaith gwyrdd a glas. Gellir lliniaru rhywfaint ar effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth a ragwelir drwy gydymffurfio â pholisi SP13, ond gellid lliniaru hyn ymhellach drwy gyfeirio'n benodol yn y polisi at warchod a gwella bioamrywiaeth. Mae'r polisi'n cyfeirio'n benodol at yr angen i sicrhau bod dŵr wyneb a dŵr budr yn cael eu cynhyrchu, eu trin a'u gwaredu'n foddhaol; nid yw'r polisi'n cyfeirio at integreiddio draenio cynaliadwy i ddylunio datblygiadau, a fyddai'n gwella ymhellach effeithiau cadarnhaol y polisi hwn ar ACI5 Dŵr. Mae'r polisi yn cael effeithiau niwtral ar ACI6 Asedau</p>														

Materol ond ychwanegiad at y polisi sy'n cyfeirio at ddefnydd effeithlon o rwydweithiau trafnidiaeth yn cynnwys cysylltedd â llwybrau teithio llesol, yn ogystal â rhywfaint o gyfeirio at yr economi gylchol a sicrhau bod cynllun a dyluniad y datblygiad yn hwyluso'r ddarpariaeth ar gyfer ailgylchu.

PSD9 – Rhagwelir effeithiau cadarnhaol o ran ACI11 Y Gymraeg ac ACI13 Addysg a Sgiliau oherwydd gall gyfrannu ar lythrennedd Cymraeg yn y sir.

Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

PSD1 - Cynnwys yn y meini prawf gyfeiriad at ddyluniad carbon isel / cynnwys ynni adnewyddadwy yn y datblygiad. Hefyd cyfeiriwch at gynnwys seilwaith gwyrdd a glas mewn cynigion datblygu. Dylid cyfeirio at yr angen am i ddatblygiadau roi sylw i warchod a gwella bioamrywiaeth a dylid clustnodi nodweddion sy'n ymwneud â gwytnwch ecosystemau a'u cynnwys yn nyluniad y safle i'r graddau eithaf posibl.

SP13: Datblygu Gwledig							
Polisiau Penodol	RD1: Annedd Newydd yn lle un bresennol mewn Cefn Gwlad Agored RD2: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Preswyl RD3: Arallgyfeirio ar Ffermydd RD4: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Amhreswyl RD5: Cyfleusterau Marchogol						
	Amcan yr ACI	RD1	RD2	RD3	RD4	RD5	Polisiau Lliniaru
	ACI1 – Datblygu Cynaliadwy						Gweler y polisiau perthnasol isod.
	ACI2 – Bioamrywiaeth	-	-		-		SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
	ACI3 – Ansawdd Aer	-	-	+	+/-	-	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan TRA2: Teithio Llesol
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	-/+	-	+	+/-	-	CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan TRA2: Teithio Llesol	

ACI5 – Dŵr	0	0	0	0	0	CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI6 - Asedau Materol	-	-	0	+	-	CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan TRA2: Teithio Llesol
ACI7 - Pridd	?	?	0	0	0	PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol					0	
ACI9 – Tirwedd						SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy BHE2: Cymeriad y Dirwedd PSD11: Llygredd Sŵn
ACI10 – Poblogaeth	+	+	0	0	0	
ACI11 – Y Gymraeg	+/-	+/-	+/-	+	?	SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd PSD9: Hysbysebion

ACI12 – Iechyd a Llesiant	+/-	+/-	I	I	0	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	0	0	+	I	I	
ACI14 – Yr Economi	+	+	+	+	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	I	I	I	I	0	
Sylwadau						
<p>RD1/2/4 - Gall adeiladau gwledig presennol o oedran penodol gynnwys rhywogaethau a warchodir y byddai angen ymchwilio iddynt drwy arolwg ecolegol fel rhan o unrhyw gais cynllunio. Caiff unrhyw botensial am effeithiau negyddol ei liniaru drwy gydymffurfio â pholisi SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol a pholisi NE2: Bioamrywiaeth, ond gellid cryfhau geiriad y polisi er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn ymhellach. Yn aml, mae angen i bobl yng nghefn gwlad ddefnyddio car preifat i gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau a fydd yn cael effaith negyddol ar ACI3 Ansawdd Aer, ACI4 Ffactorau Hinsoddol ac ACI6 Asedau Materol. Fodd bynnag, mae disodli anheddau hŷn yn debygol o olygu y caiff anheddau eu hadeiladu yn ôl safonau effeithlonrwydd ynni uwch a all arwain at arbed ynni. Mae'r effaith ar ACI9 Pridd yn ansicr gan y bydd yn dibynnu ar ôl troed yr annedd arfaethedig. Gall cydymffurfio â pholisïau PSD3 Seilwaith Gwyrdd a Glas a SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol leihau'r ansicrwydd hwn. Mae'r polisi'n nodi'n glir na ddylai'r annedd sydd i'w disodli fod yn adeilad sy'n bwysig i gymeriad y dirwedd ac y dylai gadw ei chymeriad traddodiadol, sy'n lliniaru unrhyw ansicrwydd o ran effeithiau ar ACI8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac ACI9 Tirwedd. Nid yw'r polisi yn annog mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, ond mae yn cynyddu mynediad i'r amgylchedd naturiol.</p> <p>RD3 – Gall arallgyfeirio ar ffermydd gynnig cyfleoedd i ychwanegu at incwm ffermydd gwaith sydd â nifer o fuddion economaidd-gymdeithasol. Mae'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gael gwaith heb orfod symud o'r ardal, a fydd hefyd yn fanteisiol o ran cadw siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwledig. Gall mentrau bach fel siopau fferm olygu nad oes yn rhaid i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad yrru i drefi mwy er mwyn siopa, a gan hynny leihau defnydd ar geir preifat a phroblemau cysylltiedig o ran ansawdd aer ac allyriadau carbon.</p> <p>RD1/2/3 - Gall mwy o eiddo preswyl mewn ardaloedd gwledig ddarparu cartrefi i siaradwyr Cymraeg ifanc; fodd bynnag, o ystyried y gost sy'n gysylltiedig fel arfer â'r math hwn o ddatblygiad, gall hefyd ddarparu ail gartrefi ar gyfer mewnfudo.</p> <p>RD4 – Gall fod nifer o fanteision economaidd-gymdeithasol i'r polisi hwn, gan alluogi newid i ddefnyddiau amhreswyl megis cyflogaeth a defnyddio adeiladau segur mewn ardaloedd gwledig. Gall hyn gyfrannu at annog mentrau gwledig a darparu mwy o gyfleusterau a gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn hefyd yn fuddiol o ran cadw pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig oherwydd y potensial am fwy o gyfleoedd cyflogaeth, a all hefyd arwain at gadw siaradwyr Cymraeg ifanc.</p>						

RD5 – Gall darparu cyfleusterau marchogaeth mewn ardaloedd gwledig arwain at gynnydd yn y traffig mewn ardal, yn enwedig os cynhelir digwyddiadau penodol. Gall hyn gael effeithiau negyddol ar ansawdd aer a chynyddu allyriadau carbon. Fodd bynnag, gall cyfleusterau o'r fath gyflwyno cyfleoedd i gael cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant, yn ogystal â chael manteision hamdden ac economaidd.

Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

RD1/RD2 - Ychwanegu testun ynghylch rhywogaethau a warchodir megis: Gall adeiladau gwledig traddodiadol ddarparu cynefinoedd pwysig i rywogaethau gwerthfawr, gan gynnwys ystlumod a thylluanod gwynion. Bydd angen i gynigion i addasu adeiladau o'r fath sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar rywogaethau a warchodir yn unol â Pholisi NE2: Bioamrywiaeth a Chanllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth. Cyfeiriwch at gysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy a mwyhau cydymffurfio â'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy ar gyfer cynllunio a pholisi CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan.

Er mwyn lliniaru effeithiau tebygol ar fioamrywiaeth, nodwch mewn polisiau penodol (neu ym mholisi cyffredinol SP13) na ddylai datblygiad gael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth neu dylai sicrhau buddion net iddi.

SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol								
Amcan yr ACI	Polisiâu Penodol							Polisiâu Lliniaru
	NE1	NE2	NE3	NE4	NE5	NE6	NE7	
	NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw NE4: Datblygiad o fewn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr NE5: Rheoli'r Arfordir NE6: Datblygu'r Arfordir NE7: Ardal Rheoli Newid Arfordirol							
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+	+	+	+	+		+	CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd
ACI2 – Bioamrywiaeth	++	++	++	++	+	+	+	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI3 – Ansawdd Aer	+	+	+	+	0	0	0	
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	+	+	+	0	+	+/-	+	CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd
ACI5 – Dŵr	+	+	+	0	+	-	+	CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr
ACI6 - Asedau Materol	0	0	0	0	+	0	0	

ACI7 - Pridd	0	0	0	0	+	0	0	
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	+	+	+	+	0	0	0	
ACI9 – Tirwedd	+	+	+	+	0	0	0	
ACI10 – Poblogaeth	+	+	+	+	0	0	+	
ACI11 – Y Gymraeg	0	0	0	0	0	0	0	
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	+	+	+	+	0	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	+	+	+	0	0	0	
ACI14 – Yr Economi	+	+	+	+	0	+	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	+	+	+	0	0	+	
Sylwadau								
Mae Polisiau NE1, NE2, NE3 a NE4 oll yn cael effaith gadarnhaol ledled Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig oherwydd natur amddiffynnol y polisiau hyn ar yr Amgylchedd Naturiol, a rhagwelir effeithiau cryf a chadarnhaol ar ACI2 Bioamrywiaeth.								

NE5 - mae cyfeirio yn y polisi at gydymffurfio â SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol yn lleddfu'n ddigonol unrhyw botensial am effeithiau negyddol ar Fioamrywiaeth.

NE6 - mae'n hwyluso datblygiad mewn ardaloedd arfordirol a all gynyddu'r risg o lifogydd mewn cynigion o'r fath yn y tymor hir, o achos y newid yn yr hinsawdd, erydu'r arfordir a chynnydd yn lefel y môr. Gellir lliniaru'r risg hon drwy Bolisi CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd. Gall cynyddu datblygu ar yr arfordir hefyd gynyddu'r pwysau ar ardaloedd o'r fath o ran hamdden. Gall hyn gael effeithiau negyddol ar ansawdd dŵr, yn ogystal â chynyddu llygredd golau a sŵn. Dylid cyfeirio at bwysau hamdden yn y testun ategol er mwyn sicrhau y rhoddir sylw dyledus i effeithiau o'r fath mewn unrhyw gais cynllunio.

NE7 – Gwneir unrhyw effeithiau negyddol posibl ar ACI2 Bioamrywiaeth ac ACI9 Tirwedd yn niwtral yn ôl geiriad y polisi.

Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

- Dylid cyfeirio ym Mholisi NE6 at y ffaith bod y rhan fwyaf o arfordir Sir Gaerfyrddin yn cael ei warchod ar lefel ryngwladol a bod unrhyw gynigion yn amodol ar Bolisiau SP13, NE1 a NE2.
- Polisi NE6, awgrymir ychwanegu geiriad at y meini prawf - b) Ni fyddant mewn modd annerbyniol yn niweidio'r morlun **neu'r dirwedd** drwy raddfa, maint a dyluniad amhriodol i atgyfnerthu lliniaru yn erbyn effeithiau negyddol ar ACI9 Tirwedd.
- Dylai polisi NE6 hefyd gyfeirio at y ffaith y dylid ystyried pwysau hamdden mewn unrhyw gais cynllunio.

Polisi Strategol	SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol		
Polisiau Penodol	BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth BHE2: Cymeriad y Dirwedd		
Amcan yr ACI	BHE1	BEH2:	Polisiau Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+	+	
ACI2 – Bioamrywiaeth	0	+	
ACI3 – Ansawdd Aer	0	+	
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	0	+	
ACI5 – Dŵr	0	+	
ACI6 - Asedau Materol	+	0	
ACI7 - Pridd	+	+	
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	++	+	

ACI9 – Tirwedd	+	++	
ACI10 – Poblogaeth	0	+	
ACI11 – Y Gymraeg	+	0	
ACI12 – Iechyd a Llesiant	0	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	0	0	
ACI14 – Yr Economi	+	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	+	
Sylwadau			
<p>Mae gan Bolisi BHE1 effeithiau cadarnhaol ar draws nifer o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig oherwydd natur amddiffynnol y polisiau hyn ar yr amgylchedd adeiledig, a rhagwelir effeithiau cryf a chadarnhaol ar ACI8 Treftadaeth Ddiwylliannol. Nid yw'n hysbys a fyddai hyn yn cael effaith debygol ar hyrwyddo'r Gymraeg, ond byddai'n cael effaith ar hyrwyddo diwylliant Cymru.</p> <p>Mae gan BEH2 effeithiau cadarnhaol ar draws amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, a rhagwelir effeithiau cryf a chadarnhaol ar ACI9 Tirwedd.</p>			
Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig			
<ul style="list-style-type: none"> Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'r polisiau hyn. 			

SP16: Newid yn yr Hinsawdd								
Amcan yr ACI	CCH1	CCH2	CCH3	CCH4	CCH5	CCH6	CCH7:	Polisiau Lliniaru
	ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+	+	+	+	+	+	+
ACI2 – Bioamrywiaeth	+/-	+/-	+	+	+	+	+	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE2: Bioamrywiaeth
ACI3 – Ansawdd Aer	+	+	+	0	0	+	+	
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	++	++	+	+	++	+	+	
ACI5 – Dŵr	+	+	+	++	+	+	+	

ACI6 - Asedau Materol	+	+	+	0	0	+	0	
ACI7 - Pridd	0	0	0	+	+	0	+	
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	l	l	+	0	0	0	0	SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol
ACI9 – Tirwedd	+/-	+/-	0	0	+	+/-	+	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy BHE2: Cymeriad y Dirwedd PSD11: Llygredd Sŵn
ACI10 – Poblogaeth	0	0	+	0	0	0	0	
ACI11 – Y Gymraeg	0	0	0	0	0	0	0	
ACI12 – Iechyd a Llesiant	0	0	+	0	+	0	+	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	+	0	0	0	?	?	
ACI14 – Yr Economi	+	+	+	+	+	+	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	0	0	+	0	+	+	+/-	

Sylwadau

CCH1/2 – Mae ynni adnewyddadwy yn hanfodol er mwyn sicrhau ffynhonnell ynni carbon isel ac er mwyn brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, felly mae'r polisi hwn yn cael effeithiau cadarnhaol cryf ar ACI4 Ffactorau Hinsoddol. Mae gan gynigion ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel y potensial i gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, yn enwedig pan fyddant wedi eu lleoli yn agos at safleoedd gwarchoddedig. Gall yr effeithiau hyn gael eu lliniaru ryw ffordd gan bolisi SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, ond awgrymir bod peth geiriad yn cael ei ychwanegu at y polisi ei hun i gryfhau'r lliniaru hwn. Gellir lliniaru unrhyw bosibilrwydd o effeithiau negyddol ar ACI9 Tirwedd drwy bolisiau SP11 Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy a BHE2: Cymeriad y Dirwedd. Mae gan y math hwn o ddatblygiadau botensial i feithrin datblygiad sgiliau sy'n gysylltiedig â chynllun arloesol sy'n ymateb i'r hinsawdd.

CCH3 – Bydd darparu Pwyntiau Gwefru Trydan mewn datblygiadau newydd yn sicrhau bod rhwydwaith cynyddol o bwyntiau gwefru ar draws y sir i annog defnyddio ceir trydan. Yn ei dro bydd manteision ar gyfer ACI3 Ansawdd Aer ac ACI4 Ffactorau Hinsoddol, trwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Hefyd mae gwelliannau i ansawdd aer yn fuddiol i ACI12 Iechyd a Llesiant, ACI2 Bioamrywiaeth ac ACI8 Treftadaeth Ddiwylliannol.

CCH4 – Mae'n bolisi amddiffynnol ar gyfer ansawdd dŵr a faint o ddŵr ac felly mae'n cael effeithiau cadarnhaol cryf ar ACI5 Dŵr. Bydd diogelu ansawdd dŵr hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol ar draws Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, yn enwedig ar ACI2 Bioamrywiaeth yn ogystal ag ACI7 Pridd.

CCH5 – Mae sicrhau nad yw datblygu, yn enwedig yr hyn a ystyrir yn agored i niwed, yn digwydd mewn ardaloedd lle ceir llifogydd yn hanfodol o ran cynyddu gwytnwch Sir Gaerfyrddin yn wyneb newid yn yr hinsawdd, felly mae'r polisi hwn yn cael effeithiau cadarnhaol o ran ACI4 Ffactorau Hinsoddol ac ACI5 Dŵr. Mae hyn yn sicrhau llesiant a diogelwch trigolion Sir Gaerfyrddin yn ogystal â'u heiddo, felly mae'n gadarnhaol o gymharu ag Amcanion ACI12 Iechyd a Llesiant, ACI14 Yr Economi ac ACI15 Gwead Cymdeithas. Gall hybu Systemau Draenio Cynaliadwy gael effeithiau cadarnhaol ar ACI2 Bioamrywiaeth hefyd.

CCH6 – Mae'r polisi yn gryf ar ynni carbon isel mewn datblygiadau newydd o 100 o dai neu fwy. Fodd bynnag, gallai'r polisi fod yn gryfach o ran cefnogi ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd yn fwy cyffredinol, yn enwedig mewn datblygiadau llai megis darpariaeth ar gyfer paneli haul ar doeon. Byddai hyn yn arwain at ragweld effeithiau cadarnhaol cryf o ran ACI4 Ffactorau Hinsoddol.

CCH7 – Gall plannu coed lliniaru problemau sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys gwella ansawdd aer, atafaelu carbon, atal erydiad pridd a lleihau'r perygl o lifogydd. Felly, rhagwelir bod y polisi hwn yn cael effeithiau cadarnhaol o ran amcanion ACI3 Ansawdd Aer, ACI4 Ffactorau Hinsoddol ac ACI5 Dŵr. Os yw'n hygyrch i'r cyhoedd, gall coetiroedd newydd gynnig cyfleoedd hamdden a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol o ran ACI12 Iechyd a Llesiant. Serch hynny, bu peth anghytundeb yn flaenrol ynghylch plannu coetiroedd mewn cymunedau gwledig.

Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

- Mae gan Sir Gaerfyrddin lawer o safleoedd gwarchoddedig ac mae llawer ohonynt yn agos at yr Ardaloedd Chwilio Strategol a'r Ardaloedd Chwilio Lleol. Dylid cyfeirio'n benodol ym mholisi CCH1 at y ffaith na fydd unrhyw ddatblygiad ynni adnewyddadwy yn cael effaith annerbyniol ar safleoedd Natura 2000.
- Dylai'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol ynghylch CCH1/2 gynnwys canllawiau lliniaru i osgoi'r effeithiau ar fioamrywiaeth.
- CCH4 – Dylid cyfeirio at baragraff 11.534(a) o Bolisi PSD12 mewn perthynas â chynigion a all arwain at gynyddu'r llwyth maethynnau yn yr amgylchedd a'r effaith bosibl ar ddŵr ac aer.
- Awgrymir bod CCH5 yn cyfeirio at y risgiau o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, fel bod hyn yn cael ei ystyried yn ogystal â'r risg bresennol mewn unrhyw gais.
- Awgrymir bod geiriad cryfach yn cael ei ychwanegu at CCH6, gan gyfeirio at gefnogi datblygiadau newydd sydd â pherfformiad ynni uchel, sy'n cefnogi datgarboneiddio, sy'n mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd ac sy'n addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd heddiw ac i'r dyfodol, drwy gynnwys mesurau lliniaru ac addasu effeithiol. Polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau adeiladau di-garbon diogel gan barhau i hyrwyddo ystod o dechnolegau di-garbon ar yr un pryd. Dylid nodi hefyd nad oes gan y cynllun unrhyw bolisiau ychwaith sy'n cwmpasu prosiectau ynni cymunedol a phrosiectau adnewyddadwy ar raddfa lai.
- CCH7 – dylai geiriad y polisi gynnwys ystyried materion tirwedd ehangach (*Dylai cynigion ystyried effeithiau andwyol posibl ar yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol, cymunedau, a thirwedd, a, lle bo'n briodol, dilyn yr hierarchaeth lliniaru*) ac amlygu'r manteision niferus y gall coed a reolir yn dda eu cael.
- Dylid cyfeirio at yr argyfwng natur a hinsawdd fel y bo'n briodol.

SP17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd						
Amcan yr ACI	Polisiâu Penodol					Polisiâu Lliniaru
	TRA1	TRA2	TRA3	TRA4	TRA5	
	TRA1: Gwella Seilwaith Trafnidiaeth a Phriffyrdd TRA2: Teithio Llesol TRA3: Rheilffordd Gwili TRA4: Coridorau Rheilffyrdd Segur TRA5: Safonau Priffyrdd a Mynediad mewn Datblygiadau					
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy		+		+	+	Gweler y polisiâu isod.
ACI2 – Bioamrywiaeth	-		-		0	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4 Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
ACI3 – Ansawdd Aer	+/-	++	+	+	0	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	+/-	++		+/-	0	CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan PSD12: Llygredd Golau ac Aer

						PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
ACI5 – Dŵr	0	+		0	0	
ACI6 - Asedau Materol	+/-	++	+	+	0	
ACI7 - Pridd	-	-	-	+	0	PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol			+	+	0	SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy
ACI9 – Tirwedd				+	0	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd BHE2: Cymeriad y Dirwedd
ACI10 – Poblogaeth	0	+	+	+	0	
ACI11 – Y Gymraeg	0	0	0	0	0	
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+/-	++	+	+	+	CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas

ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	+	0	0	0	
ACI14 – Yr Economi	++	+	+	+	0	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	+	+	+	0	
Sylwadau						
<p>TRA1 – Gall adeiladu seilwaith trafndiaeth gael effeithiau negyddol ar ACI2 Bioamrywiaeth drwy gollu cynefinoedd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy ddirywiad mewn ansawdd aer a tharfu. Yn benodol, gall datblygu yn ardal Cross Hands gael effaith ar ACA Caeau'r Mynydd Mawr trwy achosi i gynefin glöyn byw britheg y gors gael ei gollu. Caiff unrhyw effeithiau negyddol ar ACA Caeau'r Mynydd Mawr eu lliniaru gan Ganllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr, sy'n gofyn am gyfraniadau gan ddatblygwyr i wneud iawn am gollu cynefinoedd. Rhagwelir effeithiau negyddol a chadarnhaol i'r polisi hwn mewn perthynas ag amcanion ACI3, ACI4, ACI6 ac ACI12. Gall effeithiau negyddol ar ansawdd aer, yn ogystal â chynyddu allyriadau carbon ddigwydd o ganlyniad i hwyluso cynnydd mewn dulliau trafndiaeth traddodiadol fel ceir a cherbydau nwyddau trwm. Gellir lliniaru rhywfaint ar hyn trwy bolisiau CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan, sy'n cynyddu seilwaith y sir ar gyfer cerbydau trydan, PSD12: Llygredd Golau ac Aer a PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas. Fodd bynnag, mae'r polisi hwn hefyd yn darparu ar gyfer rhwydweithiau trafndiaeth gynaliadwy a all leihau'r defnydd o geir preifat ac effeithiau ansawdd aer cysylltiedig. Croesewir cyfeiriad penodol at welliannau i lwybrau cerdded, beicio a bysiau yng Nghaerfyrddin, gan fod y dref wedi'i nodi'n brif ganolfan yn y cynllun, ond mae ganddi Ardal Rheoli Ansawdd Aer oherwydd problemau ansawdd aer. Rhagwelir effeithiau cadarnhaol mewn perthynas ag amcanion ACI13, ACI14, ac ACI15 oherwydd y ffaith y bydd cynyddu'r seilwaith yn arwain at well mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau, gan gynnwys cyfleusterau addysg.</p> <p>TRA2 – Gall cynigion sy'n annog llwybrau teithio llesol newydd gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth a phridd oherwydd colli cynefinoedd yn uniongyrchol. Fodd bynnag, caiff yr effeithiau hyn eu lliniaru ar lefel cais cynllunio gan bolisiau SP14: Cynnal a Gwellu'r Amgylchedd Naturiol, NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol, NE2: Bioamrywiaeth, NE3: Coridorau, rhwydweithiau a nodweddion unigryw, PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas a PSD4 Seilwaith Gwyrdd a Glas – Coed, coetiroedd a gwrychoedd. Bydd cynyddu gallu beicwyr a cherddwyr i gael mynediad i lwybrau diogel a chysylltiedig yn cael effeithiau cadarnhaol ar ACI12 - Iechyd a Llesiant, a gall arwain at ddefnyddio llai ar geir preifat, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ACI3 Ansawdd Aer ac ACI4 Ffactorau Hinsoddol. Serch hynny, gall datblygiad ystyriol ddiogelu bioamrywiaeth yn y tymor hir.</p> <p>TRA3 – Mae Rheilffordd Gwili yn union wrth ymyl Afon Teifi ac mewn rhai manau, mae o fewn parth llifogydd C2. Gall effeithiau llifogydd yn arbennig, oherwydd newid yn yr hinsawdd, gael effeithiau negyddol ar ACI4 Ffactorau Hinsoddol ac ACI5 Dŵr.</p> <p>TRA4 – Bydd defnyddio coridorau rheilffyrdd segur yn hwyluso buddion fel llwybrau beicio, llwybrau troed a llwybrau ceffylau, a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant yn ogystal â'r economi, a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau. Mae'n bosibl y bydd bioamrywiaeth werthfawr yn gysylltiedig â choridorau rheilffyrdd sydd wedi bod yn segur ers peth amser, ac felly gall clirio llwybrau o'r fath gael effaith negyddol. Fodd bynnag, caiff</p>						

hyn ei liniaru gan bolisiau SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol, NE2: Bioamrywiaeth, NE3: Coridorau, rhwydweithiau a nodweddion unigryw, PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas a PSD4 Seilwaith Gwyrdd a Glas – Coed, coetiroedd a gwrychoedd. Serch hynny, gall datblygiad ystyriol ddiogelu bioamrywiaeth yn y tymor hir.

Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

- **TRA3:** Mae Rheilffordd Gwili yn union wrth ymyl Afon Teifi ac mewn rhai manau, mae o fewn parth llifogydd C2. Dylid ystyried hyn yn ofalus mewn unrhyw fwriad i ymestyn y llinell.

SP18: Adnoddau Mwynau				
Polisiâu Penodol	MR1: Cynigion Mwynau MR2: Clustogfeydd Mwynau MR3: Ardaloedd Diogelu Mwynau			
Amcan yr ACI	MR1	MR2	MR3	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	-	0	0	Gweler isod
ACI2 – Bioamrywiaeth	-	0	-	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd MR1: Cynigion Mwynau
ACI3 – Ansawdd Aer	-	0	-	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas MR1: Cynigion Mwynau
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	-	0	0	CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

				PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
ACI5 – Dŵr	-	+	0	
ACI6 - Asedau Materol	-	0	0	Polisi Strategol SP 18: Adnoddau Mwynau
ACI7 - Pridd	-	0	-	PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. MR1 Cynigion Mwynau
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol		0		SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd PSD2: Egwyddorion Uwchgyllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy
ACI9 – Tirwedd		+	-	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd BHE2: Cymeriad y Dirwedd MR1 Cynigion Mwynau
ACI10 – Poblogaeth	0	+	0	
ACI11 – Y Gymraeg	0	0	0	

ACI12 – Iechyd a Llesiant	-	+	0	PSD12: Llygredd Golau ac Aer
ACI13 - Addysg a Sgiliau	0	0	0	
ACI14 – Yr Economi	+	0	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	0	+	0	
Sylwadau				
<p>MR1 - Mae lleoliad agregau wedi'i ysgogi gan amodau daearegol penodol i'r safle ac felly ceir llai o hyblygrwydd i osgoi effeithiau ar nodweddion ecolegol sensitif. Fodd bynnag, mae gan y polisi ei hun eiriad i ddiogelu rhag unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar safleoedd pwysig o ran cadwraeth natur a gellir lliniaru unrhyw effeithiau gweddilliol gan bolisiau eraill y cynllun, yn enwedig cydymffurfio â SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. Mae'r geiriad polisi ei hun yn lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol posibl ar ACI3 Ansawdd Aer, ACI4 Ffactorau Hinsoddol, ACI5 Dŵr, ACI6 Asedau Materol, ACI8 Treftadaeth Ddiwylliannol, ac ACI9 Tirwedd. Mae polisiau'r CDLI a nodwyd yn y matrices hefyd yn lliniaru ymhellach unrhyw botensial am effeithiau a allai aros. Ni fyddai'r math hwn o ddatblygiad yn bodloni ACI1 oherwydd y pwysau a roddir ar adnoddau cyfyngedig.</p> <p>MR2 - Caiff clustogfeydd eu creu er mwyn diogelu unrhyw ddatblygiadau newydd, yn enwedig ardaloedd preswyl, ysbytai, ac ysgolion, rhag unrhyw effeithiau negyddol yn sgil cloddio am fwynau. Mae hyn yn rhoi bod i effeithiau cadarnhaol cryf ar ACI12 Iechyd a Llesiant, yn ogystal ag effeithiau cadarnhaol ar ACI9 Tirwedd, ACI10 Poblogaeth, ac ACI15 Gwead Cymdeithas.</p> <p>MR3 - Mae'r polisi hwn yn diogelu dyddodion mwynau, ond maent yn cael eu diogelu gyda'r bwriad o fod ar gael i'w cloddio yn y dyfodol. Gall cloddio'r mwynau hyn gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, pridd, tirwedd ac ansawdd aer, ond bydd meini prawf Polisi MR1 Cynigion Mwynau yn lliniaru'r risg hon.</p>				
Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig				
<p>MR1 – Newid geiriad y polisi i sicrhau bod datblygiadau'n creu buddion net i fioamrywiaeth a'r hinsawdd i liniaru'r effaith andwyol a nodir uchod. Mae angen mynd i'r afael â'r effaith debygol ar adnoddau dŵr.</p>				

SP19: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy				
Polisiâu Penodol	WM1: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy a Datblygiadau Newydd WM2: Cynigion Tirlenwi WM3: Tir Amaethyddol - Gwaredu Gwastraff Anadweithiol			
Amcan yr ACI	WM1:	WM2	WM3	Polisiâu Lliniaru
ACI1 – Datblygu Cynaliadwy	+	-	+/-	Gweler y polisiâu perthnasol isod
ACI2 – Bioamrywiaeth	0	-	-	SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol NE2: Bioamrywiaeth NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD4 Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
ACI3 – Ansawdd Aer	0	-	0	PSD12: Llygredd Golau ac Aer PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
ACI4 - Ffactorau Hinsoddol	0	-	0	CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan PSD12: Llygredd Golau ac Aer

				PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
ACI5 – Dŵr	0	I	?	
ACI6 - Asedau Materol	++	-	+/-	
ACI7 - Pridd	+	I	+	PSD3 Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol.
ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol	0	I	I	SP15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd PSD2: Egwyddorion Uwchgyllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy
ACI9 – Tirwedd	+	-	I	SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd BHE2: Cymeriad y Dirwedd
ACI10 – Poblogaeth	0	0	0	
ACI11 – Y Gymraeg	0	0	0	
ACI12 – Iechyd a Llesiant	+	I	0	
ACI13 - Addysg a Sgiliau	+	0	0	

ACI14 – Yr Economi	+	+	+	
ACI15 - Gwead Cymdeithas	+	0	0	
Sylwadau				
<p>WM1 – Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo economi gylchol ar draws pob math o ddatblygiad.</p> <p>WM2 – Er bod geiriad y polisi yn gyfarwyddol ei natur, mae'r math hwn o ddatblygiad yn gofyn am adnoddau tir ac yn debygol o beri effeithiau andwyol hirdymor i'r amgylchedd (gan gynnwys ansawdd aer, ansawdd dŵr, a swyddogaeth pridd, ac iechyd a llesiant dynol).</p> <p>WM3 – Gall y polisi hwn wrthdaro â delfrydau'r economi gylchol.</p>				
Sylwadau ac Argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig				
<p>WM2/3 –cyfeirio'n benodol at gael dim effaith sylweddol ar fioamrywiaeth.</p> <p>WM3 – Mireinio'r hyn sy'n cael ei ystyried yn wastraff anadweithiol a sicrhau na fydd yn peri unrhyw effaith andwyol i'r amgylchedd, bioamrywiaeth, a/neu iechyd dynol, ac na fydd yn peryglu ansawdd adnoddau dŵr.</p>				

Atodiad H

**Aseiad o'r Effaith
ar yr iaith
Gymraeg (AEIG)**

y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning



Asesiad o Effaith yr Ail Fersiwn Adneuo Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 ar y Gymraeg

Comisiynwyd gan: Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiad: Rhagfyr 2022



y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning



Aseiad o Effaith yr Ail Fersiwn Adneuo Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 ar y Gymraeg

Awduron yr Adroddiad

Dr Kathryn Jones (IAITH) ac Owain Wyn (BURUM)

IAITH Cyf.

Uned 3,
Parc Busnes Aberarad,
Castellnewydd Emlyn,
Sir Gaerfyrddin, SA38 9DB

Ff 01239 711668

E post@iaith.eu

www.iaith.eu

Cynnwys

Cynnwys.....	3
PRIF DDIFFINIADAU	5
Rhan 1 – Methodoleg Asesu’r Effaith ar y Gymraeg	7
1.1 Cyflwyniad.....	7
1.2 Y Cyd-destun Polisi – Polisi Cynllunio Cymru a TAN 20: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg.....	7
1.3 Adolygiad o’r methodolegau sy’n bodoli eisoes	8
1.3.1 Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol	8
1.3.2 Dulliau presennol o asesu’r effaith ar y Gymraeg ymysg Awdurdodau Cynllunio Lleol	11
1.3.3 Cynllunio a’r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005).....	12
1.4 Dulliau eraill o asesu a rheoli risg	13
1.4.1 Rhagweld sgorau gwytnwch	19
1.4.2 Canlyniadau a Thebygoliaeth	19
1.5 Cyfyngiadau modelau asesu a rheoli risg.....	22
1.6 Crynodeb a Chasgliadau.....	22
Rhan 2 – Asesiad o Effaith Strategaeth a Ffefrir y CDLI Adneuo ar y Gymraeg.....	24
2.1 Cyflwyniad.....	24
2.2 Y Cyd-destun	27
2.2.1 Canllawiau Llywodraeth Cymru	27
2.2.2 Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040	29
2.2.3 Newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.....	29
2.2.4 Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.....	30
2.3 Cyngor Sir Caerfyrddin.....	30
2.3.1 Polisi Cynllunio a'r Gymraeg.....	30
2.3.1 Strategaeth Hybu'r Gymraeg.....	31
2.3.2 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032	32

2.4 Crynodeb o Ganfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.....	33
2.4.2 Asesiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Dewisiadau Rhesymol Eraill yn lle'r Maint o Dwf a Ffefrir.....	35
2.4.3 Ein Hasesiad.....	37
2.5 Ein Hasesiad Lefel Uchel o Effaith y Strategaeth Twf a Ffefrir ar y Gymraeg	38
2.4.6 Sgorio'r Risg Gychwynnol.....	42
2.4.6..... Ein Hasesiad Lefel Uchel o Effaith y Strategaeth Ofodol a Ffefrir ar y Gymraeg	44
2.5.4 Sgorio'r Risg Gychwynnol.....	49
2.6 Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergistaidd y Strategaethau Twf a Gofodol a Ffefrir drafft	52
2.7 Argymhellion ar gyfer Rheoli'r Risg.....	53
Rhan 3 - Asesiad o Effaith Polisiâu'r CDLI Diwygiedig Adneuo ar y Gymraeg	55
3.1 Cyflwyniad.....	55
3.2 Methodoleg.....	55
3.3 Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergistaidd y Strategaeth a Ffefrir ddrafft.....	58
Atodiad 1.1: Statws y Gymraeg mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn Awdurdodau Lleol Cymru.....	60
Atodiad 1.2: Fframwaith Rheoli Gwytnwch y Gymraeg – Y Pedair Efen yn Fanwl.....	61
Atodiad 2.1: Canfod y llinell sylfaen ar gyfer nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2033	80
Atodiad 2.2: Mudo gros 2019-20 a'r goblygiadau i Asesiad o Effaith Strategaeth Twf a Ffefrir y CDLI ar y Gymraeg.....	86
Atodiad 2.3: Goblygiadau Mabwysiadu Senario Twf Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd i Daflwybr Llinell Sylfaen y Gymraeg	96
2.3.1 Yr Efen "Atgynhyrchu"	96
2.3.2 Yr Efen "Cynhyrchu"	97
Atodiad 2.4: Sail dystiolaeth ar gyfer Asesiad o Effaith y Strategaeth Ofodol a Ffefrir ar y Gymraeg.....	103
Atodiad 3.1: Ail Fersiwn Adneuo o CDLI Sir Gaerfyrddin - Polisiâu Cymraeg.....	118

PRIF DDIFFINIADAU

Canlyniad – effaith perygl ar bresenoldeb pobl neu aelwydydd yn y dyfodol a all siarad Cymraeg pe bai'n digwydd a fesurir fel arfer ar raddfa difrifoldeb y canlyniad (tebyg i effaith).

Gwneud penderfyniadau – Y broses o nodi canlyniadau tebygol penderfyniadau, gan ganfod pwysigrwydd ffactorau unigol a dewis y ffordd orau o weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r risg i fywiogrwydd y Gymraeg.

Amlygiad – y canlyniadau, fel cyfuniad o effaith a thebygoliaeth, a allai fod ar y Gymraeg pe bai risg benodol yn cael ei gwireddu.

Perygl – Sefyllfa neu weithred a allai arwain at niwed i'r Gymraeg neu achosi effeithiau negyddol.

Risg gynhenid – yr amlygiad sy'n deillio o risg benodol cyn i unrhyw gamau gweithredu gael eu cymryd i'w rheoli.

Effaith – Yr effaith y byddai risg yn ei chael pe bai'n digwydd.

Tebygoliaeth digwydd – tebygoliaeth risg y bydd perygl yn digwydd. Yn hytrach na bod yn fanwl gywir (sydd yn aml yn fanwl gywirdeb ffug) yr opsiwn a awgrymir yn yr adroddiad hwn yw gwneud hyn mewn bandiau.

Asesiad risg ansoddol – Mae hwn yn disgrifio tebygolrwydd canlyniad mewn termau sydd, o'u natur, yn oddrychol, gan fod yr asesiad fel arfer yn aseinio gwerthoedd cymharol i asedau, risgiau, rheolaethau ac effeithiau.

Asesiad risg meintiol – Methodoleg a ddefnyddir i drefnu a dadansoddi gwybodaeth wyddonol er mwyn amcangyfrif tebygoliaeth a difrifoldeb canlyniad. Yn y dull hwn, caiff gwerthoedd rhifol gwrthrychol eu cyfrifo ar gyfer pob elfen a gesglir yn ystod asesiad risg.

Risg weddilliol – Yr amlygiad sy'n deillio o risg benodol ar ôl i gamau gweithredu gael eu cymryd i'w rheoli a chan ragdybio bod y camau gweithredu yn effeithiol.

Gwynwch – y pŵer neu'r gallu i ymadfer yn gyflym i gyflwr gwell blaenorol er gwaethaf presenoldeb ffactorau risg.

Risg – Cyfuniad o ganlyniad(au) posibl peryglon a'u tebygoliaeth.

Mantais risg – Mabwysiadu strategaeth sy'n cynyddu'r debygoliaeth y bydd modd manteisio ar effeithiau cadarnhaol nas rhagwelwyd.

Asesiad risg – Y broses ffurfiol o werthuso canlyniadau peryglon a'u tebygoliaeth.

Rheoli risg – Y broses o ganfod, asesu a barnu risg a phwyso a mesur yr opsiynau sydd ar gael i ymateb i risg a phenderfynu ar y strategaeth a ffefrir.

Goddefgarwch risg – y trothwy y mae'n annerbyniol mynd y tu hwnt iddo.

Llunio senarios – mae hyn yn darparu ffordd strwythuredig o feddwl am elfennau ansicr yn y dyfodol ac o gynllunio ar eu cyfer, ac yn archwilio llwybrau credadwy y gallai mwy nag un dyfodol posibl ddatblygu ar hyd-ddynt.

Ansicrwydd – Cyfyngiadau ar ein gwybodaeth am effeithiau pobl yn dewis pa iaith i'w defnyddio a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad hwnnw.

Trothwy wedi'i bwysoli – y gwerthoedd gwahanol a roddir i ystod canrannau siaradwyr Cymraeg sy'n bresennol mewn uned arwynebedd, e.e. yn yr astudiaeth hon y gwerthoedd yw 70% a throsodd = 3; 50 – 69.9% = 2; 20 – 49.9% = 1; llai nag 20% = canran union.

Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg – effaith debygol cynllun datblygu neu ddatblygiad defnydd tir arfaethedig ar ddefnyddio'r Gymraeg neu ei gwytnwch mewn ardal.

Rhan 1 – Methodoleg Asesu'r Effaith ar y Gymraeg

1.1 Cyflwyniad

1. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) yn dymuno gwneud rhagor o waith i asesu'r effaith mae Strategaeth a Ffefrir CDLI Sir Gaerfyrddin yn debygol o'i chael ar y Gymraeg yn ardal y Cynllun.
2. Y cam cyntaf yw cytuno ar y fethodoleg asesu effaith sydd i gael ei defnyddio. Y meini prawf i'w defnyddio wrth gytuno ar fethodoleg yw bod angen i'r dull fod yn gynhwysfawr, yn realistig ac yn addas.
3. Y dull a fabwysiadwyd yma yw adolygu'r canllawiau sy'n bodoli eisoes er mwyn deall beth sy'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ei wneud ac yna adolygu'r methodolegau asesu'r effaith ar y Gymraeg er mwyn gweld a yw methodolegau o'r fath yn dal i fod yn addas i'r diben. Yng ngoleuni'r adolygiad hwn, rydym wedyn yn ymchwilio i ba fethodolegau eraill sy'n bosibl, o'u harchwilio yn erbyn y meini prawf sef eu bod yn gynhwysfawr, yn ymarferol ac yn addas, ac rydym yn gwneud argymhellion ar y fethodoleg a ffefrir i'w defnyddio.

1.2 Y Cyd-destun Polisi – Polisi Cynllunio Cymru a TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

4. Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, yn ei gwneud yn glir bod y Gymraeg “yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol” (Cymru) ac y dylai'r “system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu”.¹
5. Cyn Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018), gofynnwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried, os oedd gwarchod/hybu'r Gymraeg wedi'i nodi fel blaenoriaeth yn eu Cynllun Integredig Sengl, yna dylid ystyried

¹ Llywodraeth Cymru (Chwefror 2021) Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10, adran 3.25.

anghenion gwarchod/hybu'r Gymraeg, i'r graddau yr oeddent yn berthnasol i ddatblygiadau a defnydd tir, wrth ddatblygu eu cynlluniau datblygu lleol gan ddefnyddio mecanwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

6. Cyhoeddwyd TAN 20 cyn Polisi Cynllunio Cymru 10 ym mis Hydref 2017 ac mae'n esbonio'r fframwaith deddfwriaeth a pholisi i ystyriaeth o gynllunio defnydd tir a'r Gymraeg (Rhan A) ac yn rhoi cyngor ynghylch sut i ystyried y Gymraeg yn y broses o ddatblygu cynlluniau datblygu lleol (Rhan B). Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd i ddatblygu amcan cynaliadwy ar gyfer y Gymraeg ac i asesu pa mor gadarn yw'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn erbyn yr amcan a osodir. Nodir nad yw'r cyngor hwn yn rhagnodol. Mae hefyd yn parhau i fabwysiadu'r cyngor ar gyfer cyflawni asesiadau Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a ddatblygwyd yn 2005.

1.3 Adolygiad o'r methodolegau sy'n bodoli eisoes

1.3.1 Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol

7. Mae [Adran 19 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004](#) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol gyflawni arfarniad cynaliadwyedd pob un o'r opsiynau, strategaeth a ffefrir a chynigion mewn cynllun wrth ei baratoi. Yn fwy cyffredinol, mae [adran 39 o'r Ddeddf](#) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n paratoi'r cynllun wneud hynny gyda'r amcan o gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy.

Canllawiau ar fethodoleg Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol

8. Mae camau Arfarniad Cynaliadwyedd o Gynlluniau Datblygu Lleol fel a ganlyn:
 - **Cwmpasu** – nodi'r cyd-destun ac amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpasu;
 - **Asesu opsiynau strategol Cynlluniau Datblygu Lleol** yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd a chynhyrchu Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd;
 - **Asesu polisiau Cynlluniau Datblygu Lleol** yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd a chynhyrchu Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd;
 - **Cynhyrchu Datganiad Cynaliadwyedd** yn nodi sut mae canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi cael eu hystyried yn y Cynllun terfynol.

9. Yn nhermau asesu yn erbyn amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd, gofynnir i Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi effeithiau arwyddocaol tebygol yr opsiwn a ddewisir. Mae rhagweld effeithiau'n golygu nodi newidiadau tebygol i'r llinell sylfaen. Dylai rhagweld effeithiau gynnwys maint effeithiau'r cynllun, sensitifrwydd y derbynnwydd a nodweddion yr effaith.
10. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau wedi'u seilio ar fabwysiadu dull ansoddol gan fwyaf. Mae hyn oherwydd ei bod yn anodd gwahanu effeithiau'r cynllun arfaethedig o effeithiau eraill a chwmpas eang y cynllun ei hun.
11. Yn gyffredinol, mae asesiadau Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn canolbwyntio ar y cyfeiriad (h.y. maent yn fras ac yn ddisgrifiadol) yn hytrach nag ar ganlyniad penodol. Fel arfer mae'r sgorau ar gyfer rhagweld effeithiau tebygol yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer cyflawni Asesiadau Amgylcheddol Strategol a gyhoeddwyd yn 2005². Gan ddefnyddio'r canllawiau hyn, caiff yr effeithiau tebygol a ragwelir eu sgorio fel a ganlyn:

++	major
+	positive
0	neutral
-	negative
--	negative

12. Mae'r fframwaith sgorio hefyd yn caniatáu ar gyfer 'uncertain(?)' lle na ellir rhagweld yr effeithiau.
13. Mae'r Matrics Sgorio a awgrymir gan Lywodraeth Cymru yn ei Llawlyfr Cynlluniau Datblygu³ yn mabwysiadu'r dull hwn a chaiff ei atgynhyrchu yn Ffigur 1.1. Mae'r matrics hwn yn asesu cynaliadwyedd yr opsiynau arfaethedig mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol ar adeg cyflawni'r asesiad. O gofio mai 15 – 20 mlynedd yw amserlen CDLI fel arfer, ein barn ni yw y bydd yr asesiad yn fwy perthnasol os caiff ei

² Office of the Deputy PM, UK Government (2005) A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive, Appendix 7.

³ Llywodraeth Cymru (Mawrth 2020) Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3.

gyflawni mewn perthynas â thaflywyr rhagweledig yr Awdurdod Lleol ar gyfer twf y boblogaeth dros oes y cynllun.

Ffigur 1.1: y Matrics Sgorio a awgrymir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Arfarniad

Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol⁴

Symbol	Effaith a ragwelir	Camau a awgrymir
++	Effaith cadarnhaol iawn o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried unrhyw fesurau gwella pellach
+	Effaith gadarnhaol o gymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried unrhyw fesurau gwella pellach
0	Effaith niwtral o gymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried a allai ymyrraeth gael effeithiau cadarnhaol
-	Effaith negyddol o gymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried mesurau lliniaru: osgoi'r effaith yn gyntaf, ac yna lleihau effaith, ac yn olaf iawndal am yr effaith. Ailystyried polisi/defnydd arfaethedig.
--	Effaith negyddol iawn o gymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried mesurau lliniaru i leihau difrifoldeb yr effaith, ond mae'r rhain yn debygol o fod yn anodd a/neu'n gostus. Ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig.
I	Mae'r effaith yn dibynnu ar sut mae'r polisi a'r dyraniad yn cael eu gweithredu	Awgrymiadau ar gyfer gweithredu
?	Ansicr	Mae angen mwy o wybodaeth. Ystyried ble gellid cael yr wybodaeth? Sut a phryd y gellid ei chasglu.

1.3.2 Dulliau presennol o asesu'r effaith ar y Gymraeg ymysg Awdurdodau Cynllunio Lleol

14. Mae **Atodiad 1.1** yn rhoi ciplun o CDLlau a Chanllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi'u mabwysiadu a'u hystyriaeth o'r Gymraeg fel y'u hadolygwyd gan IAITH/BURUM yn 2019, ac a ddiweddarwyd hyd at Awst 2022. O'r 24 o Gynlluniau Datblygu⁵ a archwiliwyd, roedd gan un ar ddeg o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol 'fachyn' polisi penodol mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd gan naw Awdurdod Cynllunio Lleol ardaloedd daearyddol/gofodol dynodedig o fewn eu ffiniau ac roedd gan CDLlau Gwynedd ac Ynys Môn ac Eryri bolisiau ar draws y Cynllun cyfan. Yn y cynlluniau hyn, rhoddir pwysoliad ychwanegol i ystyriaeth ynghylch y Gymraeg. Fel arfer, defnyddir yr ystyriaethau hyn fel rhan o bolisiau a chynigion cyffredinol cynlluniau datblygu, yr asesir cynigion penodol yn eu herbyn. Nododd adolygiad IAITH/BURUM, lle yr oedd yn berthnasol, fod bron pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn dadlau dros ddefnyddio

⁴ Llywodraeth Cymru (Mawrth 2020) Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3

⁵ Mae Gwynedd ac Ynys Môn wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd

methodoleg Asesu'r Effaith ar y Gymraeg a ddisgrifir yn y ddogfen *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen* (2005).

1.3.3 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)

15. Mae'r camau allweddol yn y fethodoleg i asesu'r effaith ar y Gymraeg a gyflwynir yn y ddogfen *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen* (2005) yn golygu:

- Llunio Rhestr Wirio (gan gynnwys llinell sylfaen)
- Sgorio'r rhestr wirio ar gyfer effeithiau tebygol
- Cyfrifo'r Mynegai Effaith Gyffredinol
- Asesu yn erbyn sensitifrwydd ieithyddol y safle / yr ardal.

16. Mae nifer o gyfyngiadau i'r fethodoleg hon. Dylid nodi, er y caiff ei defnyddio'n helaeth, nad oes gan *Y Ffordd Ymlaen* unrhyw statws swyddogol ac nad yw erioed wedi cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fel methodoleg i asesu'r effaith ar y Gymraeg. Rhestrir cyfyngiadau eraill i'r fethodoleg hon isod:

- Cafodd ei llunio yn bennaf, a chaiff ei defnyddio yn bennaf, at ddiben asesu ceisiadau unigol ac nid i asesu effaith cynlluniau datblygu.
- Mae rôl a chyfrifoldebau rhanddeiliaid eraill (yn ychwanegol at yr Awdurdod Cynllunio Lleol) wrth gyflawni asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn aneglur.
- Ymddengys fod y berthynas rhwng effaith datblygiad arfaethedig ar fywiogrwydd y Gymraeg a rhai o'r 18 o gwestiynau yn yr asesiad yn wan neu yn anodd ei mesur oherwydd, ar adegau, nid yw ansawdd y data yn gyfredol nac yn ddefnyddiol. At hynny, ni ddefnyddir unrhyw ddulliau modelu senarios yn y dyfodol.
- Nid yw'r Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol yn rhoi arweiniad ynghylch y pwysoliad y dylid ei ystyried ar gyfer canlyniadau'r 18 o gwestiynau. Er bod y fethodoleg yn cydnabod yr opsiwn i bwysu a mesur pum elfen "bywyd cymunedol" a'r 18 o gwestiynau cysylltiedig, yn ymarferol nid yw'r pwysoliad hwn yn cael ei ddefnyddio yn aml mewn asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg.
- Dim ond yr effaith yn erbyn y llinell sylfaen mae'r fethodoleg hon yn ei mesur, nid yr effaith yn erbyn taflwybrau a ragwelir ar gyfer newid yn y dyfodol. Nid yw'n cydnabod y bydd bywiogrwydd / gwytnwch y Gymraeg yn newid dros

amser ac yn ymateb i sbardunau economaidd a chymdeithasol ynghyd â sbardunau eraill megis dyheadau ac agweddau pobl ac i bolisiâu cenedlaethol a lleol.

- Yn aml nid yw'n glir beth yw'r sail oddrychol i benderfynu a yw effaith yn arwyddocaol ai peidio.
- Dim ond yng nghyd-destun mesurau lliniaru y caiff yr ymateb ei ystyried ac nid yw'r mesurau (lliniaru) a gynigir wedi cymryd i ystyriaeth, o angenrheidrwydd, pa ffactorau ieithyddol sy'n briodol ac yn berthnasol i'r cyd-destun.

1.4 Dulliau eraill o asesu a rheoli risg

17. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd ac Ynys Môn (mabwysiadwyd Gorffennaf 2019)⁶ wedi arloesi gyda dull newydd yn eu canllawiau i ddatblygwyr ar gyfer asesu'r effeithiau mae cynigion datblygu tai neu gyflogaeth ar safleoedd mawr heb eu rhagweld neu hap-safleoedd mawr yn debygol o'u cael ar y Gymraeg.
18. Mae'r canllawiau'n awgrymu methodoleg wedi'i seilio ar ystyriaeth fanylach o'r effeithiau a ragwelir ac yn fras mae'n dilyn y fethodoleg sy'n sail i Ganllawiau Llywodraeth y DU ar gyfer Asesu a Rheoli Risg Amgylcheddol, *Green Leaves III*⁷. Yn eu tro, mae *Green Leaves III* yn dilyn datblygiadau ym maes asesu a rheoli risg a ddefnyddir yn helaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau polisi cyhoeddus.
19. Mae'r Sefydliad Safoni Rhyngwladol (ISO) wedi mabwysiadu *Safon Ryngwladol (31000:2009) ar Reoli Risg*.⁸ Mae hon yn darparu egwyddorion a chanllawiau i'w defnyddio ar draws pob sefydliad a sefyllfa. Mae cyflwyniad ISO 31000 yn esbonio'r rhesymeg y tu ôl i gyflwyno safon fyd-eang:

“Although the practice of risk management has been developed over time and within many sectors in order to meet diverse needs, the adoption of consistent

⁶ Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn (2019) Canllawiau Cynllunio Atodol Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd ac Ynys Môn Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy.

⁷ UK DEFRA/Cranfield University (2011) *Green Leaves III Guidelines for Environmental Risk Assessment and Management*


⁸ International Organization for Standardization (2018) *Risk Management Principles and Guidelines*.

processes within a comprehensive framework can help to ensure that risk is managed effectively, efficiently and coherently across an organization. The generic approach described in this International Standard provides the principles and guidelines for managing any form of risk in a systematic, transparent and credible manner and within any scope and context.

In general terms, 'risk management' refers to the architecture (principles, framework and process) for managing risks effectively, while 'managing risk' refers to applying that architecture to particular risks."


20. Mae **Ffigur 1.2** drosodd wedi cael ei atgynhyrchu o ddogfen ISO 31000. Mae'n darlunio model rheoli risg sy'n nodi'r berthynas rhwng yr egwyddorion sy'n sail i'r gwaith o reoli risg, fframwaith i'w ddilyn wrth gyflawni gwaith rheoli risg, a phroses fanwl cyflawni asesiad risg.
21. Mae canllawiau'r ISO yn nodi nodweddion canlynol gwaith rheoli risg effeithiol:
 - disgrifio a sefydlu'r cyd-destun;
 - canfod, dadansoddi, asesu a mynd i'r afael â risg; a
 - chyfathrebu ac ymgynghori â rhanddeiliaid drwy gydol y broses.
22. Nid yw'r nodweddion a restrir uchod yn annhebyg i'r camau wrth gyflawni asesiad Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Er bod y ffocws yn fras o hyd, mae'r effeithiau tebygol a ragwelir:
 - yn cael eu gwahaniaethu'n gliriach yn nhermau maint y canlyniadau a'r debygolïaeth y byddant yn digwydd;
 - yn peidio â chael sgôr niwtral ac felly osgoir y duedd ymysg defnyddwyr y fframweithiau hynny sy'n defnyddio graddfeydd odrifau (tri, pump, saith ac ati) i glystyru o gwmpas y man canol.

Ffigur 1.2: Pensaerniaeth Rheoli Risg Effeithiol – y berthynas rhwng egwyddorion, fframwaith a phroses⁹



⁹ Ffynhonnell: International Organization for Standardization (2018) *Risk Management Principles and Guidelines*.

23. Mae *Green Leaves III* yn argymhell fframwaith cylchol ar gyfer rheoli risg amgylcheddol wedi'i seilio ar bedair prif elfen:
- gosod allan y broblem gan gydnabod y llwybrau allweddol rhwng ffynhonnell y perygl a'r derbynnydd/derbynyddion;
 - cynllunio ar gyfer asesiad o'r risg a'i gyflawni;
 - canfod ac arfarnu'r opsiynau sydd ar gael o ran rheoli'r risg;
 - mynd i'r afael â'r risg gyda'r strategaeth rheoli risg a ddewisir gan sicrhau y caiff y strategaeth a gyflawnir ei monitro mewn modd priodol.
24. Mae **Ffigur 1.3** yn cyflwyno dull posibl o Reoli Risg Gwytnwch y Gymraeg yn y broses o lunio CDLI ac mae'n addasiad o'r fframwaith rheoli risg cyffredinol hwn.



25. Mae'r model hwn yn **cyflwyno** proses sy'n cynnwys pedwar cam:

Cam 1 – paratoi ar gyfer yr asesiad risg, diffinio'r broblem yn fanwl gywir a dylunio'r asesiad;

Cam 2 – cyflawni'r asesiad risg;

Cam 3 – canfod ac ystyried yr opsiynau ymarferol a dewis 'strategaeth a ffefrir' i fynd i'r afael â'r risg neu ei rheoli;

Cam 4 – paratoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risg o fewn y strategaeth a ffefrir.

26. Yn **Ffigur 1.3**, mae'r golofn ganol yn nodi'r camau i'w cymryd a'r materion i'w hystyried ar bob cam. Mae'r golofn dde yn ymdrin â'r meini prawf y caiff y risg ei hasesu a'i rheoli yn eu herbyn. Mae'r model yn rhagdybio bod y Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu dyheadau'r Awdurdod Lleol ar ddiwedd cyfnod y cynllun (15

mlynedd fel arfer). Bydd cynaliadwyedd y cynllun hwn (gan gynnwys cynaliadwyedd y Gymraeg) yn cael ei asesu trwy'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd.

1.4.1 Rhagweld sgorau gwytnwch

27. Mae Llyfr Oren Trysorlys Ei Mawrhydi yn nodi tair egwyddor bwysig wrth nodi risgiau:
- *“Ensure that there is a clearly identified process in which both likelihood and impact are considered for each risk;*
 - *Record the assessment in a way which facilitates monitoring and the identification of risk priorities;*
 - *Be clear about the difference between inherent and residual risk.”¹¹*

1.4.2 Canlyniadau a Thebygoliaeth

28. Dylai'r cyfuniad o ganlyniadau a thebygoliaeth a ddewisir gael ei seilio ar y risg y bydd rhywbeth yn digwydd o fewn cyfnod diffiniedig. Mae hefyd yn hanfodol sicrhau bod y sgôr tebygoliaeth a ddewisir yn ymwneud â'r debygoliaeth y bydd lefel o ganlyniad / effaith yn digwydd, NID yn unig â'r debygoliaeth y bydd y gweithgaredd / digwyddiad / perygl yn digwydd.
29. Dylid nodi nad oes angen bod yn gwbl sicr ynghylch ffeithiau a phroblemau er mwyn sgorio risg. Nid yw ansicrwydd yn creu risg uchel yn awtomatig, chwaith. Dim ond un elfen yn y broses cyfrifo risg yw'r lefel ansicrwydd. Felly mae asesu risg yn fater o wneud y penderfyniad MWYAF gwybodus posibl sy'n cynnwys ansicrwydd.
30. Mae **Ffigur 1.4** yn cynnig matrices ar gyfer canfod risgiau i wytnwch y Gymraeg o arfarnu Strategaeth a Ffeirir CDLI Sir Gaerfyrddin. Er bod modd datblygu matricesau mwy soffistigedig, credwn fod y cynnig yn bodloni'n well y meini prawf gofynnol ar gyfer y fethodoleg, yn arbennig o ran ymarferoldeb. Mae'n cynnig defnyddio matrices 4*4 wedi'i seilio ar y graddfeydd canlynol o ran effaith a thebygoliaeth:

Effaith		Tebygoliaeth	
Cadarnhaol Mawr	+2	Bron yn sicr/tebygol iawn	4
Cadarnhaol Bach	+1	Tebygol	3

¹¹ HM Treasury (2004): *The Orange Book: Management of Risk- Principles and Concepts*

Negyddol Mawr	-1	Posibilrwydd Realistig/Annhebygol	2
Negyddol Bach	-2	Annhebygol iawn/Fawr ddim siawns	1

31. Mae'r model arfaethedig hwn yn cydnabod y bydd angen ailedrych ar yr asesiad risg wrth i amser fynd heibio a/neu wrth i wybodaeth a thystiolaeth newydd neu well fod ar gael.
32. Mae **Atodiad 1.2** yn disgrifio'r fethodoleg *Fframwaith Asesu a Rheoli Gwytnwch y Gymraeg* arfaethedig yn fanylach.

Ffigur 1.4: Matrics arfaethedig o'r risg i wytnwch y Gymraeg

MATRICES RISG GWYTNWCH YR IAITH GYMRAEG CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GÂR					← GRADDFFA'R EFFAITH/CANLYNIADAU DROS GYFNOD Y CYNLLUN →				
						Cadarnhaol Mawr	Cadarnhaol Bach	Negyddol Bach	Negyddol Mawr
					Gwytnwch yr Iaith Gymraeg f(GIG) = NSC + CSC pwysoliad trothwy	Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r tafliwybr	Cynnydd llai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r tafliwybr	Lleihâd o lai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn is na'r tafliwybr	Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg oed 3 a throsodd yn Ardal y Cynllun yn is na'r tafliwybr
					Uchel	Isef	Isef	Uchel	
Tebygolrwydd		Amledd		Sgôr	2	1	-1	-2	
TEBYGOLIAETH	Mae profiad yn dangos fod y tŵf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol iawn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 8 neu ragor gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Debygol iawn	4	8	4	-4	-8	
	Mae profiad yn dangos fod y tŵf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 5 - 7 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Debygol	3	6	3	-3	-6	
	Mae profiad yn dangos fod y tŵf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn bosibl yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 3- 4 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Bosibl	2	4	2	-2	-4	
	Mae profiad yn dangos fod y tŵf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn annhebygol iawn yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 1-2 waith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Annhebygol iawn	1	2	1	-1	-2	

1.5 Cyfyngiadau modelau asesu a rheoli risg

33. Fel yn achos modelau eraill, mae modelau asesu a rheoli risg yn ceisio cynrychioli system gan ddefnyddio casgliad o gysyniadau a thybiaethau i helpu pobl i ddeall y system honno. Yng nghyd-destun gwytnwch y Gymraeg ceisir dylunio model o'r 'byd go iawn' yn nhermau defnyddio iaith. O angenrheidrwydd mae cyfyngiadau ar y graddau y gall model o'r fath gynrychioli cymhlethdod yr arferion ieithyddol sy'n nodweddu 'bywiogrwydd' neu 'wytnwch' ieithyddol mewn cymdogaethau penodol.
34. Cymharol gyfyngedig yw'r ddealltwriaeth bresennol o'r berthynas rhwng newidiadau mewn defnydd tir a'i oblygiadau o ran dylanwadu ar arferion iaith pobl, naill ai'n negyddol neu'n gadarnhaol, dros amser, yn arbennig yn y dyfodol. Er mwyn bod yn gadarn, mae angen i asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg gael eu seilio ar ddata sy'n *ddibynadwy* ac o *ansawdd da*. O'r herwydd, mae angen parhau i ddibynnu i raddau helaeth ar fesur procsi o allu ieithyddol – cofnod o allu'r boblogaeth i siarad Cymraeg, fel y'i mynegwyd wrth ateb cwestiwn yn y Cyfrifiad dengmlwyddol o'r Boblogaeth. Er ei bod yn hanfodol bod yn 'wrthrychol' a sicrhau cywirdeb a dyblygiadwyedd, mae angen hefyd cydnabod cyfyngiadau dangosyddion megis data 'gallu ieithyddol' y Cyfrifiad. O ganlyniad, mae angen hefyd dibynnu ar gyfraniad rhanddeiliaid i werthuso'r data a ddefnyddir mewn model asesu a rheoli risg a'u cysylltu â'u profiad a'u dealltwriaeth o arferion ieithyddol lleol.
35. Yn olaf, oherwydd ei wreiddiau ym maes canfod peryglon ac asesu a rheoli risg, ar hyn o bryd mae'n debyg bod y model yn fwy medrus wrth ganfod effeithiau negyddol yn hytrach nag effeithiau cadarnhaol a chyfleoedd i wella buddion. Yng nghyd-destun asesu effaith datblygiadau ffisegol ar fywiogrwydd a gwytnwch y Gymraeg – a'r angen i fireinio dulliau asesu a rheoli risg – mae'n debyg mai 'gwaith ar y gweill' parhaus fydd hwn yn y dyfodol agos.

1.6 Crynodeb a Chasgliadau

36. Mae'r adran hon wedi adolygu methodolegau sy'n bodoli eisoes i asesu'r effaith ar y Gymraeg. Mae'r dull a ddefnyddir yn helaeth ar hyn o bryd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol, *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen* (2005), yn hen-ffasiwn ac mae

cyfyngiadau iddo. Yn seiliedig i raddau helaeth ar fodel yr ydym wedi bod yn ei ddatblygu i asesu effaith datblygiadau mawr nas rhagwelwyd ar y Gymraeg, cynigir i'r Cyngor gyflawni rhagor o waith i asesu effaith debygol Strategaeth a Ffeirir CDLI Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg yn ardal y cynllun gan ddefnyddio dull amgen *Fframwaith Rheoli Gwytnwch y Gymraeg*. Mae'r ymagwedd at fethodoleg asesu'r effaith ar y Gymraeg a geir yn y fframwaith hwn wedi'i halinio â dulliau cyfredol o reoli risg ac, yn ein barn ni, yn cynnig dull addas, cynhwysfawr ac ymarferol o gyflawni'r asesiad. Er y cydnabyddir nad yw'r fframwaith hwn ar gyfer asesu a rheoli risg wedi cael ei brofi ryw lawer, serch hynny yn sylfaen iddo mae methodoleg ISO gadarn ar gyfer asesu a rheoli risg.

* * * * *

Rhan 2 – Asesiad o Effaith Strategaeth a Ffefrir y CDLI Adneuo ar y Gymraeg

2.1 Cyflwyniad

1. Mae Rhan 2 yn mynd i'r afael â'r angen am Asesiad Lefel Uchel diwygiedig o'r Effaith ar y Gymraeg mewn perthynas ag effeithiau disgwylidig tebygol y **Strategaethau Twf a Gofodol diwygiedig a fabwysiadwyd ar gyfer yr Ail Fersiwn Adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI diwygiedig 2)**. Mae hyn wedi cael ei gyflawni a'i baratoi ochr yn ochr â'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig diwygiedig a gynhaliwyd ar gyfer CDLI diwygiedig 2 ac yn arbennig ar gyfer y strategaethau hyn.
2. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (adran 11) yn cadarnhau'r gofyniad i Arfarniad Cynaliadwyedd gynnwys *“asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal y cynllun. Diben hyn yw sicrhau bod graddfa¹² a lleoliad y newid a nodir yn y cynllun yn cefnogi'r Gymraeg a sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn eu lle, os oes angen.”*¹³
3. Mae Adran 4 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu¹⁴ yn annog dull integredig o gynnal arfarniad cynaliadwyedd o gynllun datblygu (gweler **Ffigur 2.1**). Mae'r amcanion cynaliadwyedd yr asesir amrywiol effeithiau'r cynllun datblygu arfaethedig yn eu herbyn yn cynnwys un amcan sy'n ymwneud ag iechyd y Gymraeg yn y dyfodol¹⁵. Nid yw hyn wedi newid ers yr Arfarniad Cynaliadwyedd a fabwysiadwyd ar ddechrau proses CDLI diwygiedig 1 ac am y rhesymau a gynhwysir yn CDLI diwygiedig 1, nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg o ran yr Arfarniad Cynaliadwyedd, yn ein barn ni, yn ddigon cadarn na CAMPUS¹⁶ at ddibenion Asesiad cynhwysfawr o'r Effaith ar y Gymraeg. Ei ein bod yn cydnabod, yn ddelfrydol, y dylai'r maen prawf ar gyfer asesu'r effaith gan yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fod yr un

¹² Ein pwyslais ni.

¹³ Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adrannau 60B (1) (b) a 60B (2) fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (adran 11).

¹⁴ Llywodraeth Cymru (Mawrth 2020) Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3.

¹⁵ Hybu twf y Gymraeg a diwylliant Cymru.

¹⁶ CAMPUS Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol

fath rydym wedi cynnal yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg gan ddefnyddio ffon fesur wahanol.

Ffigur 2.1: Cyngor y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu

Dull Asesu Integredig: Dull Effeithiol a Chyfannol o Lunio Cynllun

4.5 Wrth gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd, dylai ACLlau ystyried y gwerth a'r cyfleoedd o gael dull asesu integredig wrth baratoi cynllun datblygu. Trwy integreiddio elfennau statudol ac allweddol megis gofynion Deddf Llesiant 2015, y Ddeddf Cydraddoldeb, y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) a Deddf yr Amgylchedd (adran 6) (pan yn berthnasol) mewn un Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd (ISA), bydd modd cynnal asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chynhwysfawr o oblygiadau opsiynau twf, amcanion, polisiâu a chynigion ar gyfer cynaliadwyedd.

4.6 Gall ISA sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl, osgoi dyblygu, a darparu trywydd archwilio clir i gymunedau a defnyddwyr cynllun ynghylch sut cafodd y materion amrywiol eu hystyried, a sut maent wedi dylanwadu ar y cynllun. Mae dull ISA yn cynnig mecanwaith cadarn a thrylwyr i nodi problemau, asesu effeithiau a chynorthwyo gyda monitro mewn modd cyfannol. Mater i bob awdurdod sy'n llunio cynllun fydd penderfynu a ddylid integreiddio'r asesiadau a drafodir isod (nid yw'n rhestr gyflawn) fel rhan o'i Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan ystyried gofynion deddfwriaethol a materion allweddol yn ardal y cynllun. **Bydd angen i awdurdodau sy'n llunio cynlluniau fod yn glir ynghylch pa elfennau sy'n cael eu sgrinio i'r ISA; h.y. yr elfennau hynny sy'n berthnasol ac y gellir eu hystyried gan y cynllun datblygu. Dylai'r ISA gyfeirio'n glir at y gofyniad cyfreithiol penodol y maent yn ymdrin ag ef.** Ni ddylid defnyddio'r system cynllun datblygu i sicrhau amcanion y mae'n fwy priodol eu cyflawni drwy ddeddfwriaeth neu fecanweithiau eraill.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020) Cynlluniau Datblygu, argraffiad 3, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Adran 4.

4. Un o'r canlyniadau allweddol i'r system CDLI yw *“cefnogi datblygu cynaliadwy a lleoedd o safon yn seiliedig ar Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, wedi'u halinio â pholisi cenedlaethol (a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru) wedi'i integreiddio ag Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS/HRA, gan gynnwys y Gymraeg a gofynion Deddf Llesiant 2015.”*¹⁷
5. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys yr elfennau canlynol:
 - Adolygiad o'r cefndir a'r cyd-destun i'r asesiad.

¹⁷ Op.cit.


- Cyfeirio at y dadansoddiad manylach o'r asesiadau o ran yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Arfarniad Cynaliadwyedd a wnaethpwyd fel rhan o'r fersiwn adneuo cychwynol o'r CDLI diwygiedig a gynhaliwyd yn 2019.
- Canfod a llenwi unrhyw fylchau i gyflawni Asesiad Lefel Uchel o'r Effaith ar y Gymraeg y rhagwelir y bydd y **Strategaeth Twf a Ffefrir** yn debygol o'i chael gan ddefnyddio'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn Rhan Un.
- Canfod a llenwi unrhyw fylchau i gyflawni Asesiad Lefel Uchel o'r Effaith ar y Gymraeg y rhagwelir y bydd y **Strategaeth Ofodol a Ffefrir** yn debygol o'i chael gan ddefnyddio'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn Rhan Un.
- Gwneud argymhellion ynghylch pa gamau gweithredu, os o gwbl, mae eu hangen er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol o'r Strategaeth Twf a Gofodol a Ffefrir.

2.2 Y Cyd-destun

2.2.1 Canllawiau Llywodraeth Cymru

6. Ceir polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11). Mae **Ffigur 2.2** isod yn nodyn atgoffa ynghylch Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn y canlyniad Creu a Chynnal Cymunedau mae gofyniad i'r system CDLI "*[g]alluogi'r Gymraeg i ffynnu*".

Ffigur 2.2: Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy



7. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017, yn rhoi canllawiau manylach ar sut y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried opsiynau CDLI o ran eu heffaith ar y Gymraeg.

“Opsiynau’r CDLI

3.3 Bydd y strategaeth a ffefir yn y CDLI yn deillio o gyfres o opsiynau strategol. Bydd yr opsiynau hyn yn nodi lefelau posibl o dwf a lleoliadau allweddol ar gyfer twf. Dylai ACLlau nodi sut bydd pob opsiwn yn effeithio ar y defnydd o’r Gymraeg. Ceir manylion sut i asesu opsiynau drwy AoG yn adran 6.3 o’r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol”.

8. Mewn perthynas ag asesu effeithiau tebygol cynllun datblygu ar y Gymraeg, mae adran 4.14 o'r Llawlyfr yn crynhoi'r canllawiau a gofynion deddfwriaethol fel a ganlyn:¹⁸

Yn gryno, mae'n rhaid i ACLlau ystyried effeithiau tebygol eu cynllun datblygu fel rhan o'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd a chynnwys datganiad yn y cynllun adneuo ar sut mae'r cynllun datblygu wedi ystyried a/neu wedi mynd i'r afael â hyn. Proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw'r mecanwaith ar gyfer ystyried sut mae graddfa a lleoliad twf, y weledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion yn unigol ac ar y cyd, yn effeithio ar y Gymraeg.

¹⁸ Llywodraeth Cymru (Mehefin 2019) *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 Ymgynghori*.

Lle mae tystiolaeth yn dangos effaith niweidiol ar ddefnyddio'r Gymraeg, gall yr ACLI asesu a ddylid diwygio'r strategaeth neu nodi mesurau lliniaru.

2.2.2 Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040

9. *Cymru'r Dyfodol* yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 gyda'r nod o fod yn fframwaith cynllunio i lywio newid a datblygu yng Nghymru yn ystod y ddau ddegawd nesaf.
10. Yr hyn sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Asesiad Effaith hwn yw'r datganiadau a'r blaenoriaethau yn y Cynllun sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
 - Un o'r 11 canlyniad y mae Llywodraeth Cymru am i'r Cynllun eu cyflawni yw:
"Cymru lle mae pobl yn byw...mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu."
(Canlyniad 4)

"Bydd yr iaith yn cael ei hystyried o fewn strategaeth ofodol pob cynllun datblygu."¹⁹
 - O ran rhanbarth De-orllewin Cymru:
 - Mae'n nodi bod 147,864 (31.8%) o'r boblogaeth o dros 700,000 yn siaradwyr Cymraeg (cynnydd o 5.4% ers 2009).
 - Mae'n nodi: *"mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg."*
 - Mae hefyd yn nodi: *"Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu a pharhau i fod yn iaith gymunedol yn y lleoedd niferus lle siaredir Cymraeg bob dydd."²⁰*

2.2.3 Newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir

11. Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ddau orchymyn uchod fel rhan o'r mesurau i fynd i'r afael ag ail gartrefi a llety gosod tymor byr yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn cael ei ddiwygio er mwyn creu dau ddsbarth newydd, sef "C3 - Tai annedd, a ddefnyddir fel unig breswylfa neu brif

¹⁹Llywodraeth Cymru (2021) *Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040*, tudalen 42.

²⁰ Ibid. Tudalen 143.

breswylfa", "C5 - Tai annedd a ddefnyddir mewn modd ac eithrio fel unig breswylfa neu brif breswylfa" a "Dosbarth C6 - Llety gosod tymor byr". Mae'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn cael ei ddiwygio er mwyn caniatáu newidiadau a ganiateir rhwng C3, C5 a C6 ond gellir datgymhwysu hyn mewn ardal benodol drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4 a wneir gan awdurdod cynllunio lleol ar sail tystiolaeth leol gadarn.

2.2.4 Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

12. Ym mis Hydref 2022, fel rhan o'r mesurau i fynd i'r afael ag ail gartrefi a llety gosod tymor byr mewn cymunedau Cymraeg, yn ychwanegol at y mesurau cynllunio, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r systemau eiddo a threthiant. Mae'r cyhoeddiad yn cwmpasu saith maes gan gynnwys amrywiol ymyraethau yn ymwneud â'r economi a'r farchnad dai, sefydlu/cryfhau llysgenhadon diwylliannol, *Bwrdd Crwn yr Economi, Tai a'r Gymraeg* a'r *Comisiwn Cymunedau Cymraeg* a mesurau i ymchwilio i newidiadau i enwau lleoedd Cymraeg.
13. Er nad yw hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r Asesiad hwn, ac er nad yw graddfa ail gartrefi a llety gosod tymor byr, yn gyffredinol, yn broblem fawr y tu allan i rai cymunedau arfordirol, mae posibilrwydd realistig y gallai'r mesurau ddylanwadu ar gyflymder a dosbarthiad cartrefi a swyddi cyn diwedd cyfnod y Cynllun.

2.3 Cyngor Sir Caerfyrddin

2.3.1 Polisi Cynllunio a'r Gymraeg

14. Mabwysiadodd y Cyngor y cynnig canlynol yn y cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 10 Gorffennaf 2019:

"Mae'r Cyngor hwn yn credu bod Sir Gaerfyrddin gyfan yn 'ardal lle mae sensitifrwydd a phwysigrwydd ieithyddol' a bod y system gynllunio'n cyflawni rôl hanfodol o ran cefnogi'r Gymraeg ledled y sir. I'r perwyl hwn, rydym yn credu y dylai'r iaith fod yn Ystyriaeth Gynllunio Berthnasol yn yr holl geisiadau ar gyfer datblygiad o bum tŷ neu ragor mewn ardaloedd gwledig, a datblygiad o ddeg tŷ neu ragor mewn ardaloedd trefol ym mhob cymuned, beth bynnag yw canran y siaradwyr Cymraeg.

Rydym yn parhau o'r farn bod y polisi hwn yn angenrheidiol a bod cyfiawnhad drosto oherwydd:

- *yr angen i fynd i'r afael â'r lleihad mawr ac annisgwyl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn ôl Cyfrifiad 2011*
- *mae'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*
- *mae'n cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg..."*

15. Felly, mabwysiadwyd y polisi hwn yn hwyr yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (newydd) Adneuo Cyntaf. Mae polisi rheoli datblygu'r Gymraeg (WL1) wedi'i addasu i adlewyrchu polisi'r Cyngor.

2.3.1 Strategaeth Hybu'r Gymraeg

16. Gweledigaeth hirdymor y Cyngor yw gwneud y Gymraeg yn brif iaith y sir.

17. Mae 5 prif amcan wedi'u nodi er mwyn cyflawni ei nod:

- *"Cynyddu niferoedd sy'n caffael sgiliau sylfaenol a sgiliau pellach yn y Gymraeg drwy'r system addysg a thrwy drosglwyddo iaith yn y cartref.*
- *Cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly ddefnydd y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd, ac annog a chefnogi sefydliadau'r sir i wneud y Gymraeg yn gynyddol yn gyfrwng naturiol eu gwasanaethau.*
- *Cymryd camau pwrpasol i effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth gan geisio denu'n pobl ifanc i sefydlu neu i ail-ymsefydlu yn y sir fel na gollir y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a enillir drwy'r drefn addysg. Yn ogystal, gwneud ymdrechion sylweddol i gymathu mewnfudwyr a sicrhau nad ydy datblygiadau cynllunio newydd yn cael effaith andwyol ar hyfywedd y Gymraeg.*
- *Targedu ardaloedd daearyddol penodol o fewn y sir, naill ai am eu bod yn cynnig potensial i ddatblygu neu yn achosi pryder yn ieithyddol, i gynyddu niferoedd sy'n medru ac yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny.*
- *Marchnata a hyrwyddo'r iaith. Codi statws y Gymraeg gan gynnwys manteision dwyieithrwydd a manteision addysg ddwyieithog. A thrwy godi ymwybyddiaeth o'r manteision hyn, denu mwy o drigolion y sir i gaffael yr iaith."*

2.3.2 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032

18. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022-2032 yn cyflwyno sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni canlyniadau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb, mewn modd a gynlluniwyd, i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Y nod yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n medru defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.
19. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn Sir Gaerfyrddin yn gyfrwng allweddol ar gyfer creu system gynllunio well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn darparu dull i Lywodraeth Cymru fonitro'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymateb ac yn cyfrannu at weithredu amcanion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
20. Mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth a thargedau yn erbyn 7 maes dysgu neu ddeilliannau strategol fel a ganlyn:
 - **Deilliant 1** - Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
 - **Deilliant 2** - Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
 - **Deilliant 3** - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
 - **Deilliant 4** - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
 - **Deilliant 5** - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol
 - **Deilliant 6** - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
 - **Deilliant 7** - Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg
21. Mae'r Cynllun yn nodi sut mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni pob un o'r deilliannau hyn dros gyfnod o ddeng mlynedd y Cynllun ac mae'n darparu cyfres o dargedau ar gyfer pob deilliant a llwybr ar gyfer cyrraedd y targedau hynny.
22. Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Gaerfyrddin yw y bydd 75% o'r holl ddisgyblion Blwyddyn 1 yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg.

2.4 Crynodeb o Ganfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

23. Mae'r adran hon yn adolygu'r ffordd yr ystyriwyd yr effaith ar y Gymraeg yn Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig mewn perthynas â CDLI diwygiedig 2.²¹ Nodir y bydd adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn crynhoi canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'i asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg (ISA11).

24. Mae adran 2.4 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig diwygiedig yn nodi'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer asesu maint ac arwyddocâd yr effeithiau:

*"O gofio cwmpas eang cynigion y cynllun a pha mor anodd yw gwahanu achosion eraill yr effeithiau, bernir mai dull ansoddol yw'r dull mwyaf ystyrllon. Fodd bynnag, nid yw ansoddol yn golygu 'wedi'i ddyfalu' ac mae angen i ragfynegiadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth. Pan fydd y dystiolaeth wedi cael ei hystyried, mae'n rhaid ffurfio barn ynghylch a yw'r effaith a ragwelir yn un arwyddocaol. Mae Ffigur 1 yn darparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i farnu arwyddocâd yn gyson a chan sicrhau bod rhagweld, gwerthuso a lliniaru i gyd wedi cael eu cynnwys yn yr arfarniad."*²²

25. Mae Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn nodi'r Gymraeg a diwylliant Cymru fel un o'r 15 o faterion cynaliadwyedd, pob un ohonynt ag amcan:

- SA1 Datblygu Cynaliadwy
- SA2 Bioamrywiaeth
- SA3 Ansawdd Aer
- SA4 Ffactorau Hinsoddol
- SA5 Dŵr
- SA6 Asedau Materol
- SA7 Pridd
- SA8 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol
- SA9 Tirwedd

²¹ Cyngor Sir Caerfyrddin (Rhagfyr 2022) *Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, Cynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-33*

²² Cyngor Sir Caerfyrddin (Tachwedd 2019) *Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin: Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd y CDLI Adneuo*

- SA10 Poblogaeth
- **SA11 Y Gymraeg**
- SA12 Iechyd a Llesiant
- SA13 Addysg a Sgiliau
- SA14 Yr Economi
- SA15 Gwead Cymdeithas

26. Mae Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn disgrifio pwysigrwydd y Sir fel un o gadarnleoedd y Gymraeg ac yn nodi'r lleihad mawr a welwyd yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yn y cyfnod o 1991 i 2011, ac o 2001 i 2011 yn arbennig, lle gwelwyd y lleihad mwyaf ond un mewn termau canrannol ymysg siroedd Cymru. Fodd bynnag, mae'n cydnabod, yng nghyd-destun strategaeth Llywodraeth Cymru a champau gweithredu a arweiniwyd gan *Cymraeg 2050*, fod y darlun, heb ymyrraeth polisi'r Ail Fersiwn Adneuo o'r CDLI diwygiedig, yn debygol o ddangos gwelliant. Mae **Tabl 2.1** yn ddarn o Dabl 5 Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n crynhoi'r sefyllfa llinell sylfaen debygol.

Tabl 2.1: Y Llinell Sylfaen Busnes fel Arfer

Amcan yr ISA	Llinell sylfaen y dyfodol	Crynodeb Sylfaenol
ISA11 – Y Gymraeg	Gwella	Mae Sir Gaerfyrddin yn sensitif yn ieithyddol, ac mae ganddi'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg o blith unrhyw sir yng Nghymru. Mae tystiolaeth o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn awgrymu bod nifer y bobl 3 oed a hŷn yn y sir sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ers cyfnod y Cyfrifiad diwethaf yn 2011 wedi codi'n sylweddol. Ers mis Mawrth 2011 mae nifer (+9,200) a chanran (+9.56%) y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi tyfu hyd at fis Mawrth 2018 a 3,500 ychwanegol (5.4%) hyd at fis Mawrth 2022. Y targed cenedlaethol yw miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae cynnydd nodedig wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gall newidiadau/gostyngiadau lleol ddigwydd. Gall mewnfudo a ffactorau eraill (gan gynnwys strwythur oedran, a demograffeg eraill) effeithio'n negyddol ar gyfran y siaradwyr Cymraeg

		drwy herio pontio iaith, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg. Mae'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar yn amrywio'n flynyddol. Fodd bynnag, ers 2014 mae cyfraddau wedi codi ychydig i 45.2%, 42.5%, a 58%. Ynghyd â chynnydd yn narpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae trochi yn yr iaith yn debygol o wella cyfraddau dros y tymor hir, gan leihau effaith niweidiol wreiddiol mewnfudo o bosibl.
--	--	---

27. Wedyn caiff Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ei ddatblygu ar gyfer pob un o'r materion hyn. Dywedir bod "*pob amcan yn cael ei gefnogi gan nifer o is-amcanion a meini prawf penderfynu sy'n cyd-fynd â hwy er mwyn cynorthwyo yn y broses asesu*". Mae **Tabl 2.2** yn dangos yr amcan a'r mater allweddol a nodir ar gyfer y Gymraeg.

Tabl 2.2: Amcan a Mater Allweddol Cynaliadwyedd y Gymraeg

11 Y Gymraeg	
11-1 Hybu twf y Gymraeg a diwylliant Cymru	A fydd y CDLI yn hybu twf y Gymraeg a diwylliant Cymru?

2.4.2 Asesiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Dewisiadau Rhesymol Eraill yn lle'r Maint o Dwf a Ffefrir

28. Ceir yr asesiad o'r Opsiynau Twf Strategol yn adran 6.2 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r adran hon yn disgrifio'r chwe Opsiwn Twf newydd a ddatblygwyd ar gyfer yr Ail Fersiwn Adneuo o'r CDLI diwygiedig a gynhyrchwyd a sut y troswyd y rhain er mwyn canfod y nifer ganlyniadol o anheddau a fyddai'n ofynnol i gyflawni amcan y CDLI. Wedyn caiff y sgôr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ei hasesu yn erbyn gofyniad anheddau y CDLI o ran y Strategaeth Twf fabwysiedig bresennol ar gyfer CDLI diwygiedig 1 (yn seiliedig ar amcanestyniadau PG10 mlynedd/LIC2014) sef 589 o anheddau bob blwyddyn. Mae **Ffigur 2.3** yn atgynhyrchu Tabl 16 o Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n crynhoi'r sgôr ar gyfer pob Opsiwn (gweler ISA11: Y Gymraeg).

Ffigur 2.3: Rhoi prawf ar Opsiynau Twf Strategol yn erbyn y Fframwaith Amcanion Cynaliadwyedd

Tabl 16 - Crynodeb o ACI yr Opsiynau Twf ar gyfer y CDLI diwygiedig (gweler Atodiad E ar gyfer sylwebaeth). * yn unol ag amcanestyniad Llywodraeth Cymru ar sail 2018 (2018).

Opsiynau Twf	AC11 – Datblygu Cynaliadwy	AC12 – Bioamrywiaeth	AC13 – Ansawdd Aër	AC14 – Ffactorau Hinsoddol	AC15 – Dŵr	AC16 – Asedau Materol	ACT – Pridd	AC18 – Trefladaeth Ddiwyliamol	AC19 – Tirweidd	ACH0 – Poblogaeth	ACH11 – Y Gymraeg	ACH12 – Iechyd a Llesiant	ACH13 – Addysg a Sgiliau	ACH14 – Yr Economi	ACH15 – Gwead Cymdeithas
Opsiwn Twf a Ffeifir y CDLI diwygiedig Adneuo Cyntaf (wedi'i ailasesu*)															
Twf poblogaeth 10 mlynedd (2019) 8,835 annedd	+	+/-	-	+/-	+	0	+	+/-	+/-	++	+/-	+/-	+/-	+	+
Opsiynau Twf a Ffeifir yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo															
LIC ar sail 2018 (2018) 4,359 annedd	+	+/-	+/-	+/-	+	0	+	+/-	+/-	+	+/-	+/-	+/-	+	+/-
"Poblogaeth Uchel" (2018) 5,670 o anheddau	+	+/-	+/-	+/-	+	0	+	+/-	+/-	+	+/-	+/-	+/-	+	+/-
Tuedd deng mlynedd (2022) 8,822 annedd	+	+/-	-	+/-	+	0	+	+/-	+/-	++	+/-	+/-	+/-	+	+
Tuedd bymtheg mlynedd (2022) 9,272 o anheddau	+/-	-	-	-	+/-	0	+/-	-	-	++	-	+/-	+/-	+	+
Ar sail cyflogaeth (2022) 9,933 annedd	+/-	--	--	-	+/-	-	+/-	-	--	++	--	+/-	+/-	++	+
Prif amcanestyniad wedi'i ail-sylfaenu (2022) 10,461 o anheddau	+/-	--	--	-	+/-	-	+/-	-	--	++	--	+/-	+/-	++	+

Ffynhonnell: ibid.

29. O gymharu â'r senario Busnes fel Arfer mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn asesu'r effaith ar y Gymraeg fel un sy'n cael effeithiau cadarnhaol ac effeithiau negyddol. Mae Ffigur 2.4 yn atgynhyrchu'r sylwadau a gyflwynwyd yn Atodiad E Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

Ffigur 2.4: Sylwadau ar Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd o ran Twf Strategol (yn tybio bod gofyniad o 8,822 o anheddau)

ISA11 – Welsh Language	+/-	This level of growth would likely increase in the numbers of young persons and, as a proportion will be Welsh speakers, have positive effects upon the Welsh Language. This would be supported by Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan which aims to increase the provision of Welsh-medium education. Whilst these factors are proposed to provide an overall likely positive effect, additional information is needed to determine if this level of growth is likely to lead to a sustainable balance between employment opportunities, inward-mitigation, and the Welsh Language. Nevertheless, reference is made to the <u>WLLA</u> which suggests that this level of growth has the possibility of decreasing the percentage of Welsh speakers.
------------------------	-----	---

Ffynhonnell: Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

2.4.3 Ein Hasesiad

30. Mae'r sylwadau'n asesu y bydd graddfa'r twf (o'i chymharu â'r senario Busnes fel Arfer – sail-2018 LIC o 4,359 o anheddau) yn arwain at gadw nifer fwy o bobl ifanc yn Ardal y Cynllun.
31. Rydym yn cytuno â'r farn bod posibilrwydd realistig bod nifer a chanran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg wedi tyfu ers 2011. Mae **Tabl 2.4** yn dangos y gallu i siarad Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a dynnwyd o dablau perthnasol yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar StatsCymru.

Tabl 2.4: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Newid yn Sir Gaerfyrddin o ran gallu yn y Gymraeg dros amser

Dyddiad yr Arolwg	Pawb yn 3 oed neu'n hŷn	Gallu siarad Cymraeg	Canran	Newid (%) 2011-2018	Newid (%) 2018 – 2022
Mawrth 2011	174,600	81,500	46.7		
Mawrth 2018	177,200	90,700	51.2	9.6	
Mawrth 2022	176,200	95,200	54.0		5.4

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth Blynyddol StatsCymru – gallu yn y Gymraeg

32. Mae **Tabl 2.4** yn dangos nifer y bobl 3 oed a hŷn yn y sir sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011. Ers mis Mawrth 2011 mae nifer (+9,200) a chanran (+9.56%) y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi tyfu hyd at fis Mawrth 2018 a 3,500 ychwanegol (5.4%) hyd at fis Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrifon arolwg sy'n seiliedig ar samplau ac felly, mae'r lefelau hyder yn gallu amrywio, yn enwedig ar lefel awdurdod lleol. Yn y gorffennol fel arfer mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ynghylch gallu yn y Gymraeg yn uwch na rhai'r Cyfrifiad.
33. Bydd mwy o bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg o ganlyniad i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022-2032) y Sir a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Bydd y twf yn y grŵp oedran 3 – 15 yn ei dro yn cynhyrchu mwy o bobl ifanc â sgiliau dwyieithog. Fodd bynnag, er bod nifer y bobl ifanc (hyd at 24 oed) sy'n gallu siarad Cymraeg yn debygol o dyfu, mae hyn yn debygol o gael ei wrthbwysu gan newidiadau o ganlyniad i

fudo net, yn enwedig carfanau oedran diweddarach y grŵp oedran 16 – 64 a'r grŵp oedran 65+. Gan fod y graddfeydd twf mwy uchelgeisiol yn cael eu seilio ar gael cyfran uwch o grwpiau oedran hŷn, mae'r rhain yn fwy tebygol o leihau effaith twf mewn niferoedd o fewn y grwpiau oedran iau.

34. Mae **Tabl 2.5** yn crynhoi ein hasesiad o effaith y dewisiadau rhesymol eraill a ystyriwyd.

Tabl 2.5 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg o ran Opsiynau Twf CDLI diwygiedig 2

Opsiwn Twf	ISA 11: Y Gymraeg
PG10	negyddol
LIC 2018	+/-
Poblogaeth Uchel LIC	+/-
Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd	+/-
Tuedd 15 mlynedd	negyddol
Ar sail cyflogaeth	negyddol
Prif amcanestyniad wedi'i ail-sylfaenu	negyddol

2.5 Ein Hasesiad Lefel Uchel o Effaith y Strategaeth Twf a Ffeirir ar y Gymraeg

35. Mae'r adran hon yn rhoi asesiad lefel uchel o effeithiau tebygol y Strategaeth Twf a Ffeirir ar wytnwch y Gymraeg.
36. Mae'r Strategaeth a Ffeirir ddiwygiedig â'r nod o sicrhau 14,468 (7.7%) o gynnydd yn y boblogaeth gyfan, gyda'r gofyniad am 8,822 o gartrefi newydd (sy'n gyfwerth â 588 o gartrefi newydd y flwyddyn) a sicrhau o leiaf 3,588 o swyddi (286 o swyddi y flwyddyn rhwng 2020 a 2033)
37. Ein man cychwyn i gyflawni'r Asesiad oedd adolygu'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd ynghylch y sefyllfa llinell sylfaen.
38. Mae **Atodiad 2.1** yn cyflwyno ein dadansoddiad o nifer y siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd yn amcanestyniadau a thafllwybrau Llywodraeth Cymru o'i llinell sylfaen Cyfrifiad 2011 neu'r cyfnod hyd at 2050 a'u canlyniadau posibl ar gyfer nifer y

siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2033. I grynhoi, cyfrifir taflwybr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio prif amcanestyniad poblogaeth LIC 2014. Gan ddefnyddio'r un rhagdybiaethau ar gyfer y sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin rydym yn rhagdybio'r sefyllfa ganlynol:

*“Byddai cymhwyso’r un newid (22.5%) yn y ganran o’r boblogaeth tair oed a throsodd sy’n siarad Cymraeg i’r newid amcanestynedig yn ffigwr canran cyfansymiol siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn arwain o bosibl at dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd i 78,048 (*22.5% = 95,608).*

Yn seiliedig ar ragdybiaeth Prif Amrywiolion LIC14 a ddefnyddir yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru byddai hyn yn rhoi canran amcangyfrifedig o’r boblogaeth 14 oed a throsodd â’r gallu i siarad Cymraeg o 52.0%. Mae hyn yn cymharu â 43.9% a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011.”

39. Mae Prif Amcanestyniad LIC18 yn rhagweld bod y boblogaeth 3+ oed yn 188,417. Byddai hyn yn golygu mai’r gyfran o holl boblogaeth Sir Gaerfyrddin tair oed a throsodd sydd â’r gallu i siarad Cymraeg yw $95,608 / 188,339 = 50.8\%$. Effaith hyn fyddai lleihad o 1.2 pwynt canran yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg nag a fyddai’n cael ei wireddu o dan senario taflwybr poblogaeth sail-14 Llywodraeth Cymru (52.0%).

40. Mae **Atodiad 2.4** yn cyflwyno ein dadansoddiad o’r sefyllfa. I grynhoi, dyma ein prif ganfyddiadau:

“Mae dadansoddiad o’r ffigyrau mudo gros yn dangos bod cyfran sylweddol o fudo net yn nhermau Sir Gaerfyrddin (mudwyr i mewn ac allan) yn fewnol i Gymru.

Mae’r dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad Poblogaeth 2011 ar gyfer y bobl a symudodd o gyfeiriad y tu allan i’r Sir yn ystod y deuddeng mis blaenorol hefyd yn awgrymu bod cyfran sylweddol (tua thraean - 33%) o’r mewnfudwyr i Sir Gaerfyrddin o aelwydydd lle roedd o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg.

Yn yr un modd, roedd gan tua un ym mhob chwe aelwyd (15%) o’r tu allan i Gymru o leiaf un oedolyn sy’n siarad Cymraeg.

Awgryma’r dadansoddiad, ar sail y cyfraddau mudo a adroddwyd yn 2019/20 a chanrannau’r rhai a symudodd naill ai i Sir Gaerfyrddin neu allan o’r sir yn ystod 12 mis ar adeg y Cyfrifiad ym mis Mawrth 2011, fod nifer net y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu

186 y flwyddyn. Wrth gymhwyso hyn i weddill Cyfnod y Cynllun (13 blynedd) mae'n awgrymu y gallai nifer y siaradwyr Cymraeg gynyddu 2,418 o ganlyniad i fudo net.

Er nad yw canlyniadau yn y gorffennol, ynddynt eu hunain, yn gallu darogan canlyniadau yn y dyfodol, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn awgrymu bod mewnfudo gros yn debygol o gynnwys cyfran sylweddol o aelwydydd lle gall o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg ac felly darparu seiliau gwell i gynllunio ar gyfer gwella bywiogrwydd a gwytnwch y Gymraeg."

41. Wedyn ceisiodd ein trydydd dadansoddiad ddeall goblygiadau allweddol mabwysiadu'r Senario Twf a Ffefrir o ran Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd i daflwybr llinell sylfaen y Gymraeg. Mae hyn yn cael ei gyflwyno yn **Atodiad 2.5** a'i grynhoi yma fel a ganlyn:

"Yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch nodweddion mewnfudwyr o Gyfrifiad 2011, y newid net yn ffigyrau senarios poblogaeth ar gyfer Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd 2022 o gymharu â LIC18 a chyfradd llwyddiant Strategaeth Addysg Gymraeg Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, mae'n bosibl y gallai niferoedd siaradwyr Cymraeg fod yn uwch na Thafllwybr Llywodraeth Cymru:

Cyfanswm nifer y siaradwyr Cymraeg = 95,608 + 5231-3,194+ 439 = 98,084

Canran y siaradwyr Cymraeg 3+ oed = 98,084 rhannu â 196,460 = 49.9%

Mae hyn yn awgrymu posibilrwydd realistig o 0.9 pwynt canran o leihad o gymharu â senario Tafllwybr LIC18 (50.8%) a 0.6 pwynt canran o leihad o gymharu â Strategaeth a Ffefrir y fersiwn Adneuo Cyntaf o'r CDLI diwygiedig (50.5%).

42. Mae'n bwysig nodi bod 55% o'r cynnydd yn cael ei gyflawni trwy ymyrraeth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn hytrach nag o ganlyniad i'r Opsiwn Twf a Ffefrir, er ei bod hefyd yn rhesymol nodi bod ymyriadau polisi sydd wedi'u cynllunio i gadw neu gynyddu nifer y bobl ifanc yn debygol o gyfrannu at nifer uwch o ddisgyblion ysgol (a phobl ifanc ôl-15) sy'n gallu siarad Cymraeg ac felly rhoi hwb i'r gyfran gyffredinol.
43. Mae'n bwysig nodi hefyd bod canran uchel o fewnfudwyr yn y blynyddoedd diwethaf yn deillio o bobl yn symud o siroedd cyfagos ac o fannau eraill yng Nghymru. Mae'n debyg y bydd canran yr aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn a chyfran uchel o blant dibynnol yn debygol o allu siarad Cymraeg yn cynyddu dros amser.

Tebygoliaeth

44. Yn ogystal ag asesu maint yr effaith, yr agwedd allweddol arall ar Asesu Risg yw pennu'r debygoliaeth y bydd digwyddiad. Yn yr achos hwn, mae'r debygoliaeth y bydd y newid canrannol net yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu, er enghraifft, 0.5% yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau allweddol yn cynnwys profiad yn y gorffennol o'r nodweddion a'r newidiadau a ganfuwyd ar sail gwireddu'r Cynllun blaenorol, yn arbennig yn nhermau ffurfiant aelwydydd, twf mewn cyflogaeth a manteisio ar ddyraniadau tir ar gyfer tai.
45. Yn nhermau gwireddu amcanestyniadau poblogaeth, amcanestyniadau aelwydydd a thwf economaidd, nid yw cysondeb gwireddu amcanestyniadau yn arbennig o dda. Mae'r dystiolaeth o wireddu dyraniadau tir ychydig yn well.
46. Prin iawn yw'r ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng manteisio ar dir datblygu a'r gyfran o siaradwyr Cymraeg. Mae'r dadansoddiad o dai a gwblhawyd rhwng 2001 a 2011²³ a newidiadau yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros yr un cyfnod yn awgrymu cydberthyniad gwan iawn. Mewn gwirionedd, mae'r dadansoddiad o ardaloedd wardiau a gyflawnwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn awgrymu cydberthyniad negyddol rhwng y lleihad mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg a nifer fach o dai a gwblhawyd.
47. Roedd astudiaeth Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn 2014²⁴ o brofiad datblygu tair ystad wedi canfod bod tua 52% o'r 158 o deuluoedd a ymatebodd ag aelodau oedd yn gallu siarad Cymraeg. Dylid nodi, fodd bynnag, mai dim ond 27% o'r rhain a ddywedodd mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref.
48. I gloi, felly, gan nad yw'r dystiolaeth wedi'i datblygu, mae'n gymharol annhebygol ar hyn o bryd y caiff y senario uchod ei wireddu.

²³ CDLI Cyngor Sir Caerfyrddin (2019) Newid o ran y Gymraeg a thai a gwblhawyd 2001- 2011.

²⁴ Lewis a Fisher (2014) Astudiaeth o effaith bosibl datblygiadau newydd ar gymunedau Cymraeg eu hiaith yn Sir Gaerfyrddin, sef tair ystad o dai yng Nghaerfyrddin, Cross Hands a Llandeilo.

2.4.6 Sgorio'r Risg Gychwynnol

49. Yn nhermau graddfa'r debygoliaeth y caiff maint y newid (+0.5 pwynt canran yn fwy na thafllwybr Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru) ei wireddu, rhoddwyd sgôr gychwynnol o +1 i hyn.
50. Yn nhermau graddfa'r debygoliaeth y caiff maint y newid (-0.9 pwynt canran yn llai na Phrif Amcanestyniad Poblogaeth LIC 2018) ei wireddu, rhoddwyd sgôr o -1 i hyn.
51. Yn nhermau graddfa'r debygoliaeth y caiff maint y newid (-0.6 pwynt canran yn llai na'r Strategaeth a Ffefrir Adneuo Cyntaf) ei wireddu, rhoddwyd sgôr o -1 i hyn.
52. Fel y gwelir, mae pob sgôr yn rhagweld bod graddfa'r twf o'i gymharu â'r gwahanol linellau sylfaen a nodwyd yn cael effaith gymharol fach gydag effeithiau negyddol bach yn cael eu sgorio'n uwch nag effeithiau cadarnhaol bach.
53. Mae **Ffigur 2.7** yn asesiad o faint y canlyniad a thebygoliaeth y canlyniad hwnnw.

Sgôr yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

54. O ran system sgorio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ein hasesiad ni yw bod gan CDLI diwygiedig 2 bosibilrwydd realistig o annog a gwireddu twf cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith grwpiau oedran iau. Fodd bynnag, mae graddfa'r twf cyffredinol mewn tai a swyddi yn seiliedig ar yr amcanestyniad poblogaeth sy'n seiliedig ar y duedd 10 mlynedd. Mae hyn yn rhagdybio lefelau diweddar o fudo net sy'n debygol o arwain at boblogaeth sydd ag elfen uwch o grwpiau oedran hŷn a byddai felly yn lleihau dylanwad cyfran uwch o bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg. Felly, o ran Matrics Sgorio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, +/- fyddai'r sgôr yn ein barn ni.
55. Mae pob sgôr yn amodol ar y cafeatau a nodwyd yn flaenrol ynghylch ansawdd y data sydd ar gael.

Ffigur 2.7 Asesiad o Effaith Strategaeth Twf a Ffefrir yr Ail Fersiwn Adneuo o'r CDLI ar y Gymraeg

MATRICES RISG GWYTNWCH YR IAITH GYMRAEG CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GÂR Y STRATEGAETH DŴF A FFEFRIR				GRADDFA'R EFFAITH/CANLYNIADAU DROS GYFNOD Y CYNLLUN				
				Cadarnhaol Mawr	Cadarnhaol Bach	Negyddol Bach	Negyddol Mawr	
Gwytnwch yr Iaith Gymraeg f(GIG) = NSC + CSC pwysoliad trothwy				Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r tafllwybr	Cynnydd llai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r tafllwybr	Lleihâd o lai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn is na'r tafllwybr	Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg oed 3 a throsodd yn Ardal y Cynllun yn is na'r tafllwybr	
				Uchel	Isef	Isef	Uchel	
	Tebygolrwydd	Amledd	Sgôr	2	1	-1	-2	
↑ TEBYGOLAETH ↑	Mae profiad yn dangos fod y twf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol iawn yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 8 neu ragor gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Debygol iawn	4	8	4	-4	-8
	Mae profiad yn dangos fod y twf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 5-7 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Debygol	3	6	3	-3	-6
	Mae profiad yn dangos fod y twf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn bosibl yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 3-4 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Bosibl	2	4	2	-2	-4
	Mae profiad yn dangos fod y twf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn annhebygol iawn yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 1-2 waith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Annhebygol iawn	1	2	1	-1	-2

2.4.6 Ein Hasesiad Lefel Uchel o Effaith y Strategaeth Ofodol a Ffefrir ar y Gymraeg

56. Roedd y broses o asesu effaith Strategaeth Ofodol a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar y Gymraeg yn golygu gweithio ochr yn ochr â'r asesydd Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i asesu chwe opsiwn gofodol. Gwnaed hyn fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ynghylch y fersiwn Adneuo Cyntaf o'r CDLI diwygiedig. Crynhoir hyn yn **Atodiad 2.5**.
57. Mae'r asesydd Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r farn nad oes angen ailasesu'r opsiwn o ran yr Amcan ISA perthnasol (ISA 11) ar hyn o bryd oherwydd nad yw'r Strategaeth Ofodol a Ffefrir wedi newid.
58. Yn ein Hasesiad o'r fersiwn Adneuo Cyntaf o'r CDLI diwygiedig, roeddem o'r farn nad oedd y Strategaeth Ofodol a Ffefrir yn ystyried yn llawn sut mae graddfa a lleoliad twf, yn unigol ac mewn cyfuniad, yn debygol o effeithio ar y Gymraeg ond yn cydnabod ei bod yn dal yn anodd asesu hyn oherwydd bod y dystiolaeth o'r berthynas rhwng manteisio ar dir datblygu a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn wael.

Effaith y Strategaeth Ofodol Gyffredinol

59. Mae'r Strategaeth Twf a Ffefrir, sy'n seiliedig ar yr Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd, yn nodi gofyniad am 8,882 o dai erbyn 2033. Drwy geisio darparu'r tai hyn, mae'r Cynllun yn cynnwys cynnydd ychwanegol "i sicrhau twf cynaliadwy a goresgyn unrhyw broblemau cyflawni annisgwyl posibl". Mae 10% o hyblygrwydd drwy 882 o dai pellach wedi'i gynnwys. Mae hyn yn cyfateb i gyflenwad tai o 9,704.
60. Mae hyn yn cymharu â'r cynnydd o 15% sydd wedi'i gynnwys yn CDLI diwygiedig 1 sy'n cyfateb i 1,325 o dai pellach a chyfanswm cyflenwad o 10,160.
61. Honnir bod manteision y Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig yn cynnwys gwell adlewyrchiad o gyfleoedd economaidd a buddsoddi, cyfleoedd ar gyfer ardaloedd gwledig, a bod twf yn cael ei gyfeirio'n well i gapasiti seilwaith, anghenion y gymuned, a galw'r farchnad.

62. Fel y nodwyd ym Mholisi Strategol SP3 mae'r cyflenwad tai yn cynnwys dyraniadau tai, darpariaeth tai fforddiadwy (5 uned neu fwy), safleoedd tai bach (llai na 5 tŷ) a chyfleoedd tai hapsafleoedd.
63. O safbwynt yr effaith ar y Gymraeg, mae'r gostyngiad yn y cynnydd o 15% i 10% yn gyffredinol yn y Strategaeth Twf a Ffefrir, ynghyd â gweithredu Polisi Strategol SP3 yn effeithiol, yn fwy tebygol o leihau dosbarthiad annisgwyl twf mewn lleoliadau penodol, yn enwedig mewn cymunedau lle mae defnydd y Gymraeg yn sensitif i newid. Yn ein barn ni, mae Polisi WL1 yn cryfhau gallu'r Cyngor i sicrhau bod datblygiad nas rhagwelwyd o'r fath yn cael ei sgrinio o ran effaith andwyol.

Yr Effaith ar Glystyrau Unigol

64. Fel gyda methodoleg Arfarniad Cynaliadwyedd yn gyffredinol, mae ein hasesiad yn dechrau trwy geisio canfod sefyllfa 'busnes fel arfer'.
65. Er y cynhyrchir amcanestyniadau lefel Sir nid oes data lefel is na sir ar gael ac felly mae'n anos nodi a phrofi'r 'Opsiw Hybrid' yn erbyn yr hyn a allai fod o dan 'fusnes fel arfer'.
66. Mae'r CDLI presennol yn defnyddio Strategaeth Ofodol wahanol. Er y byddai wedi bod yn ddefnyddiol profi'r sefyllfa yn 2021 yn erbyn canlyniadau'r Cyfrifiad, nid yw hyn yn bosibl hyd nes y cyhoeddir y canlyniadau²⁵.
67. Y dull a ffafwrn yw rhagdybio'r sefyllfa a allai fod erbyn 2033 yn absenoldeb y Strategaeth Ofodol a Ffefrir. Rydym wedi ceisio amcanestyn beth allai'r sefyllfa fod pe câi strategaeth ofodol y CDLI presennol ei pharhau ond ar sail y sefyllfa Busnes fel Arfer yn y Strategaeth Twf a Ffefrir. Mae hyn yn cyfateb i Opsiwn 1 yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd a ddisgrifir fel dosbarthiad cyflogaeth a thai mewn modd sy'n adlewyrchu eu maint presennol.²⁶ Ar sail ein cyfrifiadau o boblogaeth amcanestynedig o 199,631 byddai hyn yn arwain at boblogaeth 3 oed a throsodd amcanestynedig o 195,638.

²⁵Dyddiad rhyddhau arfaethedig y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer lefelau is na sir ar hyn o bryd yw "yn gynnar yn 2023"

²⁶Cyngor Sir Caerfyrddin (Rhagfyr 2018) Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI Adneuo Drafft, adran 5.6

68. Byddai hyn yn dyrannu twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg (95,608 erbyn 2033) i'r chwe chlwstwr ar sail eu cyfrannau presennol o'r boblogaeth.
69. Yn ein dadansoddiad o'r Strategaeth Twf a Ffefrir, wedi'i seilio ar ein rhagdybiaethau ar fabwysiadu targed o 75% ar y gyfran o grŵp oedran 3-15 o siaradwyr Cymraeg a rhagdybiaethau ar effaith llifoedd mudo ar aelodau o aelwydydd Cymraeg, rydym wedi darogan bod yr opsiwn twf hwn yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg i 98,048.
70. Mae **Tabl 2.6** yn cymharu dyraniadau CDLI diwygiedig 1 a CDLI diwygiedig 2 ac yn asesu eu heffaith ar y Gymraeg.

Tabl 2.6: Cymharu dyraniadau anheddau CDLI diwygiedig 1 a CDLI diwygiedig 2 yn ôl Clwstwr

Clwstwr	Amcangyfrif o linell sylfaen siaradwyr Cymraeg 2018		CDLI diwygiedig 1	CDLI diwygiedig 2	Gwahaniaeth		Maint yr Effaith
	Niferoedd	%			Nifer	%	
Clwstwr 1	15,597	46.6	1680	1690	+10	0.6	-
Clwstwr 2	23,344	32.0	3059	2840	-219	7.2	cadarnhaol
Clwstwr 3	24,712	58.4	1306	1267	-39	3.0	-
Clwstwr 4	6,925	53.8	402	218	-184	45.8	cadarnhaol
Clwstwr 5	4,869	46.8	112	162	+50	44.7	cadarnhaol
Clwstwr 6	4,112	40.2	461	647	+186	40.3	cadarnhaol

Ffynhonnell: Dadansoddiad yr awduron eu hunain o ddyraniadau CDLI diwygiedig 1 a CDLI diwygiedig 2

71. Rydym wedi cyfrifo effaith y Strategaeth Ofodol a Ffefrir ar ddisbarthiad y boblogaeth ymysg y chwe chlwstwr trwy rannu dosbarthiad dyraniadau ar ein hamcangyfrif o boblogaethau 2018 ar gyfer pob clwstwr.
72. Mae **Tabl 2.7** yn dangos canlyniadau'r effaith debygol ar ddisbarthiad gofodol siaradwyr Cymraeg o gymharu'r Opsiwn Gofodol a Ffefrir â Strategaeth Ofodol ("Busnes fel Arfer") CDLI diwygiedig 1.

Tabl 2.7 Newid yn Nifer a Chanran y siaradwyr Cymraeg 3+ oed (2018 – 2033) yn seiliedig ar y Strategaeth Ofodol a Ffefrir

		Baseline 2011	Baseline 2018	10YTB 2033 Trajectory (Usual Residents 2018+Disaggregation of Population increase)			
Cluster		Welsh speakers3+		2011- 2018 Increase	Welsh speakers3+ 2033	Percentage Welsh Speaking of Residents 3+	2018 - 2033 Increase
Cluster 1	Carmarthen and its Rural Areas	15191	15597	406	19228	50.9%	3631
Cluster 2	Llanelli a Gwendraeth Isaf	22736	23344	608	28778	35.7%	5434
Cluster 3	Aman a Gwendraeth Uchaf	24069	24712	643	30465	66.3%	5753
Cluster 4	Dyffryn Teifi	6745	6925	180	8537	62.7%	1612
Cluster 5	Tywi Uchaf	4742	4869	127	6003	54.7%	1134
Cluster 6	Western Sir Gâr	4008	4115	107	5073	43.0%	958
Total		77491	79562	2071	98084	49.9%	20593

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awduron eu hunain yn seiliedig ar ddyraniadau CDLI diwygiedig 1 a CDLI diwygiedig 2

- Yn nhermau'r effaith ar Glwstwr 1, mae hyn yn awgrymu y byddai nifer y siaradwyr Cymraeg 3,631 yn uwch yn 2033 o gymharu â 2018 o dan y Strategaeth Ofodol a Ffefrir.
- Yn nhermau'r effaith ar Glwstwr 2, mae hyn yn awgrymu y byddai nifer y siaradwyr Cymraeg 5,434 yn uwch o gymharu â 2018 o dan y Strategaeth Ofodol a Ffefrir.
- Yn nhermau'r effaith ar Glwstwr 3, mae hyn yn awgrymu y byddai nifer y siaradwyr Cymraeg 5,753 yn uwch o gymharu â 2018 o dan y Strategaeth Ofodol a Ffefrir.
- Yn nhermau'r effaith ar Glwstwr 4, mae hyn yn awgrymu y byddai nifer y siaradwyr Cymraeg 1,612 yn uwch o gymharu â 2018 o dan y Strategaeth Ofodol a Ffefrir.
- Yn nhermau'r effaith ar Glwstwr 5, mae hyn yn awgrymu y byddai nifer y siaradwyr Cymraeg 1,134 yn uwch o gymharu â 2018 o dan y Strategaeth Ofodol a Ffefrir.

- Yn nhermau'r effaith ar Glwstwr 6, mae hyn yn awgrymu y byddai nifer y siaradwyr Cymraeg 958 yn uwch o gymharu â 2018 o dan y Strategaeth Ofodol a Ffefir.

Mae **Tabl 2.8** yn dangos ein cyfrifiadau o ganlyniadau cymharu'r Strategaeth Twf a Ffefir (Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd) â Strategaeth Twf PG 10 2019 a ddefnyddiwyd ar gyfer CDLI diwygiedig 1.

Tabl 2.8: Cymhariaeth yn ôl Clwstwr o Ganlyniadau Dyrannu Nifer y Siaradwyr Cymraeg a Ragwelir (CDLI diwygiedig 1 yn erbyn CDLI diwygiedig 2)

		Preferred growth strategy	Preferred Spatial Strategy rLDP1 (PG 10 2019)		Preferred Spatial Strategy(rLDP2) (10YTB)		Difference	
Cluster		Residents Age 3+	Welsh Speakers		Welsh Speakers		No.	% points
Cluster 1	Carmarthen and its Rural Areas	36087	19382	53.7%	19046	52.8%	-336	-0.93
Cluster 2	Llanelli a Gwendraeth Isaf	78664	30890	39.3%	30355	38.6%	-535	-0.68
Cluster 3	Aman a Gwendraeth Uchaf	45611	29826	65.4%	29309	64.3%	-517	-1.13
Cluster 4	Dyffryn Teifi	13875	8442	60.8%	8295	59.8%	-146	-1.05
Cluster 5	Tywi Uchaf	11201	6046	54.0%	5941	53.0%	-105	-0.94
Cluster 6	West Carmarthenshire	11022	5228	47.4%	5138	46.6%	-91	-0.82
Total		196460	99814	50.8%	98084	49.9%	-1730	-0.88

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awduron eu hunain

73. Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu y byddai cyfran y siaradwyr Cymraeg 0.9% yn is (49.9% o gymharu â 50.8%).

Cyfyngiadau ac Ansicrwydd Technegol

74. Gwendid posibl y dull hwn yw bod pwysoliad pob clwstwr o ran siaradwyr Cymraeg yn aros yr un fath. Gan nad yw targedau cymharol y prif elfennau newid (e.e., effeithiolrwydd arfaethedig y prif sbardun (Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer pobl ifanc 5–15 oed)) a dosbarthiad mudo net ar draws y clystyrau yn hysbys ar hyn o bryd, yna mae wedi bod yn anodd trosi hyn yn ffigurau cadarn gwirioneddol ar gyfer pob clwstwr. Felly, rhaid trin dibynadwyedd y canlyniadau a ragwelir yn ofalus.

Tebygoliaeth

75. Ceir trafodaeth ar nodweddion 'tebygoliaeth' y bydd maint penodol yn digwydd, a chafeatau ynghylch unrhyw ragdybiaethau a wneir, yn gynharach yn yr asesiad.

76. I gloi, oherwydd nad yw'r dystiolaeth wedi'i datblygu, a bod y dystiolaeth sy'n cefnogi'r debygoliaeth y bydd maint y Strategaeth Ofodol a Ffefrir yn cael ei wireddu yn gymharol wan, rhoddir sgôr o +1 i'r debygoliaeth.

2.5.4 Sgorio'r Risg Gychwynnol

77. Yn nhermau graddfa'r debygoliaeth y caiff maint y newid ar gyfer Strategaeth Ofodol a Ffefrir CDLI diwygiedig 2 o gymharu â'r CDLI presennol ei wireddu, rhoddwyd sgôr gychwynnol o +1 i hyn gan ddefnyddio'r matrices asesu risg sydd wedi'i atgynhyrchu yn **Ffigur 2.8** drosodd ac mae'n awgrymu canlyniad cadarnhaol bach. **Mae'r sgôr hon yn asesiad o faint y canlyniad a thebygoliaeth y canlyniad hwnnw.**
78. Yn nhermau'r Cynllun Datblygu Lleol presennol, yn ein barn ni rhoddir sgôr i hyn o GADARNHAOL BACH.
79. Yn nhermau graddfa'r debygoliaeth o ran maint y newid ar gyfer Strategaeth Ofodol a Ffefrir CDLI diwygiedig 2 o gymharu â'r Strategaeth Ofodol a Ffefrir a fabwysiadwyd ar gyfer CDLI diwygiedig 1, rhoddwyd sgôr o -1 i hyn.
80. O ran y Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, yn ein barn ni rhoddir sgôr o ANSICR i hyn gan fod lleoliad y twf mewn siaradwyr Cymraeg ar lefel is na sir yn aneglur ar hyn o bryd.

Ffigur 2.8 Sgôr Risg a Ragwelir ar gyfer y Strategaeth Ofodol a Ffefrir

MATRICES RISG GWYTNWCH YR IAITH GYMRAEG CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GÂR Y STRATEGAETH OFODOL A FFEFRIR				GRADDFAR EFFAITH/CANLYNIADAU DROS GYFNOD Y CYNLLUN							
				Cadarnhaol Mawr		Cadarnhaol Bach		Negyddol Bach		Negyddol Mawr	
				Gwytnwch yr Iaith Gymraeg f(GIG) = NSC + CSC pwysoliad trothwy		Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r tafliwybr	Cynnydd llai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r tafliwybr	Lleihâd o lai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn is na'r tafliwybr	Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg oed 3 a throsodd yn Ardal y Cynllun yn is na'r tafliwybr		
				Uchel	Isel	Isel	Uchel				
Tebygolrwydd		Amledd		Sgôr	2	1	-1	-2			
↑ TEBYGOLIAETH ↑	Mae profiad yn dangos fod y tŵr/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol iawn yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 8 neu ragor gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Debygol iawn	4	8	4	-4	-8			
	Mae profiad yn dangos fod y tŵr/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 5-7 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Debygol	3	6	3	-3	-6			
	Mae profiad yn dangos fod y tŵr/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn bosibl yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 3-4 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Bosibl	2	4	2	-2	-4			
	Mae profiad yn dangos fod y tŵr/lleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn annhebygol iawn yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 1-2 waith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Annhebygol iawn	1	2	1	-1	-2			

2.6 Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergistaidd y Strategaethau Twf a Gofodol a Ffefrir drafft

81. Fel y nodwyd uchod, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol, fel rhan o'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ystyried sut y bydd graddfa a lleoliad twf, yn unigol ac mewn cyfuniad, yn effeithio ar y Gymraeg.
82. Yn ein briff ni, rydym wedi cyfyngu ein hymchwiliad i ystyried sut mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi asesu'r effeithiau eilaidd, cronnol a synergistaidd ar ISA Amcan 11 (*A fydd y CDLI yn hybu twf y Gymraeg a diwylliant Cymru?*).
83. Ystyrir yr effeithiau hyn mewn perthynas ag effeithiau eilaidd, cronnol a synergistaidd ar bolisiâu a dyraniadau safle y CDLI.
84. Mae **Tabl 2.9** yn atgynhyrchu'r crynodeb a geir yn Nhabl 25 Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ynghylch effeithiau eilaidd, cronnol a synergistaidd polisiâu a dyraniadau.

Tabl 2.9: Asesiad o effeithiau eilaidd, cronnol a synergistaidd holl bolisiâu a dyraniadau safle yn ISA Amcan 11.

ISA Objective	Overall Score	Description
ISA11 – Welsh Language	+	In keeping with Welsh Language requirements and Carmarthenshire's linguistic sensitivity, a key consideration of the rLDP is to encourage growth of the Welsh language and culture. This is upheld through dedicated policies SP8 and WL1: Welsh Language and New Developments and is implied through others including PSD1 by requiring development to reflect local context (e.g., cultural characteristics) and PSD9 (advertisements and bilingualism). With considerations made to the number and setting of new development allocations, and additional synergistic influence from requiring proposals to submit a Welsh Language Impact Assessment or Language Action Plan (scale dependent), further development is predicted to cumulatively uphold ISA11 by helping to provide homes for the next generation of Welsh Speakers (encouraging the retention of young people) and provide non-Welsh speaking families (including those from inward migration) access to Welsh-language learning opportunities the long-term, coupled with increases in Welsh-medium schools (and strategic sites). With these requirements in place in conjunction with the sustainable distribution settlement framework (SP3), it is unlikely that the scale of development in both rural and urban communities would discernibly dilute rates of Welsh speaking.

Ffynhonnell: Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, Tabl 25

85. Ymddengys nad oes asesiad penodol o effeithiau eilaidd, cronnol a synergistaidd y strategaethau twf a gofodol a ffefrir.
86. Mae Arfarniad Cynaliadwyedd CDLI diwygiedig 1 yn cynnwys y casgliad canlynol.

“Effeithiau cronnol, eilaidd, synergistaidd ac anuniongyrchol

Mae'r cynllun yn gyfan hefyd wedi cael ei arfarnu ar gyfer effeithiau cronol, synergistaidd ac anuniongyrchol"²⁷

87. O'n harchwiliad ac asesiad o effeithiau cronol, eilaidd, synergistaidd ac anuniongyrchol tebygol y Strategaethau Twf a Gofodol a Ffefirir, rydym yn dod i'r casgliad ei bod yn hynod anodd ar hyn o bryd gwahanu effeithiau ffactorau eraill megis materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ansicr; y ffordd y bydd polisiau Llywodraeth Cymru ar hybu twf yn nefnydd y Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith; polisiau gofodol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Sir; polisiau gofodol ar lefelau cenedlaethol a strategol a pholisiau awdurdodau cynllunio lleol cyfagos.

2.7 Argymhellion ar gyfer Rheoli'r Risg

88. I reoli'r risg a nodir gan yr asesiad lefel uchel hwn o effaith Strategaeth a Ffefirir Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg (graddfa a dosbarthiad twf), bydd angen gweithredu Cynllun Gweithredu ar y Gymraeg sy'n nodi ymatebion yr Awdurdod Lleol a rhanddeiliaid eraill i'r risg a nodir.
89. Yn unol â Pholisi Strategol Sir Gaerfyrddin, SP7: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru "*Disgwylir i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd sy'n ddarostyngedig i WL1 nodi mesurau sy'n hybu buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru*" (SP7, t.1). Mae WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd yn nodi y gallai mesurau o'r fath gynnwys:
- "*Darparu cymorth a chyllid i sefydliadau a chyrff sy'n darparu gweithgareddau, cyfleusterau ac addysg i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr y Gymraeg, a*
 - *Chymorth a chyllid i ddsbarthiadau dysgu Cymraeg.*" (WL1, t.2)
90. Bydd angen nodi'r mesurau lliniaru priodol ar gyfer i) Sir Gaerfyrddin yn gyfan, ii) pob un o'r chwe ardal glwstwr, a iii) phob datblygiad o faint. Disgwylir y bydd y mesurau lliniaru ar bob lefel yn cynnwys, fel bo'n briodol:
- Hybu a hwyluso caffael cynnar a defnyddio'r Gymraeg gan blant yn y cartref ac ymysg aelodau o'r teulu agos a rhwydweithiau cyfeillion y teulu.

²⁷ Op. Cit. Tudalen 48.

- Sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posibl o ofal plant ac addysg gynnar anstatudol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau'r gallu mwyaf posibl gan ddarparwyr addysg statudol i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, galluoedd ynddi a defnydd ohoni ymysg disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref, rhai sy'n siarad Saesneg gartref a rhai sy'n siarad ieithoedd eraill gartref.
- Sicrhau'r gallu mwyaf posibl gan ddarparwyr addysg drydyddol a phellach i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, galluoedd ynddi a defnydd ohoni ymysg oedolion ifanc a rhai hŷn sy'n ddysgwyr.
- Sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i oedolion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dysgu Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Hybu a chynorthwyo sefydliadau, rhwydweithiau a lleoedd sy'n darparu cyfleoedd i bobl ryngweithio, cymdeithasu a chydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

91. Yn rhan o'r broses caniatâd cynllunio mae WL1 yn caniatáu ar gyfer gosod ar ddatblygwyr amodau neu gytundebau cyfreithiol i sicrhau'r mesurau gweithredu a gwella a gynigir yn y Cynllun Gweithredu (WL1: t.2).
92. Bydd yr holl randdeiliaid a phartneriaid perthnasol, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol a'r datblygwr, yn cytuno ar y Cynllun Gweithredu ar y Gymraeg a gynigir, a bydd yn cael ei gostio'n llawn ar ôl cytuno ar y datblygiad a gynigir.
93. Hefyd bydd angen i'r rhanddeiliaid a phartneriaid gytuno ar fframwaith a chynllun priodol ar gyfer diweddarau a monitro'r Cynllun Gweithredu ar y Gymraeg.

* * * * *

Rhan 3 - Asesiad o Effaith Polisiâu'r CDLI Diwygiedig Adneuo ar y Gymraeg

3.1 Cyflwyniad

1. Mae'r adran hon yn ystyried yr effeithiau tebygol y rhagwelir y bydd Polisiâu'r Ail Fersiwn Adneuo o'r CDLI diwygiedig yn eu cael ar y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.
2. Amcan datganedig yr Arfarniad Cynaliadwyedd yw “*Hybu twf y Gymraeg a diwylliant Cymru*”. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn disgwyl i'r system cynllunio defnydd tir “*ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu*”.
3. Mae'r lluo o bolisiâu sy'n cefnogi cyflawni amcanion strategol Sir Gaerfyrddin ac sy'n darparu cysylltiadau lefel uchel a chydymffurfiaeth eang â'r Nodau Llesiant wedi cael eu dwyn ynghyd yn yr ail fersiwn adneuo o'r CDLI diwygiedig o dan y pennawd **Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig ein sir**. Nod y polisiâu strategol hyn yw mynd i'r afael â'r canlynol:

“Cydnabyddir y problemau economaidd gymdeithasol gan gynnwys tlodi ac amddifadedd yn wynebu rhannau gwledig a threfol ein Sir yng ngweledigaeth “Un Sir Gâr” y Cynllun hwn. I'r perwyl hwn, mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy sicrhau bod pawb yn cael cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i gynnal neu gynyddu eu ffyniant a'u hymdeimlad o lesiant. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys darparu ar gyfer tai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy, a swyddi, yn ogystal â llywio buddsoddiad newydd a blaenoriaethau o ran seilwaith, gan barchu ffabrig cymdeithasol y Sir ar yr un pryd, gan gynnwys y Gymraeg, diwylliant Cymreig a'i naws am le.”²⁸

3.2 Methodoleg

4. O gofio'r cyfyngiadau ar amser ac adnoddau, cytunwyd y byddai IAITH/BURUM yn gweithio'n iteraidd gyda'r Adain Blaen-gynllunio ac yn canolbwyntio ei ymdrechion ar asesu effeithiau'r ddau bolisi mwyaf perthnasol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, sef: **Polisi Strategol SP8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru (SP7 gynt)** a **WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd**.

²⁸Ail Fersiwn Adneuo o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033, t. 97.

5. Darparwyd copi o ddrafftiau cynnar y ddau bolisi hyn yn gynnar ym mis Hydref 2019. Caiff y rhain eu hatgynhyrchu yn **Ffigur 3.1** heb eu cyfiawnhad rhesymedig.

Ffigur 3.1 Polisiâu Strategol a Manwl Drafft ar y Gymraeg

Polisi Strategol – SP 7: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae'r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu sy'n diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y Sir. Ni fydd cynigion datblygu sy'n cael effaith anfanteisiol ar fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu caniatáu oni bai y gellir lliniaru'r effaith.

WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd

Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu ledled Sir Gaerfyrddin ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.

Safleoedd Dyranedig

Bydd yn ofynnol i'r cynigion datblygu canlynol gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith, a hwnnw'n nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg:

Datblygiadau preswyl o 10 tŷ neu fwy yn y Prif Ganolfannau a'r Canolfannau Gwasanaethau;

Datblygiadau preswyl o 5 tŷ neu fwy yn y Pentrefi Cynaliadwy; a,

Datblygiadau manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol â chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy.

Hapsafleoedd

Bydd yn ofynnol bod y cynigion canlynol ar hapsafleoedd yn cyflwyno Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg i ategu cais cynllunio yn ogystal â Chynllun Gweithredu Iaith sy'n nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg:

Datblygiadau preswyl o 10 tŷ neu fwy yn y Prif Ganolfannau a'r Canolfannau Gwasanaethau;

Datblygiadau preswyl o 5 tŷ neu fwy yn y Pentrefi Cynaliadwy; a,

Datblygiadau manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol â chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu ragor

Bydd yn ofynnol bod cynigion nad ydynt yn gyson â dosbarthiad tai'r Cynllun (Atodiad 9) yn darparu cynllun fesul cyfnod sy'n nodi'r graddfeydd amser ar gyfer darparu'r tai a gynigir ar y safle, a dangos na fyddent yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na ellir ei lliniaru.

Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau preswyl ar gyfer 10 tŷ neu fwy ar safleoedd dyranedig a hapsafleoedd gyfrannu'n gadarnhaol tuag at fywiogrwydd a hyfywedd grwpiau cymunedol Cymraeg a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

6. Cytunasom â sylwedd cyffredinol y polisïau drafft hyn gan eu bod yn darparu polisïau priodol sy'n diogelu ac yn cefnogi'r Gymraeg. Fodd bynnag, daw ein hasesiad i'r casgliad bod y prif faes y gellid ei gryfhau yn ymwneud â chynnwys geiriad sy'n cefnogi amodau sy'n caniatáu i'r Gymraeg fod yn fwy gwydn neu, yn wir, i ffynnu, yn ychwanegol at osgoi dirywiad a/neu gynnal yr amodau presennol. Mae hyn yn cefnogi'r cyfeiriad cyffredinol wrth greu amodau i'r Gymraeg ffynnu fel sy'n ofynnol gan y nod Llesiant.
7. Ein hawgrymiadau oedd cynnwys gair/geiriau a champau gweithredu sy'n "gwella" buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y sir. Mae **Ffigur 3.2** yn atgynhyrchu'r newidiadau a awgrymir o ganlyniad i'n hasesiad. Mae **Atodiad 3.1** yn atgynhyrchu geiriad y polisïau gyda'u cyfiawnhad rhesymedig yn llawn.

Ffigur 3.2 Polisïau Diwygiedig ar y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Polisi Strategol – SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae'r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y Sir. Ni fydd cynigion datblygu sy'n cael effaith anfanteisiol ar fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu caniatáu oni bai y gellir lliniaru'r effaith. Bydd disgwyl i'r holl gynigion datblygu y mae WL1 yn berthnasol iddynt nodi mesurau sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd

Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu ledled Sir Gaerfyrddin ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.

Bydd yn ofynnol i'r cynigion datblygu canlynol gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith, a hwnnw'n nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg:

- a) Datblygiadau preswyl o 5 neu fwy o anheddau a fydd yn unigol neu gyda'i gilydd yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai ddangosol a nodir ar gyfer yr anheddiad ym Mholisïau HOM1 a HOM3; neu
- b) Datblygiad preswyl o 5 neu fwy o anheddau ar safleoedd wedi'u dyrannu neu hap-safleoedd nad ydynt yn mynd i'r afael â thystiolaeth o'r angen a'r galw am dai a gofnodwyd mewn Asesiad o'r Farchnad Dai neu ffynonellau tystiolaeth lleol eraill sy'n berthnasol; neu

- c) Datblygiadau adwerthu, masnachol neu ddiwydiannol â chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy ar arwynebedd safle sy'n fwy nag 1 hectar.

Mae'n ofynnol i gynigion ar hap-safleoedd nas rhagwelwyd ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n arwain at lif gweithlu sylweddol gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.

Bydd yn ofynnol bod cynigion nad ydynt yn gyson â dosbarthiad tai'r Cynllun (Atodiad 7) yn darparu cynllun fesul cyfnod sy'n nodi'r graddfeydd amser ar gyfer darparu'r tai a gynigir ar y safle, a dangos na fyddent yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na ellir ei lliniaru.

8. Awgrymwyd addasiadau eraill i'r Cyfiawnhad Rhesymegol dros y polisiau yn wreiddiol yng ngoleuni'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer CDLI diwygiedig 1 a chafodd mân ddiwygiadau pellach i CDLI diwygiedig 2 eu trafod a'u derbyn.

3.3 Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergistaidd y Strategaeth a Ffeirir ddrafft

9. Fel y dywedir ym mharagraff 17 o Ran 2 uchod, mae'r argraffiad newydd o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn debygol o'i gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol, fel rhan o'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd, ystyried sut y bydd (graddfa a lleoliad twf), yn unigol ac mewn cyfuniad, yn effeithio ar y Gymraeg.
10. Yn ein briff ni, rydym wedi cyfyngu ein hymchwiliad i ystyried sut mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi asesu effeithiau eilaidd, cronol a synergistaidd y Strategaeth a Ffeirir ddiwygiedig ar Destun 11 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd (*A fydd y CDLI yn hybu twf y Gymraeg a diwylliant Cymru?*). Ceir y dadansoddiad hwn yn Atodiad 6 i'r Arfarniad Cynaliadwyedd²⁹.
11. Gan yr ymddengys nad oes unrhyw asesiad penodol o effeithiau eilaidd, cronol a synergistaidd y strategaeth a ffeirir, mae Adran 7 yn rhoi crynodeb o effeithiau'r CDLI Adneuo ar gynaliadwyedd ac yn cyflwyno'r sylwadau canlynol ar effeithiau cronol, eilaidd, synergistaidd ac anuniongyrchol:

“Effeithiau cronol, eilaidd, synergistaidd ac anuniongyrchol

²⁹ Cyngor Sir Caerfyrddin (Tachwedd 2019) *Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI Diwygiedig: Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI Adneuo*

Mae'r cynllun yn gyfan hefyd wedi cael ei arfarnu ar gyfer effeithiau cronol, synergistaidd ac anuniongyrchol”³⁰

12. O'n harchwiliad ac asesiad o effeithiau cronol, eilaidd, synergistaidd ac anuniongyrchol tebygol y Strategaeth Twf a Ffefrir, rydym yn dod i'r casgliad ei bod yn eithafol o anodd ar hyn o bryd gwahanu unrhyw effeithiau o'r fath o ddylanwad ffactorau eraill megis materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ansicr; y ffordd y bydd polisiau Llywodraeth Cymru ar hybu twf yn nefnydd y Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith; polisiau gofodol ar lefelau cenedlaethol a strategol a pholisiau awdurdodau cynllunio lleol cyfagos.
13. Rydym yn rhoi sgôr i effeithiau uniongyrchol y Strategaeth Twf a Ffefrir a'r Strategaeth Ofodol a Ffefrir o gymharu â'r senarios Busnes fel Arfer o **negyddol bach** a **chadarnhaol bach** yn y drefn honno. Fodd bynnag, byddem yn rhoi sgôr o **ansicr** i'r effeithiau anuniongyrchol ac eraill oherwydd y diffyg tystiolaeth gadarn a allai helpu i bwysu a mesur dylanwad y CDLI diwygiedig Drafft o gymharu â ffactorau eraill.

* * * * *

³⁰ Op. Cit. Tudalen 4

Atodiad 1.1: Statws y Gymraeg mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn Awdurdodau Lleol Cymru

Tabl A1-1: Statws y Gymraeg mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (fel y'i adolygwyd gan IAITH/BURUM Awst 2022)

Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru a'u Hystyriaeth o'r Iaith Gymraeg (fel ar Awst 2022)									
Awdurdod	Cynllun Datblygu	Cyfnod	Blwyddyn Mabwysiadu	Polisi Penodol ar yr Iaith Gymraeg	Canllaw Gofodol	Map Cyfyngiadau gydag Ardaloedd Sensitifrwydd Ieithyddol	Gofynion ar Ddatblygwyr ar Safleoedd Annisgwyl		Canllaw Cynllunio Atodol
							Angen DIG	Angen AEIG	
Abertawe	CDLI	2010 - 2025	2019	Oes	Oes (19%+)	Oes	Na	Efallai(10+)	Na
Arfordir Penfro	CDLI	2006 - 2021	2010	Oes	Oes (30%+)	Na	Na	Na	Na
Bannau Crycheiniog	CDLI	2007 - 2022	2013	Na	Oes (30%+)	Na	Na	Na	Na
Blaenau Gwent	CDLI	2006 - 2021	2012	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Bro Morgannwg	CDLI	2011 - 2026	2017	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Caerdydd	CDLI	2006 - 2026	2016	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Caerffili	CDLI	2006 - 2021	2010	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Casnewydd	CDLI	2011 - 2026	2014	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Castell Nedd Port Talbot	CDLI	2011 - 2026	2016	Oes	Oes (25%+)	Na	Na	Oes	Oes
Ceredigion	CDLI	2007 - 2022	2014	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Conwy	CDLI	2007 - 2022	2013	Oes	Oes (part)	Na	Oes (5+)	Oes (20+)	Oes
Eryri	CDLI	2016-2031	2019	Oes	Na	Na	Oes (5+)	Oes (sylweddol uwch na 5)	Oes
Gwynedd	CDLI (ar y cyd ag Ynys)	2011-2026	2017	Oes	Na	Na	Oes (5+)	Oes (5+)	Oes
Merthyr	CDLI	2006 - 2021	2011	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Penybont ar Ogwr	CDLI	2006 - 2021	2013	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Powys	CDLI	2011 - 2026	2018	Oes	Oes (25%+)	Na	Na	Oes (10+)	Na
Rhondda Cynon Tâf	CDLI	2006 - 2021	2011	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Sir Benfro	CDLI	2006 - 2021	2013	Oes	Oes	Na	Na	Na	Na
Sir Ddinbych	CDLI	2006 - 2021	2013	Na	Na	Na	Oes (5+)	Oes (20+)	Oes
Sir Fflint	CDU	2000 - 2015	2011	Oes	Oes (20%+)	Na	Oes (25+)	Na	Na
Sir Fynwy	CDLI	2011 - 2021	2014	Na	Na	Na	Na	Na	Na
Sir Gâr	CDLI	2006 - 2021	2014	Oes	Oes (60%+)	Oes	Na	Na	Oes
Torfaen	CDLI	2006 - 2021	2013	No	Na	Na	Na	Na	Na
Wrecsam	CDU	1996 - 2011	2005	Oes	Oes (20%+)	Na	Oes (25+)	Na	Na
Ynys Môn	CDLI (ar y cyd â Gwynedd)	2011-2026	2017	Oes	Na	Na	Oes (5+)	Oes (5+)	Oes

Atodiad 1.2: Fframwaith Rheoli Gwytnwch y Gymraeg – Y Pedair Efen yn Fanwl

Cam 1: Paratoi'r Aseiad

Pwy sy'n diffinio'r effaith a'i harwyddocâd?

1. Mae pennu ffiniau'r aseiad yn allweddol i sicrhau ffocws clir ar gwmpas yr aseiad a sut i ddod i gasgliadau ar sail canlyniadau'r aseiad.
2. Dylid cynnwys **rhanddeiliaid** wrth baratoi'r aseiad. Bydd cael nifer o bersbectifau wrth ddylunio'r aseiad yn hybu cyd-ddealltwriaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn chwarae rhan mewn effeithio ar wytnwch y Gymraeg. Bydd yn fodd i adeiladu'r model rhesymeg sy'n cyfleu'n glir i bawb beth yw'r rhagdybiaethau, prosesau, effeithiau ac allbynnau. Gall y rhain, yn eu tro, nodi'r data mae angen eu casglu i gynorthwyo â'r broses.
3. Bydd cynnwys rhanddeiliaid hefyd yn ffordd o amcangyfrif arwyddocâd y risg yn ogystal â chreu deialog ar gwmpas y risg. Gall cynnal a chofnodi'r drafodaeth â rhanddeiliaid fod yn fodd i wrthsefyll unrhyw heriau i drylwyredd yr aseiad. Ar gyfer y deialog cynnar hwn ynghylch paratoi'r aseiad, byddai o fudd gofyn i'r rhanddeiliaid feddwl am y tair elfen ganlynol:
 - datblygu a chyflwyno'r model o'r berthynas dan sylw – y risg i beth, i bwy, ble a phryd;
 - cynllunio pa ddata sydd i gael eu casglu a'r dull o gasglu data
 - sgrinio cychwynnol i ganfod a blaenoriaethu peryglon arwyddocaol
4. Mewn unrhyw system mesur, mae cyfaddawdau cydnabyddedig wrth gasglu data rhwng yr angen am gyfoeth, cadernid a pherthnasedd/hwylustod i ddefnyddwyr penodol. Er mwyn diffinio mesuriad ar gyfer Gwytnwch y Gymraeg, y data mwyaf cadarn a dibynadwy yw data'r Cyfrifiad dengmlwyddol o'r Boblogaeth.

5. Mae'r Cyfrifiad yn rhoi inni wybodaeth am nifer a chyfran y boblogaeth 3 oed a throsodd a all ddeall, siarad, darllen a/neu ysgrifennu Cymraeg yn ôl lefel cymhwysedd ac oed.
6. Wrth ystyried y prif ffactorau ynghylch pa ddata ddylai gael eu casglu wrth gyflawni asesiad risg, argymhellir, yng nghyd-destun gwytnwch y Gymraeg, defnyddio cyfuniad **o nifer a chanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg** fel y'u cofnodwyd yn y Cyfrifiad dengmlwyddol o'r Boblogaeth.
7. Cynigir hyn oherwydd bod siarad Cymraeg yn un o'r ffactorau allweddol wrth ystyried i ba raddau mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan annatod a chydnybodedig o fywyd cymdeithasol a chymunedol. Po uchaf yw canran y siaradwyr Cymraeg, cryfaf yw sefyllfa'r iaith yn y gymuned honno oherwydd fel arfer caiff ei chlywed a'i defnyddio'n amlycach fel iaith cyfathrebu ym mhob agwedd ar fywyd beunyddiol.
8. Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod yna drothwyon cyfrannol pwysig ar gyfer gwytnwch iaith nad yw dull pwysoli llinellol yn eu cydnabod. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod cyfran o tua 70% yn drothwy arwyddocaol ar gyfer gwytnwch unrhyw iaith leiafrifol.³¹ Mewn termau ystadegol, gellir dadlau os yw siaradwr Cymraeg yn cwrdd â pherson arall, mae siawns $(0.7\% \times 0.7\%) = 49\%$ o leiaf y bydd y person arall yn siaradwr Cymraeg. Mewn ardaloedd o'r fath, mae siawns dda mai'r Gymraeg fyddai'r brif iaith yn y boblogaeth leol o hyd.
9. Fodd bynnag, gall nifer absoliwt y siaradwyr fod yn elfen bwysig hefyd, yn arbennig mewn achosion lle mae angen nifer isaf o ddefnyddwyr er mwyn cyfiawnhau darparu gwasanaeth neu lle bo nifer y siaradwyr mewn ardal yn gymharol fawr ond yn ganran gymharol fach, oherwydd maint y boblogaeth.
10. Felly mae angen ystyried data ar ba lefel ofodol sy'n fwyaf defnyddiol fel bloc adeiladu yn y cyd-destun hwn – Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) ynteu wardiau etholiadol. Mae ACEHI wedi'u hadeiladu ar ardaloedd cynnyrch cyffiniol ac wedi'u

³¹ Er enghraifft, roedd atal y lleihad yn "nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth" yn un o dargedau allweddol Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru Ddwieithog (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003). Caiff hyn ei gefnogi gan ymchwil mewn nifer o wledydd, gan gynnwys gwaith a wnaethpwyd yn Iwerddon (a ddyfynnwyd yn Lewis a Fisher (2014) *Astudiaeth o effaith bosibl datblygiadau newydd ar gymunedau Cymraeg eu hiaith yn Sir Gaerfyrddin, sef tair ystad o dai yng Nghaerfyrddin, Cross Hands a Llandeilo*).

bwriadu i fod mor gyson ag sy'n bosibl yn nhermau poblogaeth, gyda lleiafswm o 1,000 o bobl (400 o aelwydydd), mwyafswm o 3,000 o bobl (1,200 o aelwydydd) a chyfartaledd (yng Nghymru) o 1,600 o bobl. Yn aml ACEHI yw'r blociau adeiladu a ddefnyddir i ddadansoddi data economaidd gymdeithasol ac i ddatblygu polisi (e.e. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).

11. Mae Wardiau Ardaloedd Ystadegau'r Cyfrifiad wedi'u seilio ar Wardiau Etholiadol ond maent yn destun trothwyon lleiaf tebyg i rai ACEHI. Fodd bynnag, gallant amrywio'n sylweddol fwy o ran eu maint nag ACEHI. Er enghraifft, ar draws Cymru y ward â'r boblogaeth 3 oed a throsodd leiaf oedd Rudbaxton yn Sir Benfro (749) a'r ward fwyaf oedd Cathays yng Nghaerdydd gyda phoblogaeth 3 oed a throsodd o 19,870.
12. Gan fod ACEHI, yn ôl eu natur, wedi'u cynllunio i fod yn safonol, gall fod yn anos adnabod lle mae clystyrau o siaradwyr Cymraeg yn bodoli.
13. Mae Wardiau Ardaloedd Ystadegau'r Cyfrifiad yn cael eu hystyried yn sail resymol o "fanwl" i roi darlun cyffredinol o wytnwch ieithyddol ar draws Cymru ac ardal awdurdod lleol unigol. At ddibenion yr Asesiad hwn o Effaith CDLI Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg, rydym yn defnyddio wardiau yn hytrach nag ACEHI ar gyfer ein dadansoddiad.
14. Mae **Ffigur A2-1** yn nodi trothwyon pwysig wrth bwysoli canran y siaradwyr Cymraeg wrth ddynodi lefelau o wytnwch y Gymraeg.

Ffigur A2-1: Diffiniad o drothwyon gwytnwch iaith³²

Pwysoliadau trothwyon canran y siaradwyr Cymraeg (PWS)	Disgrifiad a rhesymeg	Sgôr gwytnwch
Os yw $PWS > 70\%$, $PWS = 3$	Cymraeg yw'r brif iaith gymdeithasol ac mae'r siawns o gwrdd â siaradwr Cymraeg arall mewn amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol yn uchel. Hefyd mae bywiogrwydd yr iaith yn gryf yma ac mae creadigrwydd ieithyddol ar ei gryfaf.	Uchel iawn
Os yw $50 \leq PWS < 70\%$, $PWS = 2$	Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan fawr, os nad y brif ran o reidrwydd, wrth ryngweithio'n gymdeithasol, ac ym maes	Uchel

³² Yr Athro D. Demeritt, papur gweithio i IAITH, heb ei gyhoeddi, 2016.

	addysg. Mae'r cymunedau hyn yn fwy dwyieithog eu natur. Clywir y Gymraeg yn aml ar y stryd a defnyddir y Gymraeg yn helaeth ym mywyd ffurfiol a chymdeithasol yr ardal. Fodd bynnag, nid Cymraeg yw'r brif iaith o reidrwydd.	
Os yw 20%≤PWS<50%, PWS=1	Mae ardaloedd o'r fath yn cynnwys niferoedd sylweddol o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, nid Cymraeg yw'r brif iaith rhyngweithio cymdeithasol yn y byd cyhoeddus ac mae ei defnydd wedi'i gyfyngu, yn aml i'r cartref ac i rymgweithio preifat ymhlith grwpiau dethol.	Isel
Os yw <20% PWS PWS=PWS	Nid yw ardaloedd o'r fath yn Gymraeg eu hiaith, ac anaml y siaredir Cymraeg yn gyhoeddus, er y gallai fod diddordeb bywiog o hyd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, mae llawer o'r siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd o'r fath yn debygol o fod dan 18 oed ac yn byw mewn cartrefi heb unrhyw siaradwyr Cymraeg eraill.	Isel iawn


15. Ar gyfer CDLI Sir Gaerfyrddin argymhellir defnyddio'r hafaliad canlynol i gyfrifo'r llinell sylfaen i asesu gwytnwch y Gymraeg:

$$f(WLR) = NWS + PWS \hat{a} phwysoliad trothwy$$

Ile mae: 0 < WLR ≤ 4

16. Os caiff y pwysoliadau hynny eu cymhwyso i ganran y siaradwyr Cymraeg (PWS), yna mae'r ystod bosibl o werthoedd ar gyfer WLR yn rhedeg o 0 i 4. Mae Ffigur A2-2 yn dangos effaith cymhwyso'r pwysoliadau hyn i'r cyfrifiad o WLR ar gyfer Cymru ar lefel Awdurdod Lleol.


Ffigur A2-2: Gwytnwch y Gymraeg (WLR) ar lefel Awdurdod Lleol (sgôr WLR wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio $f(WLR) = NWS + PWS \hat{a} phwysoliad trothwy$)



Ffynhonnell y Data: Cyfrifiad Poblogaeth, siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd, 2011

17. Mae Ffigur A2-3 yn dangos y pwysoliadau hyn fel y'u cymhwysir ar lefel wardiau yn Sir Gaerfyrddin.

Ffigur A2-3: Gwytnwch y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn ôl Ward wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio $f(WLR) = NWS + PWS$ â phwysoliad trothwy



Ffynhonnell y Data: Cyfrifiad Poblogaeth, siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd, 2011

18. Oherwydd hyd yr amser rhwng canlyniadau pob Cyfrifiad, mae angen data eraill er mwyn dod i gytundeb derbyniol ymysg rhanddeiliaid ynghylch cyfeiriad a maint y

newid. Mae prinder data meintiol dibynadwy ynghylch siaradwyr Cymraeg yn, er enghraifft, yr amcanestyniadau ar gyfer twf poblogaeth, gwir ffigyrau a ffigyrau amcanestynedig mudo i mewn ac allan, ac ati. Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ar allu yn y Gymraeg yn cael eu casglu bob mis Ionawr gan bob awdurdod lleol. Gellir defnyddio'r data hyn i dracio newidiadau yng ngalluoedd Cymraeg disgyblion mewn darpariaethau addysg a gynhelir a statudol yn y grwpiau oedran 3-4; 5-11; 11-16; a 16-18. Yn absenoldeb data meintiol dibynadwy eraill, mae angen dibynnu mwy ar farn oddrychol (boed barn arbenigwr ai peidio).

Sgrinio a blaenoriaethu'r risgiau i gael eu hasesu

19. Wrth baratoi ar gyfer yr asesiad, mae angen sgrinio'r Cynllun Datblygu er mwyn canfod a diffinio pa beryglon y dylid craffu arnynt yn fanylach a pha rai nad oes angen eu dadansoddi ymhellach. Mae'r cam hwn hefyd yn rhoi cyfle i ganfod y raddfa ansicrwydd a fydd yn yr asesiad, o ystyried ansawdd y data sydd ar gael.

Cam 2: Cyflawni'r Asesiad Risg

20. Asesu risg yw'r broses ffurfiol o werthuso canlyniad(au) perygl a'u tebygoliaeth.³³
Mae hyn yn golygu gofyn:
 - Beth allai fynd o'i le?
 - Beth fyddai'r canlyniadau?
 - Pa mor debygol fydd y canlyniadau hynny?
21. Felly mae cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cynnwys y pum cam canlynol.
 - Beth fyddai'n digwydd heb y cynllun datblygu lleol ('ymyriad')?
 - Canfod y prif berygl(on)
 - Asesu'r effeithiau/canlyniadau posibl
 - Asesu tebygoliaeth yr effeithiau/canlyniadau
 - Disgrifio nodweddion y risg a'r ansicrwydd sy'n dod gyda'r asesiad

Cam 2.1 Lluio Senario

³³ Op. Cit. DEFRA (2011) Green Leaves III adran 1.3

22. Y cam cyntaf yn y broses yw llunio senario o beth fydd bywiogrwydd / gwynwch y Gymraeg ar adeg benodol yn y dyfodol. Bydd yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd i ddatblygu'r model cysyniadol ac i nodi dangosydd llinell sylfaen gwynwch y Gymraeg.
23. Mae senarios yn "ddisgrifiadau credadwy o sut y gallai'r dyfodol ddatblygu, o bosibl"³⁴. Maent wedi'u seilio ar gasgliad rhesymegol a chyson o ragdybiaethau ynghylch y prif elfennau a grymoedd sy'n ysgogi'r datblygiad dan sylw.
24. Wrth ystyried effaith unrhyw ddefnydd tir ar wytnwch ieithyddol ardal, mae'n ddefnyddiol llunio senario a all ystyried sut y gall cyfres o ffactorau ddylanwadu ar newid yn y sefyllfa ieithyddol. Bydd cynllunio senario yn dwyn ynghyd gyfres gysylltiedig o ddatblygiadau posibl. Yn y fan hon, dylid ystyried effeithiau cyfansymiol a chronnol posibl a'u hamseriad a'u cydamseredd. Gall llunio senarios helpu gyda'r broses o asesu risgiau trwy greu darlun hirdymor o sut y gallai'r sefyllfa ieithyddol ddatblygu. Drwy wneud hyn yn effeithiol, mae'n bosibl nodi materion a phwyntiau hanfodol a fydd yn cynorthwyo â'r broses o ffurfio cyd-destun clir ar gyfer strategaethau a pholisïau yn y dyfodol.
25. Mae creu amcanestyniadau economaidd a chymdeithasol yn gymhleth ac yn anodd ar y gorau. Mae rhagweld priodoleddau personol megis y gallu i siarad iaith leiafrifedig yn anos byth. Dylid cydnabod hyn a'i gyfleu'n eglur yn yr asesiad.

Cam 2.2 Nodi'r Prif Beryglon

26. Yng nghyd-destun cynllun sydd wedi'i fwriadu i dyfu a rheoli datblygu cynaliadwy, bydd angen nodi'r prif beryglon ac ystyried effaith ofodol y peryglon hyn. Mae'r ffactorau canlynol, ymysg eraill, yn debygol o fod yn bresennol:
 - mewnfudo byrdymor sylweddol i'r ardal yn gysylltiedig â gwaith adeiladu mawr sy'n effeithio ar y cydbwysedd ieithyddol presennol mewn cymunedau y tu mewn i gwmpas dylanwad y datblygiad newydd;
 - mewnfudo i'r ardal gan weithwyr a phreswylwyr parhaol a fyddai'n lleihau canran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal;
 - siaradwyr Cymraeg lleol heb y sgiliau i ymgeisio am y swyddi newydd sydd ar gael, gan arwain at fwy o allfudo;
 - llai o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn y gweithle a meysydd cymdeithasol eraill oherwydd dylanwad y mewnfudo ar bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg;

³⁴ DEFRA (2011) Green Leaves III adran 2.3.3

- mwy o anffodlonrwydd â pholisi addysgol yr ardal yn nhermau'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg; a
- gostyngiad yn lefel bresennol gwytnwch y gymuned Gymraeg.

Cam 2.3 Beth fyddai'r canlyniadau? (Aseu'r canlyniadau)

27. Dylid ystyried yr ystod lawn o ganlyniadau posibl yn y broses o nodi a llunio barn am y canlyniadau neu effeithiau posibl. Rhestrir rhai o'r prif ystyriaethau isod.
- A yw'r effaith yn fwy perthnasol i grwpiau oedran penodol?
 - A yw'r data'n ddigon manwl, neu a oes angen rhagor o ymchwil?
 - A oes angen mwy o wybodaeth am wytnwch cymunedau Cymraeg?
 - A yw'n hawdd adnabod y rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg?
 - A roddwyd digon o lais i gymdeithasau a grwpiau lleol a rhanddeiliaid lleol eraill yn y broses o nodi canlyniadau ac effeithiau posibl?
 - A yw polisiau'r Awdurdod Lleol yn ddigon clir i alluogi ymateb i'r asesiad risg?
 - A yw'r effeithiau/canlyniadau (yn nhermau cwmpas a graddfa) yn ymddangos yn synhwyrol i'r rhanddeiliaid?
28. Hyd yma, nid yw nodi graddfa'r perygl i wytnwch y Gymraeg yn broses wrthrychol wedi'i seilio ar dystiolaeth 'wyddonol' yn unig. Yn lle hynny, mae'n dibynnu ar wneud arfarniad goddrychol o **raddfa** neu **faint** y perygl, dros **gyfnod** penodol.
29. Bydd hefyd yn bwysig diffinio'r canlyniadau posibl yn nhermau **beth** yw'r canlyniad, **ble** y bydd y canlyniad yn digwydd, ar **bwyl** y bydd y canlyniad yn effeithio a **sut** y bydd yn effeithio arnynt a **phryd** (a/neu dros **ba gyfnod o amser**) y bydd y canlyniad yn digwydd. Gall peryglon peidio â chaffael neu drosglwyddo'r iaith, neu ei cholli, ddigwydd ar adegau gwahanol ym mywyd unigolyn.³⁵ Mae hwn hefyd yn ffactor y dylid ei nodi wrth geisio diffinio'r canlyniadau posibl.
30. Mae **Tabl A2-1** yn dangos y trothwyon ar gyfer sgorio maint effaith / canlyniad.

Tabl A2-1: Graddfeydd maint effaith

Cadarnhaol Mawr	Cadarnhaol Bach	Negyddol Bach	Negyddol Mawr
2.5 pwynt canran neu fwy o gynnydd yn nifer amcangyfrifedig y	Llai na 2.5 pwynt canran o gynnydd yn nifer amcangyfrifedig y siaradwyr Cymraeg	Llai na 2.5 pwynt canran o leihad yn nifer amcangyfrifedig y siaradwyr Cymraeg	2.5 pwynt canran neu fwy o leihad yn nifer amcangyfrifedig y siaradwyr Cymraeg

³⁵ Er enghraifft, gweler gwaith ar 'mudes' ieithyddol yn Pujolar, J. a Gonzalez, I. (2012) 'Linguistic 'mudes' and the de-ethnicization of language choice in Catalonia', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, <http://dx.doi.org/10.1080/13670050.2012.720664>.

siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun tair oed a throsodd uwchben y taflwybr	yn Ardal y Cynllun tair oed a throsodd uwchben y taflwybr	yn Ardal y Cynllun tair oed a throsodd uwchben y taflwybr	yn Ardal y Cynllun tair oed a throsodd uwchben y taflwybr
Uchel	Isel	Isel	Uchel
2	1	-1	-2

Cam 2.4 Pa mor debygol yw'r canlyniadau? (Asesu tebygoliaeth neu debygolrwydd)

31. Mae'n bosibl diffinio tebygoliaeth digwyddiad fel ffracsiwn (neu ganran) o 0 i 1. Nid yw'n ymarferol ystyried pob tebygolrwydd ac felly yr arfer cyffredin yw pennu graddau tebygolrwydd a diffinio eu cwmpas.
32. Er mwyn osgoi dryswch diangen, fel arfer mae'r graddfeydd hyn yn amrywio rhwng 2 a 9 gradd. Lle nad oes lefel hyder uchel wrth ddiffinio tebygolrwydd, mae'n arferol defnyddio graddfa sy'n gyfuniad o fand canran (e.e. unwaith ym mhob 10 digwyddiad, 2-4 gwaith ym mhob 10 digwyddiad, 5-8 gwaith ym mhob 10 digwyddiad, 9 gwaith neu fwy ym mhob 10 digwyddiad) a disgrifiad ansoddol (e.e. annhebygol iawn / posibl / tebygol / tebygol iawn). Mae llawer o fodelau tebygolrwydd yn ffafrio graddfeydd â rhwng 3 a 5 gradd yn y sefyllfa hon.
33. Ar hyn o bryd, y ffordd orau ymlaen yng nghyd-destun y Gymraeg yw'r dystiolaeth a ddarparwyd wrth fonitro cynlluniau datblygu blaenorol. Er enghraifft, gellid seilio hyn ar ddadansoddiad o safleoedd cartrefi neu gyflogaeth a ddatblygwyd o gymharu â gwynwch y Gymraeg yn yr ardal honno dros gyfnod tebyg. Bydd gwynwch ieithyddol yn amrywio yn ôl canran y siaradwyr Cymraeg a'u hoed, a bydd hyn yn fater i'w ystyried ar adeg paratoi'r asesiad.
34. Mae **Tabl A2-2** yn rhoi enghraifft o fynegi tebygoliaeth.

Tabl A2-2: Graddfeydd tebygoliaeth (tebygolrwydd a mynychder)

Tebygoliaeth digwydd	Tebygolrwydd	Mynychder	Tebygoliaeth	Sgôr
Tebygol iawn	Mae profiad yn dangos y bydd twf / lleihad yn y boblogaeth ar y raddfa	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd o leiaf 8	>90%	4

	hon yn ei wneud yn debygol iawn yn y rhan fwyaf o achosion	gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu blaenorol		
Tebygol	Mae profiad yn dangos y bydd twf / lleihad yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei wneud yn debygol yn y rhan fwyaf o achosion o ddatblygiadau tebyg	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd o leiaf 5 – 7 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu blaenorol	>50<89.9	3
Posibl	Mae profiad yn dangos y bydd twf / lleihad yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei wneud yn bosibl yn y rhan fwyaf o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd o leiaf 3 – 4 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu blaenorol	>20<49.9%	2
Annhebygol iawn	Mae profiad yn dangos y bydd twf / lleihad yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei wneud yn annhebygol iawn yn y rhan fwyaf o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd o leiaf 3 – 4 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu blaenorol	<10%	1

Llunio Disgrifiad o'r Effaith (Cyfuno Canlyniadau a Thebygoliaeth)

35. Wedyn defnyddir y dadansoddiad i ddisgrifio'r risg (sef cyfuniad o'r canlyniad a thebygoliaeth y canlyniad) ac i gofnodi'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r asesiad.
36. Ar sail y sgorau yn y matrices risg, gellir llunio tabl i roi asesiad o'r effaith gyffredinol.
37. O fewn yr ystod o effeithiau posibl, dylai fod modd disgrifio'r debygoliaeth y bydd yr effaith yn digwydd yn nhermau mynychder neu debygolrwydd. Mae asesu **tebygolrwydd** gyda rhywfaint o sicrwydd neu gonsensws yn bwysig. Gellir cryfhau sicrwydd a gwrthrychedd trwy ddeialog gyda rhanddeiliaid a phartneriaid er mwyn sicrhau consensws sydd mor gadarn ag sy'n bosibl. Dylid mynd i'r afael â gwahanol ddehongliadau trwy gynnal rhagor o drafodaethau ac o bosibl ceisio rhagor o ddata neu dystiolaeth fwy dibynadwy.
38. Wrth ystyried y debygoliaeth, bydd hefyd yn bwysig craffu ar y cynllun gwreiddiol a'r opsiynau a gynigir, er mwyn ffurfio barn am yr opsiynau sy'n fwyaf tebygol o gael eu gwireddu. Dylid hefyd cadw mewn cof y gwahaniaeth rhwng tebygolrwydd lefel yr

effaith a'r debygoliaeth gyffredinol y bydd yr effaith yn digwydd. Mae hyn yn bwysig wrth fesur risg gan ddefnyddio'r matrices asesu risg. Wrth wneud penderfyniad, bydd hefyd angen ystyried gwytnwch neu freguster yr ardal sy'n wynebu'r perygl.

Cam 2.5 Disgrifio risg ac ansicrwydd

39. Er bod yna lawer o ffyrdd o ddisgrifio risg, mae'r model yr argymhellwn ei ddefnyddio yn adnabyddus mewn llawer o feysydd eraill ac yn amrywiad ar yr hyn a elwir 'Matrics Risg' neu 'Fap Gwres'. Mae'r matrices risg yn cyfuno'r ddau ddimensiwn effaith a thebygoliaeth a ddisgrifir yng nghamau 2.3 a 2.4. Dangosir y Matrics Risg a argymhellir drosodd yn **Ffigur A2-4**.
40. Y sgôr yw'r debygoliaeth y bydd lefel benodol o effaith yn digwydd o ganlyniad i'r datblygiad (effaith uniongyrchol, effeithiau graddol dros amser neu effeithiau anuniongyrchol). Rhaid i'r sgôr a gofnodir fod yn **gyfuniad** o i) lefel yr effaith a ii) y debygoliaeth y bydd yr effaith yn digwydd.


Ffigur A2-4: Matrics a argymhellir i asesu risg i'r Gymraeg

MATRICES RISG GWYTNWCH YR IAITH GYMRAEG CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GÂR					GRADDFA'R EFFAITH/CANLYNIADAU DROS GYFNOD Y CYNLLUN			
					←	Cadarnhaol Mawr	Cadarnhaol Bach	Negyddol Bach
Gwytnwch yr Iaith Gymraeg f(GIG) = NSC + CSC pwysoliad trothwy					Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r tafliwybr	Cynnydd llai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn uwch na'r tafliwybr	Lleihâd o lai na 2.5 pwynt canran yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Ardal y Cynllun oed 3 a throsodd yn is na'r tafliwybr	Cynnydd 2.5 pwynt canran neu fwy yn y ganran o siaradwyr Cymraeg oed 3 a throsodd yn Ardal y Cynllun yn is na'r tafliwybr
					Uchel	Isel	Isel	Uchel
Tebygolrwydd		Amledd		Sgôr	2	1	-1	-2
TEBYGOLAETH	Mae profiad yn dangos fod y tŵf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol iawn yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 8 neu ragor gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Debygol iawn	4	8	4	-4	-8
	Mae profiad yn dangos fod y tŵf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 5 - 7 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Debygol	3	6	3	-3	-6
	Mae profiad yn dangos fod y tŵf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn bosibl yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 3-4 gwaith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Bosibl	2	4	2	-2	-4
	Mae profiad yn dangos fod y tŵf/llleihâd yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn annhebygol iawn yn y mwyafrif o achosion	Tystiolaeth i ddangos ei fod yn digwydd mewn 1-2 waith allan o 10 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol	Yn Annhebygol iawn	1	2	1	-1	-2

Cam 3: Arfarnu'r opsiynau rheoli risg

41. Fel arfer mae fframweithiau rheoli risg yn nodi pum opsiwn strategol, fel a ganlyn:
- **Derbyn/ Goddef** y risg trwy beidio ag ymyrryd (e.e. os nad oes modd ei rheoli neu os yw cost mynd i'r afael â hi yn rhy fawr).
 - **Lliniaru'r effeithiau** (e.e. trwy gryfhau neu fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi gwytnwch y Gymraeg).
 - **Manteisio ar gyfleoedd** sy'n deillio o'r risg i greu cyfleoedd newydd a gwella buddion
 - **Trosglwyddo'r risg** (e.e. mae sefydliad arall yn ysgwyddo'r baich o fynd i'r afael â'r risg).
 - **Rhoi terfyn** ar ffynhonnell y risg lle bo modd.

Ffigur A2-5: Nodi'r strategaeth a ffefir i reoli risgiau a buddion³⁶



³⁶ Addaswyd o *Green Leaves III*, Ffigur 16.

Cam 3.1 Gwerthuso'r effaith ar ffactorau atgynhyrchu'r Gymraeg

42. Y cartref yw'r prif faes lle mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu 'hatgynhyrchu'. Yn 2011, ar aelwydydd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, 80% oedd y lefel atgynhyrchu iaith³⁷. Ar aelwydydd ag un riant oedd yn siarad Cymraeg, tua 40% oedd lefel atgynhyrchu'r Gymraeg.³⁸ Mae ymchwiliad yn dangos bod plant sy'n cael eu cymdeithasoli yn Gymraeg yn y cartref, at ei gilydd, yn parhau i siarad Cymraeg ac yn trosglwyddo'r iaith i'w plant hwythau. O ganlyniad, mae diogelu'r lleoliadau hynny lle mae cymdeithasoli yn Gymraeg yn y cartref yn ffynnu yn allweddol i fywiogrwydd a gwytnwch y Gymraeg. Bydd angen gwerthuso effaith datblygiad ar ffactorau atgynhyrchu iaith trwy ystyried yr effeithiau tebygol ar yr agweddau canlynol:

- Lefelau 'atgynhyrchu' iaith yn y cartref
 - nifer y plant sy'n cael eu geni i deuluoedd lle gall y ddau riant siarad Cymraeg a defnyddio'r iaith gyda'u plant;
 - nifer y plant sy'n cael eu geni i deuluoedd lle mai dim ond un riant sy'n siarad Cymraeg;
 - i ba raddau, os o gwbl, mae iaith y cartref yn dod yn fwyfwy dwyieithog / Saesneg / iaith arall;
 - argaeledd darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardal; ac
 - argaeledd darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn yr ardal.
- Gwytnwch y Gymraeg yn y gymuned
 - i ba raddau, os o gwbl, mae statws y Gymraeg yn gostwng oherwydd lleihad yn nifer y siaradwyr fel canran o'r boblogaeth leol;
 - i ba raddau, os o gwbl, mae llai o grwpiau a chymdeithasau cymunedol Cymraeg yn ffynnu yn lleol;
 - i ba raddau, os o gwbl, y bydd defnydd pobl o'r Gymraeg pob dydd yn lleihau;
 - i ba raddau, os o gwbl, y bydd gwytnwch y Gymraeg fel iaith rhyngweithio pob dydd yn lleihau;
 - i ba raddau, os o gwbl, y bydd defnyddio'r Gymraeg yn encilio i feysydd mwy cyfyngedig ac y bydd heb ffresni creadigol.

Cam 3.2 Gwerthuso'r effaith ar ffactorau cynhyrchu'r Gymraeg

43. Addysg yw'r prif faes lle mae siaradwyr Cymraeg newydd yn cael eu 'cynhyrchu'. Mae tua dau draean o blant yng Nghymru yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol trwy addysg

³⁷ Data Cyfrifiad 2011.

³⁸ Data Cyfrifiad 2011.

cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. O ganlyniad mae'r system addysg a pholisïau addysg fel y cânt eu llunio a'u rhoi ar waith ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdod lleol yn allweddol i fywiogrwydd a gwytnwch y Gymraeg. Felly rhaid ystyried argaeledd y canlynol yn lleol:

- darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg (a gynhelir a nas cynhelir);
- addysg statudol lawn trwy gyfrwng y Gymraeg;
- lefelau dilynol addysg/sgiliau a hyfforddiant Cymraeg.

44. Y tu allan i'r system addysg, mae ffactorau eraill yn sicrhau bywiogrwydd a gwytnwch y Gymraeg trwy roi cyfle i bobl ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau personol ac yn y gwaith. Bydd angen gwerthuso effaith datblygiad ar ffactorau cynhyrchu iaith trwy ystyried yr effaith debygol ar:

- ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (ar draws holl sectorau'r economi leol);
- defnyddio'r Gymraeg ymysg gwahanol grwpiau economaidd gymdeithasol;
- gweithgarwch cymdeithasol a chymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg.

45. Ffactorau eraill y mae angen eu hystyried mewn perthynas â bywiogrwydd a gwytnwch y Gymraeg yw'r lefelau symudedd mewn cymunedau a'r patrymau mewnfudo ac allfudo sy'n digwydd yn ystod rhai cyfnodau bywyd allweddol. Dylid rhoi sylw penodol i'r canlynol:

- cyfraddau allfudo (yn enwedig ymysg y grŵp oedran 16 – 30); a
- chyfraddau mewnfudo (yn enwedig ymysg y grŵp oedran 31 – 45).

46. At hynny, dylid nodi llawer o agweddau eraill sy'n gysylltiedig â chynnal gwytnwch y Gymraeg yn lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- i ba raddau, os o gwbl, y cwestiynir polisi iaith yr awdurdod lleol yn nhermau'r ddarpariaeth addysg sy'n gwneud defnydd sylweddol o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu?
- i ba raddau, os o gwbl, y mae cynnydd yn nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg?
- i ba raddau, os o gwbl, y mae lleihad mewn lefelau rhuglder ymysg siaradwyr Cymraeg fel iaith gyntaf?
- i ba raddau, os o gwbl, nad oes digon o bobl yn dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod cyrsiau i'r grŵp oedran 14+ yn hyfyw, gan arwain at ddiffyg dilyniant yn y gweithle?

- i ba raddau, os o gwbl, y mae'r cyfleoedd i barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg 'ddilynol' mewn ysgolion a cholegau yn lleihau?
- i ba raddau, os o gwbl, y mae nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn fach?
- i ba raddau, os o gwbl, y mae agweddau negyddol at y Gymraeg gyda'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith i'r 'crachach' neu'n iaith 'hen ffasiwn'?
- i ba raddau mae cyflogwyr yn chwilio am sgiliau Cymraeg i'w gweithlu ac yn hybu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle?

Cam 3.3 Gwerthuso'r capasiti adnoddau i roi'r asesiad risg ar waith

47. Wrth werthuso'r capasiti i roi'r asesiad risg ar waith, dylid ystyried y canlynol:

- beth fydd rôl yr awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill?
- a fydd adnoddau ychwanegol yn cael eu cynnig er mwyn ymdrin ag un o'r camau a allai godi o'r asesiad risg?
- sut fydd y risg yn cael ei rhannu rhwng y partïon?
- a fydd digon o gapasiti ar gael i roi'r asesiad risg ar waith?

Cam 3.4 Gwerthuso capasiti sefydliadau i weithredu

48. Mae'r cam hwn yn golygu nodi pa fath o gymorth a allai fod ar gael oddi wrth:

- yr awdurdod lleol;
- Llywodraeth Cymru;
- Llywodraeth y DU; a
- chyrff yn y trydydd sector.

Cam 3.5 Dewis yr Opsiwn a Ffefrir

49. Wrth lunio'r strategaeth a ffefrir, dylid gwneud penderfyniad ar sail y canlynol:

- consensws rhwng yr awdurdod lleol a'r holl randdeiliaid perthnasol; a
- phroses dadansoddi wedi'i seilio ar nifer o feini prawf a fydd yn arwain at benderfyniad.

50. Mae'n arfer cyffredin defnyddio Dadansoddiad Meini Prawf Lluosog³⁹ wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa lwybr i'w ddewis. Mae'r Dadansoddiad hwn yn cynnig ffordd ymarferol o gymharu a blaenoriaethu opsiynau o ran gwneud penderfyniad lle

³⁹ Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (2009): *Multi Criteria Analysis – a manual*.

mae meini prawf lluosog a gwahanol lefelau risg ac ansicrwydd. Mae Dadansoddiad Meini Prawf Lluosog yn broses o werthuso penderfyniadau trwy ddefnyddio matrices perfformiad sy'n cynnwys meini prawf i bwysu a mesur yr opsiynau dan sylw gyda'r nod o ganfod trefn yr opsiynau, o'r un a ffefrir fwyaf i'r un a ffefrir leiaf. Disgwylir y bydd angen Dadansoddiad o'r fath yn y broses o ddewis yr opsiwn a ffefrir.

Cam 4: Llundio Cynllun Gweithredu Lliniaru a Gwella Gwytnwch y Gymraeg

Cam 4.1: Canfod y cyfuniad priodol o ymatebion

51. Wrth ymateb i'r asesiad risg, rhaid ystyried yn ofalus pa strategaethau ar gyfer rheoli'r risg a'r buddion i wytnwch y Gymraeg y dylid eu hystyried. Pa strategaeth bynnag a fabwysiedir, bydd elfen o risg (risg 'weddilliol') o hyd. Yn ogystal â chymryd camau i weithredu'r strategaeth a ffeirir, bydd angen cynnwys cynllun i fonitro a rheoli'r risg weddilliol.

Cam 4.2 Llundio strategaeth adrodd/monitro

52. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am lunio strategaeth adrodd a monitro er mwyn tracio effaith y CDLI ar wytnwch y Gymraeg dros oes y cynllun. Bydd y strategaeth hon yn nodi pa rôl fydd gan yr awdurdod lleol a rhanddeiliaid / partneriaid allweddol eraill yn y gwaith o weithredu, monitro ac ailasesu risg o bryd i'w gilydd.

Mesurau lliniaru a gwella

53. Wrth lunio cynllun gweithredu yn dilyn yr asesiad risg, daw yn glir lle mae angen mesurau lliniaru a gwella. Bydd unrhyw fesurau lliniaru a gwella yn cael eu cyflwyno er mwyn hybu effeithiau cadarnhaol y CDLI. Bydd hyn yn golygu bod y mesurau a thargedau lliniaru a gwella yn glir ac yn ddealedig ar ddechrau'r cynllun. Disgwylir y bydd y mesurau lliniaru a gwella'n cael eu costio'n llawn ar ôl cytuno ar y CDLI terfynol. Bydd hyn yn sicrhau ymwybyddiaeth gyffredinol o'r risgiau, y buddion a'r cyfleoedd a allai ddeillio o'r cynllun.

Cam 4.3 Cynhyrchu'r cynllun gweithredu lliniaru a gwella arfaethedig

54. Cytunir ar y cynllun gweithredu lliniaru a gwella arfaethedig ar sail consensws. Bydd yr Awdurdod Lleol, gan ymgynghori â'i rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol, yn cytuno ar strwythur a chynnwys y cynllun gweithredu a chaiff hwn ei ddiweddarau yn

unol â'r amserlen y bydd yr Awdurdod Lleol a'i randdeiliaid / partneriaid yn cytuno arni.

Monitro'r cynllun gweithredu lliniaru a gwella

55. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol fonitro a diweddarau'r cynllun gweithredu lliniaru a gwella. Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod y data a ddefnyddir i fonitro effaith y CDLI yn gyfredol fel bod modd diweddarau'r cynllun gweithredu lliniaru a gwella yn ôl yr angen. Ar ôl cyflawni'r asesiad risg cychwynnol o'r CDLI ar wytnwch y Gymraeg yn yr awdurdod, bydd angen adolygu ac ailasesu'r sefyllfa ieithyddol yn rheolaidd dros oes y cynllun i weld a yw'r sefyllfa wedi newid mewn unrhyw ffordd.

* * * * *

Atodiad 2.1: Canfod y llinell sylfaen ar gyfer nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2033

Cydnabyddiaeth

Mae'r ystadegau demograffig a ddefnyddir yn yr atodiad hwn wedi'u cael o ddata a ddarparwyd gan Edge Analytics yn ei Adendwm a gynhyrchwyd ym mis Medi 2019 ac o'r gwaith o greu tablau ychwanegol ar fudo mewnol gros a gynhyrchwyd ym mis Hydref 2019. Mae'r rhain yn eu tro yn deillio o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'u trwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v.3.0.

Mae IAITH/BURUM yn ddiolchgar am gymorth a chydweithrediad Cyngor Sir Caerfyrddin ac Edge Analytics wrth sicrhau bod y rhain ar gael i'w dadansoddi.

Cyflwyniad

1. Yn rhan o'r asesiad o effaith debygol Strategaeth a Ffefrir y CDLI ar y Gymraeg, mae'r fethodoleg yn galw am ddatblygu model llinell sylfaen (neu 'busnes fel arfer') o'r hyn y gallai'r sefyllfa fod yn 2033 (diwedd cyfnod y Cynllun) heb ymyrraeth bolisi Strategaeth a Ffefrir y Cynllun.
2. Nid yw'n hawdd gwneud hyn oherwydd, er gwaethaf maes problemus amcanestyniadau a thaflywybrau poblogaeth, mae darogan trosglwyddo, caffael, defnyddio a cholli'r Gymraeg yn faes eithriadol o anodd a chymhleth, ac fe'i gwneir yn anos byth wrth geisio modelu effaith ymyriadau polisi.

Dull

3. Fel cam cyntaf yn y gwaith o ddatblygu'r llinell sylfaen, mae IAITH/BURUM wedi ceisio deall taflywybr diweddaraf Llywodraeth Cymru o ran sut y gallai gyflawni ei dyhead i

sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'i oblygiadau i sefyllfa bosibl Sir Gaerfyrddin yn 2033⁴⁰.

4. Cyn dechrau ar y dadansoddiad a'r drafodaeth, mae'n bwysig ailbwysleisio'r gwahaniaethau pwysig rhwng amcanestyniad a thaflwybr.
5. Diffinnir **amcanestyniad** yn y cyd-destun hwn fel "nifer y siaradwyr Cymraeg a ragwelir os bydd y patrymau a thueddiadau cyfredol o ran y Gymraeg a'r boblogaeth yn parhau hyd 2050."⁴¹ Diffinnir **taflwybr** yn y cyd-destun hwn fel "nifer y siaradwyr Cymraeg a amcangyfrifir ar sail yr amcanestyniad yn ogystal â nifer o ragdybiaethau ynghylch nodau strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."⁴²

Amcanestyniadau Siaradwyr Cymraeg

6. Roedd y data a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanestyniad a geir yn yr adroddiad wedi'u seilio ar y tair ffynhonnell ganlynol:
 - Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl oedran am y cyfnod 2011-2013;
 - Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl oedran am y cyfnod 2014-2050;
 - data am allu yn y Gymraeg yn ôl oedran o Gyfrifiad 2011.
7. Mae'r amcanestyniad wedi'i seilio ar y model cysyniadol a ddyfeisiwyd gan Sankoff (2008)⁴³ ac yn rhagdybio'n fras y bydd canran y siaradwyr Cymraeg mewn un grŵp oedran mewn un flwyddyn yr un peth â'r ganran yn y grŵp oedran yn y flwyddyn flaenorol, gydag addasiadau ar ragdybiaethau a wneir ynghylch caffael y Gymraeg gan blant.
8. Mae **Ffigur A1.1-1** a **Thabl A1.1-1** yn dangos amcanestyniadau Llywodraeth Cymru am y twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn ystod y cyfnod 2011-2050.

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, Ystadegau ar gyfer Cymru (Mehefin 2017) *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050*.


⁴¹ Ibid. t2.

⁴² Ibid. t7.

⁴³ Sankoff, D. 2008. 'How to predict the evolution of a bilingual community' yn Meyerhoff, M. a Nagy, N. (gol.) *Social Lives in Language – Sociolinguistics and Multilingual Speech Communities Celebrating the Work of Gillian Sankoff*. Prifysgol Caeredin / Prifysgol Toronto.

Fel y dywedwyd ynghynt, mae angen cymryd gofal gan eu bod wedi'u seilio ar set o ragdybiaethau am dueddiadau, tueddiadau a fydd o bosibl / yn ôl pob tebyg yn newid dros amser.

Ffigur A1.1-1: Amcanestyniad nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd Llywodraeth Cymru, 2011-2050



Ffynhonnell: atgynhyrchwyd o Lywodraeth Cymru, Ystadegau ar gyfer Cymru (2017) Op. Cit. Siart 2, t. 5.

Tabl A1.1-1: Amcanestyniad niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd Llywodraeth Cymru ar gyfnodau penodol hyd at 2050

Blwyddyn	Nifer	Canran
2011	562,000	19
2017	570,000	19
2021	580,000	19
2026	600,000	19
2031	610,000	20
2036	630,000	20
2041	640,000	20
2046	650,000	20
2050	670,000	21

Ffynhonnell: atgynhyrchwyd o Lywodraeth Cymru, Ystadegau ar gyfer Cymru (2017) Op. Cit., Tabl 1, t.5.

9. Mae'r tablau cefndir manylach⁴⁴ yn dangos nifer amcanestynedig y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn cyrraedd 621,000 erbyn 2033 sy'n awgrymu cynnydd o ychydig llai na 50,000 erbyn 2033 (+10.5%).
10. Er nad ydynt wedi'u dangos yn uniongyrchol yn yr ystadegau, amcangyfrifodd amcanestyniadau sail-2014 Llywodraeth Cymru boblogaeth tair oed a throsodd ar gyfer Cymru o 3,153,560, gan roi ffigur canran o 19.7% (wedi'i thalgrynnu i fyny i 20% yn Nhabl A1 uchod) ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
11. 189,317 yw'r ffigur amcanestynedig am holl boblogaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2033 gan ddefnyddio amcanestyniad 2014 Llywodraeth Cymru. Amcanestynnir mai 183,937 fydd poblogaeth y Sir tair oed a throsodd. 78,048 oedd nifer y bobl 3 oed a throsodd yn 2011 â'r gallu i siarad Cymraeg.
12. Byddai cymhwyso'r un newid (10.5%) dros y cyfnod 2011 - 2033 yn y ganran o holl boblogaeth Cymru tair oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg i'r newid amcanestynedig yn y ffigur canran cyfansymiol ar gyfer siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn Sir Gaerfyrddin yn arwain at dwf yn y nifer $78,048 * 10.5\% = 86,243$.
13. Byddai hyn yn rhoi canran amcangyfrifedig o'r boblogaeth 3 oed a throsodd â'r gallu i siarad Cymraeg o 47.0% erbyn 2033. Mae hyn yn cymharu â 43.9% a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011.
14. Mae amcanestyniad sail-2016 Llywodraeth Cymru'n diwygio'r holl boblogaeth tair oed a throsodd i 3,142,564. Ni fydd canran y siaradwyr Cymraeg a gynhyrchwyd yn nata Llywodraeth Cymru a nodir yn **Ffigur A1.1** a **Thabl A1.1** uchod yn cael ei diweddarau nes ar ôl i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 fod yn hysbys ond disgwylir iddi aros yr un peth â'r ffigur hwn neu'n agos ato.

Taflwybr posibl siaradwyr Cymraeg


15. Mae taflwybr Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyfrifo gan adeiladu ar amcanestyniad 2014 Llywodraeth Cymru a gynhyrchwyd uchod fel llinell sylfaen a chan ddefnyddio pedair prif ragdybiaeth wedi'u seilio ar nodau polisi'r strategaeth:
 - trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
 - dysgu Cymraeg yn yr ysgol.
 - dysgu Cymraeg trwy Gymraeg i Oedolion; a

⁴⁴ Mae'r data hyn ar gael ar <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language>.

- gwell parhad i'r gallu i siarad Cymraeg ar ôl 16.

16. Caiff **Ffigur A1.1-2** isod a **Tabl A1.1-2** eu hatgynhyrchu o adroddiad Llywodraeth Cymru.

Ffigur A1.1-2: Amcanestyniad a thafllwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050



Ffynhonnell: atgynhyrchwyd o Lywodraeth Cymru, Ystadegau ar gyfer Cymru (2017) Op. Cit. Siart 6, t. 10.

17. Mae'r tablau cefndirol manylach⁴⁵ yn dangos mai 710,000 erbyn 2033 yw tafllwybr nifer amcangyfrifedig siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd. Mae amcanestyniad tair oed a throsodd sail-2014 Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, sef 3,153,560, yn rhoi ffigwr canran o 22.5%.

Tabl A1.1-2: Niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd ar gyfnodau penodol hyd at 2050 yn ôl tafllwybr Llywodraeth Cymru


Blwyddyn	Nifer	Canran
2011	562,000	19
2017	580,000	19
2021	600,000	20
2026	630,000	20
2031	680,000	22
2036	750,000	24
2041	830,000	26
2046	920,000	29
2050	1,000,000	31

Ffynhonnell: atgynhyrchwyd o Lywodraeth Cymru, Ystadegau ar gyfer Cymru (2017) Op. Cit., Tabl 2, t 11.

⁴⁵ Mae'r data hyn ar gael ar <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language>.

18. Byddai cymhwyso'r un newid (22.5%) yn y ganran o'r boblogaeth tair oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg i'r newid amcanestynedig yn ffigwr canran cyfansymiol siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn arwain o bosibl at dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd i $78,048 * 22.5\% = 95,608$.
19. Byddai hyn yn rhoi canran amcangyfrifedig o'r boblogaeth 3 oed a throsodd â'r gallu i siarad Cymraeg o 52.0%. Mae hyn yn cymharu â 43.9% a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011. Mae **Ffigur A1.1-3** yn dangos taflwybr y twf yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi'i seilio ar y taflwybr i Gymru gyfan.

Ffigur A1.1-3 Taflwybr amcangyfrifedig am dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2033



(a) Mae data 2011 wedi'u seilio ar y niferoedd o Gyfrifiad 2011.

Cyfyngiadau

20. Mae angen ailbwysleisio gair o rybudd. Mae'r uchod yn rhagdybio y bydd canlyniadau strategaeth *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg* yn cael eu rhannu'n gyfartal ar draws Cymru. Deellir nad yw Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, yn bwriadu cynhyrchu taflwybrau neu dargedau gofodol ar gyfer rhanbarthau a phob awdurdod lleol unigol. Yn absenoldeb taflwybrau o'r fath, rhagdybiaeth effaith gyfartal ar draws Cymru yw'r brasamcan gweithio gorau.

* * * * *

Atodiad 2.2: Mudo gros 2019-20 a'r goblygiadau i Asesiad o Effaith Strategaeth Twf a Ffefrir y CDLI ar y Gymraeg

Cyflwyniad

1. Mae Strategaeth a Ffefrir ddrafft yr Ail Fersiwn Adneuo o'r CDLI yn seilio ei dull ar amcanestyniad poblogaeth o 14,468, ffigwr gofyniad tai o 8,882 (cyfartaledd o +588 y flwyddyn), a ffigwr swyddi o 276 y flwyddyn⁴⁶.
2. Prif elfennau cyfrifo newid blynyddol yn y boblogaeth a ddefnyddir wrth fodelu amcanestyniadau poblogaeth yw genedigaethau, marwolaethau, mudo mewnol net y DU a mudo rhyngwladol net. Mae pob model yn rhagdybio y bydd Sir Gaerfyrddin yn colli poblogaeth oherwydd newid naturiol (h.y., bydd marwolaethau blynyddol yn fwy na genedigaethau blynyddol) ac y bydd cynnydd bach mewn mudo rhyngwladol (tua 210 y flwyddyn). Felly mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi'i seilio gan fwyaf ar y rhagdybiaethau a wneir ynghylch cyfraddau presennol mudo mewnol net fel prif sbardun newid yn y boblogaeth.
3. Roedd gennym ddiddordeb, felly, mewn ceisio deall yn well a fyddai, a sut fyddai gan ragdybiaethau ynghylch mudo mewnol net, fel y prif sbardun i dwf mewn poblogaeth, aelwydydd ac anheddau, unrhyw oblygiadau i wytnwch y Gymraeg.
4. Fel rhan o'r dadansoddiad pellach o fudo net, rhoddodd Edge Analytics i IAITH/BURUM dablau crynodeb yn seiliedig ar y data crai ar ffigyrau mudo mewnol gros ar gyfer Sir Gaerfyrddin am y flwyddyn 2019/20.
5. At ddibenion yr ymarfer hwn dadansoddwyd y data fel a ganlyn:

⁴⁶ Yn seiliedig ar Turley (Hydref 2022) *Adroddiad Tai a Thwf Economaidd Sir Gaerfyrddin*.

- mewnfudo ac allfudo gros yn ôl carfanau oedran o/i rannau eraill o Gymru yn ôl rhanbarth.⁴⁷
 - mewnfudo ac allfudo gros yn ôl carfanau oedran o/i ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru.
6. Wedyn cafodd y data a ddarparwyd eu sifftio a'u dadansoddi yn ôl carfanau oedran y barnwyd eu bod o ddiddordeb o ran dadansoddi ynghylch gwytnwch y Gymraeg (o dan 3 oed; 3 i 15 oed; 16 – 29 oed; 30 – 44 oed; 45 – 60 oed; 60+ oed).
 7. Ni ofynnwyd am ddata rhywedd gan na farnwyd ei fod yn hanfodol i ddealltwriaeth o batrymau a thueddiadau mudo mewnol at ddiben y prosiect hwn.
 8. Mae **Tabl A2.2-1** yn rhoi crynodeb o'r data.

Tabl A2.2-1: 2019/20 Ffigyrau Mudo Gros a Net yn ôl Grŵp Oedran a Daeryddiaeth

Grŵp Oedran	Gweddill Canol a Gorllewin Cymru			De Ddwyrain Cymru			Gogledd Cymru			Cyfanswm Cymru (heb gynnwys Sir Gar)			DG tu allan i Gymru		
	Mewn	Allan	Net	Mewn	Allan	Net	Mewn	Allan	Net	Mewn	Allan	Net	Mewn	Allan	Net
0-2	75	80	-5	27	18	9	3	1	2	105	99	6	60	33	27
3-15	328	285	42	76	54	22	10	6	4	414	345	69	237	112	125
16-29	787	696	92	532	490	42	49	38	12	1,369	1,223	146	960	808	152
30-44	528	476	52	199	161	38	16	11	5	743	649	94	492	314	178
45-59	406	322	83	131	73	58	14	5	9	550	400	150	560	222	338
60+	457	255	202	119	81	38	15	17	-2	591	352	239	528	290	238
Cyfansymiau	2,581	2,114	467	1,084	877	207	107	77	30	3,772	3,068	703	2,837	1,779	1,059

Ffynhonnell: addasiad o Ddata a Thabl gan Edge Analytics (Tachwedd 2022)

Canfyddiadau allweddol

9. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o ddadansoddi ffigyrau EA:

Mudo o Sir Gaerfyrddin

- Symudodd 4,847 o bobl o'r Sir yn ystod 2019/20.
- Mae hyn yn cymharu â 5,672 o bobl a symudodd o'r Sir yn ystod 2017/18 (gostyngiad o 14.5%).
- O'r cyfanswm ar gyfer 2019/20, symudodd 3,068 (63.3%) i rannau eraill o Gymru a symudodd 1,779 (36.7%) i leoedd eraill y tu allan i Gymru.
- O'r 3,068 a symudodd i rannau eraill o Gymru,

⁴⁷ Mae rhanbarthau Cynllun Strategol Canolbarth a De-orllewin Cymru yn parhau i fod wedi'u cyfuno yn adroddiadau StatsCymru.

- symudodd 2,114 (69%) i rannau eraill o Ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.
 - symudodd 877 (29%) i Ranbarth y De-ddwyrain; a
 - symudodd 77 (2%) i Ranbarth Gogledd Cymru.
10. Mae'r crynodeb uchod yn awgrymu, o'i gymharu â'r canlyniadau ar gyfer 2017/8, nid yn unig y bu gostyngiad yn nifer y bobl (allfudo gros) sy'n gadael y sir, ond bod mwy (bron i 70%) o'r rhai sy'n symud allan o'r sir yn aros o fewn rhanbarth ehangach canolbarth a gorllewin Cymru.

Mudo i Sir Gaerfyrddin

- Symudodd 6,609 o bobl i Sir Gaerfyrddin yn ystod 2019/20.
 - Mae hyn yn cymharu â 7,241 o bobl a symudodd i'r sir yn ystod 2017/18 (gostyngiad o 8.7%).
 - O'r cyfanswm ar gyfer 2019/20, symudodd 3,772 (57%) i'r sir o rannau eraill o Gymru a symudodd 2,837 (43%) o leoedd eraill y tu allan i Gymru.
 - O'r 3,772 a symudodd o rannau eraill o Gymru:
 - symudodd 2,581 (68%) i Sir Gaerfyrddin o rannau eraill o Ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.
 - symudodd 1,084 (29%) o Ranbarth y De-ddwyrain; a
 - symudodd 107 (3%) o Ranbarth Gogledd Cymru.
11. Mae hyn yn awgrymu, o gymharu â'r canlyniadau ar gyfer 2017/8, er y bu gostyngiad blynyddol bach yng nghyfanswm nifer y bobl sy'n symud i'r sir mae'n ymddangos nad oes unrhyw amrywiad sylweddol dros y ddwy flynedd o ran ffynhonnell ddaearyddol y symudiadau.
12. Mae **Tabl A2.2-2** yn rhoi dadansoddiad o'r data yn ôl carfan oedran ar gyfer blwyddyn sylfaen y CDLI diwygiedig (2017/18) a'r ffigurau diweddaraf a ddarparwyd gan Edge Analytics ar gyfer 2019/20.

Tabl A2.2-2: Ffigyrau Mewnfudo ac Allfudo Gros yn ôl Grŵp Oedran

Grŵp Oedran	Cyfansymiau yn ôl Grŵp Oedran (2019/20)				Grŵp Oedran	Cyfansymiau yn ôl Grŵp Oedran (2017/18)			
	Mewn	%	Allan	%		Mewn	%	Allan	%
0-2	165	2%	132	3%	0-2	248	3%	159	3%
3-15	651	10%	457	9%	3-15	864	12%	482	8%
16-29	2,329	35%	2,031	42%	16-29	2,125	29%	2,458	43%
30-44	1,235	19%	963	20%	30-44	1,478	20%	1,058	19%
45-59	1,110	17%	622	13%	45-59	1,371	19%	750	13%
60+	1,119	17%	642	13%	60+	1,159	16%	785	14%
Total	6,609	100%	4,847	100%	Total	7,245	100%	5,692	100%

13. Mae cymhariaeth o'r ffigyrau ar gyfer 2019/20 a 2017/18 yn dangos, er bod lefelau mewnfudo a lefelau allfudo cyffredinol yn is yn 2019/20, a bod cyfrannau allfudo yn weddol debyg ar draws pob carfan oedran, bod arwyddion o newid sylweddol posibl rhwng carfanau oedran o fewnfudwyr. Mae cyfran y mewnfudwyr o fewn y garfan oedran 16 – 29 wedi cynyddu o 29% i 35% (yn bennaf ar draul carfanau oedran 3-15 a 45 – 59).
14. Wrth ddadansoddi carfanau oedran ymhellach yn ôl daearyddiaeth, mae'r pum carfan fwyaf a fudodd o Sir Gaerfyrddin oedd:
- grŵp oedran 16 – 29 i ardaloedd y tu allan i Gymru (808).
 - grŵp oedran 16 – 29 i rannau eraill o Ganolbarth a Gorllewin Cymru (696).
 - grŵp oedran 16 – 29 i Ranbarth y De-ddwyrain (490).
 - grŵp oedran 30 – 44 i rannau eraill o Ganolbarth a Gorllewin Cymru (476).
 - grŵp oedran 45 – 59 i rannau eraill o Ganolbarth a Gorllewin Cymru (322).
15. Y chwe charfan fwyaf i fudo i Sir Gaerfyrddin oedd:
- grŵp oedran 16 – 29 o ardaloedd y tu allan i Gymru (960);
 - grŵp oedran 16-29 o rannau eraill o Ganolbarth a Gorllewin Cymru (787);
 - grŵp oedran 45 – 59 o ardaloedd y tu allan i Gymru (560).
 - grŵp oedran 16 – 29 o Ranbarth y De-ddwyrain (532).
 - grŵp oedran 30 – 44 o rannau eraill o Ganolbarth a Gorllewin Cymru a rhannau eraill y tu allan i Gymru (528 yr un)
16. Mae'r dadansoddiad mudo net a ddarparwyd gan friff Turley⁴⁸ yn Ffigur 4 dros gyfnod hwy ac yn defnyddio gwahanol garfanau oedran. Mae'r graff yn dangos cynnydd sylweddol mewn mudo net rhwng 2017/18 a 2019/20 yn y garfan 18 – 24 a gostyngiad

⁴⁸ Cyngor Sir Caerfyrddin (Tachwedd 2022) Atodiad 3 Adroddiad i'r Cabinet, 14 Tachwedd 2022.

bach mewn mudo net yn y garfan 25 – 44. Mae hyn yn awgrymu bod y twf mewn niferoedd mewnfudo gros yn gysylltiedig â phobl o fewn y garfan 18-24 ac mae'n bosib mai'r rheswm dros hyn yw bod mwy o fyfyrwyr yn cael eu denu i sefydliadau addysgol uwch a phellach, ond mae angen ymchwil bellach i ddeall y ffigyrau hyn yn well.

Symudiadau poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer 2010/11

17. Mae'n ddiddorol cymharu maint y mudo a nodir uchod â'r maint a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011. Mae **Tabl A2.2-3** yn rhoi dadansoddiad o Dabl (DC8201) o Gyfrifiad 2011 sy'n cofnodi lle roedd pobl yn byw flwyddyn cyn dyddiad y Cyfrifiad yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.
18. Yn gyfan, mae'r tabl yn cofnodi'r canlynol:
 - Symudodd 16,154 o bobl 3 oed a throsodd breswylfa yn ystod 2010/11. O'r rhain:
 - Symudodd 10,545 (65%) o gyfeiriadau yn y Sir ei hun; a
 - Symudodd 5,909 (35%) o bobl 3 oed a throsodd i'r Sir o leoedd eraill yn ystod 2010/11.
19. Mae'r ffigur o 5,909 uchod yn cymharu â'r 6,444 (6,605 llai'r 165 o dan 3 oed) yr amcangyfrifir eu bod wedi symud i Sir Gaerfyrddin yn 2019/20. Nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol â'r bobl a symudodd allan o'r ardal gan nad yw tabl y Cyfrifiad yn cofnodi faint o bobl a symudodd allan o Gymru. Fodd bynnag, 2,905 yw'r ffigur ar gyfer y rhai 3 oed a throsodd a symudodd i rannau eraill o Gymru. Mae hyn yn cymharu â'r 3,667 (3,772 - 105) y cofnodwyd eu bod wedi symud i rannau eraill o Gymru yn 2019/20.
20. O'r rheiny oedd yn byw yn yr un cyfeiriad, roedd 45% yn gallu siarad Cymraeg, sydd ychydig yn well na'r cyfartaledd i Sir Gaerfyrddin, sef 43.9%.
21. O'r rheiny a symudodd o leoedd eraill y tu allan i'r Sir, roedd 1,499 (25%) yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 37% o'r 1066 o fudwyr a ddaeth o rannau eraill o Gymru a 15% o'r 427 o fudwyr a ddaeth o leoedd eraill yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg.
22. Mae hyn yn cymharu â'r 4,018 a symudodd o fewn y Sir, yr oedd 37% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl A2.2-3: Dadansoddiad o gyfeiriadau preswylwyr 3 oed a throsodd flwyddyn ynghynt yn ôl y gallu i siarad Cymraeg

Sir Gâr	Holl Gategoriâu Oed 3 a throsodd						
	Yn byw yn yr un cyferiad flwyddyn ynghynt	Yn byw rhywle arall flwyddyn ynghynt : Cyfanswm	Yn byw rhwyle arall flwyddyn ynghynt ; o fewn yr un Sir	Mewnlifiad: Cyfanswm	<i>Mewnlifiad: Yn byw flwyddyn ynghynt tu allan i'r ardal ond yn yr ardal gysylltiedig (gweddill Cymru)</i>	<i>Mewnlifiad : Yn byw rhywle arall flwyddyn ynghynt tu allan i Gymru</i>	All-lifiad: Wedi symud allan o'r ardal i weddill Cymru
Cyfanswm Personau	160788	16854	10945	5909	3007	2902	2905
Canrannau mewn Ardaloedd Daearyddol			65%	35%	51%	49%	
Yn medru'r Gymraeg	72537	5511	4018	1493	1066	427	1153
Canran o'r Categori sy'n gallu siarad Cymraeg	45%	33%	37%	25%	35%	15%	40%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Cyfrifiad 2011 Tabl DC8201WA

Tabl A2.2-4: Dadansoddiad o aelwydydd (yr oedd pawb ohonynt yn symud) yn ôl cyfeiriad flwyddyn ynghynt yn ôl presenoldeb plant dibynnol a'r gallu i siarad Cymraeg

Sir Gâr	Pob Categori			Dim Oedolyn yn Medru'r Gymraeg			O Leiaf Un Oedolyn yn Medru'r Gymraeg					
	Cyfanswm	Heb Blant Dibynnol	Gyda Phlant Dibynol	Cyfanswm	Heb Blant Dibynnol	Gyda Phlant Dibynol	Cyfanswm	%	Heb Blant Dibynnol	%	Gyda Phlant Dibynol	%
Aelwydydd Cyfan - yr un Cyfeiriad	69784	51230	18554	33735	24597	9138	36049	52%	26633	52%	9416	51%
Aelwydydd Cyfan - yn Symud Cyfanswm	6012	3826	2186	3892	2505	1387	2120	35%	1321	35%	799	37%
O Fewn yr un Ardal	3769	2208	1561	2286	1343	943	1483	39%	865	39%	618	40%
Mewn-lifiad	1566	1132	434	1163	848	315	403	26%	284	25%	119	27%
All-lifiad i rannau eraill o Gymru	677	486	191	443	314	129	234	35%	172	35%	62	32%
Mewn-lifiad												
O rannau eraill o Gymru	812	565	247	546	376	170	266	33%	189	33%	77	31%
Oddi allan i Gymru	754	567	187	617	472	145	137	18%	95	17%	42	22%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Cyfrifiad 2011 Tabl DC8203WA

Aelwydydd

23. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd 69,784 o aelwydydd cyfan yn byw yn yr un cyfeiriad flwyddyn cyn 2011. O'r rhain:

- roedd 33,735 (48%) yn aelwydydd heb unrhyw oedolyn â'r gallu i siarad Cymraeg.
- roedd 36,049 (52%) yn aelwydydd lle roedd o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg.

O'r aelwydydd hyn:

- roedd 26,633 heb unrhyw blant dibynnol lle roedd o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg; a
- 9,416 gyda phlant dibynnol lle roedd o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg.

24. Yn y cyfnod hwn, roedd 6,012 o aelwydydd yr oedd pawb ohonynt yn symud (mae'r ffigwr yn eithrio aelwydydd yr oedd rhai ohonynt yn symud). O'r rhain:

- symudodd 3,769 o fewn yr un Sir
- symudodd 1,566 o'r tu allan i'r Sir
 - symudodd 812 o rannau eraill o Gymru
 - symudodd 754 o weddill y Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru
- Symudodd 677 i ardaloedd eraill yng Nghymru y tu allan i'r Sir.

25. O'r 2,120 (35%) o aelwydydd a symudodd lle mae o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg:

- symudodd 1,483 o fewn yr un Sir. 799 (40%) â phlant dibynnol a gydag o leiaf un oedolyn sy'n siarad Cymraeg.
- 403 o'r tu allan i'r Sir (119 â phlant dibynnol). O'r rhain:
 - symudodd 266 o rannau eraill o Gymru (77 (31%) â phlant dibynnol a gydag o leiaf un oedolyn sy'n siarad Cymraeg);
 - 137 o weddill y Deyrnas Unedig y tu allan i Gymru (42 (22%) â phlant dibynnol a gydag o leiaf un oedolyn sy'n siarad Cymraeg).

Goblygiadau i'r Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

26. Drwy gymhwyso'r proffil presennol o siaradwyr Cymraeg cysylltiedig â grŵp oedran (o fewn Sir Gaerfyrddin a gweddill Cymru) a'i gyfuno â chymarebau Cyfrifiad 2011 a drafodwyd uchod mae **Tabl A3.1-1** yn cynnig amcangyfrif o alluoedd ieithyddol posibl y proffil mudo a ddarparwyd ar gyfer 2019/20.

Tabl A2.2-5: Amcangyfrif bras o effaith mudo net ar nifer y siaradwyr Cymraeg

Grŵp Oedran	Mewn			Allan			Cyfansymiau Net
	(1) O Weddill Cymru (Plant @ 25% Oedolion @18%)	(2) O Weddill y DG (Plant @75% Oedolion@15%)	(3)Enillion mewn siaradwyr Cymraeg Posibl (1+2)	(4) I Weddill Cymru @ 70% Oedolion @38%	(5) I Weddill y DG Plant @ 70% Oedolion @38%	(6)Colledion mewn Siaradwyr Cymraeg Posibl (4+5)	(7) Colledion NetPosibl (6-3)
3 – 15	103	178	281	242	142	384	-102
16 – 59	380	302	682	636	1616	2,252	-1,570
60+	106	90	196	134	347	481	-284
Totals	590	570	1,160	1,012	2,105	3,117	-1,957

Ffynhonnell: Cyfrifiadau a rhagdybiaethau'r awduron eu hunain

Rhagdybiaethau

Mewnfudo: O Weddill Cymru Plant 5 – 15 oed lefel gyfartalog a gofnodwyd ledled Cymru; oedolion 16+ cyfartaledd StatsCymru ledled Cymru; O weddill y Deyrnas Unedig Plant 5 - 15 oed Perfformiad y Gwasanaeth Trochi; oedolion canran Cyfrifiad 2011

Allfudo: I/o Weddill Cymru Plant 5-15 oed Cyfradd a gofnodwyd yn y sir o blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg 2021; oedolion % sy'n gallu siarad Cymraeg, y Gymraeg, StatsCymru

27. Awgryma'r dadansoddiad, ar sail y cyfraddau mudo a adroddwyd yn 2019/20 a rhagdybiaethau bras a wnaed ynghylch cyfran y mudwyr sy'n gallu siarad Cymraeg o ran y rhai a symudodd naill ai i Sir Gaerfyrddin neu allan o'r sir, fod posibilrwydd bod nifer net y siaradwyr Cymraeg, oherwydd mudo, yn gostwng 1957 y flwyddyn. O'i gymhwyso fel ffigur blynyddol cyfartalog i weddill Cyfnod y Cynllun (13 blynedd) awgryma hyn y gallai nifer y siaradwyr Cymraeg o bosib ostwng 25,441 dros gyfnod y Cynllun oherwydd mudo net. Mae hyn, wrth gwrs, yn eithrio parodrwydd a gallu mewnfudwyr sy'n oedolion i ddysgu Cymraeg. Er enghraifft, ar gyfartaledd mae 400 o ddysgwyr yn mynychu cyrsiau prif ffrwd ac mae mwy na 300 yn mynychu cwrs atodol bob blwyddyn sy'n cael ei gynnal gan Dysgu Cymraeg Sir Gâr, ac mae'n bosib bod llawer ohonynt wedi symud i'r sir yn ddiweddar.⁴⁹

Crynodeb a Chasgliadau

28. Mae'r Strategaeth a Ffeirir ddiwygiedig wedi'i seilio ar amcanestyniad yn seiliedig ar duedd 10 mlynedd 2022 o gynnydd yn y boblogaeth o 14,468 dros y cyfnod 2018 – 2033 sydd yn ei dro yn arwain Cyngor Sir Caerfyrddin i ddod i'r casgliad y bydd gofyniad am dwf mewn anheddau o 8,882. Mae hyn wedi'i seilio gan fwyaf ar y

⁴⁹ Estyn (2022) Adroddiad Arolygu Dysgu Cymraeg.

rhagdybiaethau a wneir ynghylch cyfraddau presennol mudo mewnol net fel prif sbardun newid yn y boblogaeth.

29. Roedd y papur yn ceisio deall yn well a fyddai, a sut fyddai gan ragdybiaethau ynghylch mudo mewnol net, fel y prif sbardun i dwf mewn poblogaeth, aelwydydd ac anheddau, unrhyw oblygiadau i wytnwch y Gymraeg.
30. Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod graddfa mudo net yn 2019/20 wedi lleihau'n sylweddol o'i chymharu â'r sefyllfa ddwy flynedd yn gynharach a bod allfudo wedi gostwng 14.5% a mewnfudo wedi gostwng 8.7%.
31. Mae cyfran sylweddol o fudo net yn fewnol i Gymru. Daeth cyfanswm o 57% o fewnfudwyr o rannau eraill o Gymru a daeth 39% o'r cyfanswm o siroedd cyfagos yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Daeth 43% o rannau eraill o'r DU.
32. Symudodd cyfanswm o 4,847 o bobl allan o'r Sir a symudodd 44% o fewn yr un Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin a 18% arall i Ranbarth y De-ddwyrain. Symudodd 36.7% i leoedd eraill y tu allan i Gymru ac roedd oddeutu traean o'r rhain yn y garfan oedran 16 - 29.
33. Mae'r dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad Poblogaeth 2011 ar gyfer y bobl a symudodd o gyfeiriad y tu allan i'r Sir yn ystod y deuddeng mis blaenorol yn awgrymu bod cyfran sylweddol (tua thraean) o'r mewnfudwyr i Sir Gaerfyrddin o aelwydydd lle roedd o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg. Yn yr un modd, roedd gan tua un ym mhob chwe aelwyd o'r tu allan i Gymru o leiaf un oedolyn sy'n siarad Cymraeg.
34. Er nad yw canlyniadau yn y gorffennol, ynddynt eu hunain, yn gallu darogan canlyniadau yn y dyfodol, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn awgrymu bod mewnfudo gros yn debygol o gynnwys cyfran sylweddol o aelwydydd lle gall o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg ac felly darparu seiliau gwell i gynllunio ar gyfer gwella gwytnwch a bywiogrwydd y Gymraeg.

* * * * *

Atodiad 2.3: Goblygiadau Mabwysiadu Senario Twf Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd i Daflwybr Llinell Sylfaen y Gymraeg

1. Fel y dywedwyd yn **Atodiad 2.1**, mae taflwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 wedi cael ei gyfrifo gan adeiladu ar amcanestyniad poblogaeth 2014 a chan ddefnyddio pedair prif ragdybiaeth wedi'u seilio ar nodau polisi'r strategaeth:
 - trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref (atgynhyrchu)
 - dysgu Cymraeg yn yr ysgol (cynhyrchu)
 - dysgu Cymraeg trwy Gymraeg i Oedolion (cynhyrchu)
 - gwell parhad i'r gallu i siarad Cymraeg ar ôl 16 (er mwyn cynyddu defnydd bob dydd o'r iaith)

2.3.1 Yr Efen "Atgynhyrchu"

2. Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi'i seilio ar Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd 2022.
3. Ar sail poblogaeth amcanestynedig o 202,036 ar gyfer 2033 a chan ragdybio bod cyfran debyg o'r boblogaeth yn 3 oed a throsodd (97.24%), byddai hyn yn rhoi poblogaeth amcanestynedig 3 oed a throsodd o 196,460.
4. Fel y trafodwyd yn **Atodiad 2.3**, amcangyfrifir mai 95,608 yw amcangyfrif taflwybr poblogaeth Sir Gaerfyrddin tair oed a throsodd â'r gallu i siarad Cymraeg. *Ceteris paribus*, byddai hyn yn golygu mai'r gyfran o holl boblogaeth Sir Gaerfyrddin tair oed a throsodd sydd â'r gallu i siarad Cymraeg yw $95,608 / 188,339 = 48.6\%$.
5. Mae Prif Amcanestyniad LIC18 yn rhagweld mai 188,417 yw'r boblogaeth 3+ oed. Byddai hyn yn golygu mai'r gyfran o holl boblogaeth Sir Gaerfyrddin tair oed a throsodd sydd â'r gallu i siarad Cymraeg yw $95,608 / 188,339 = 50.8\%$. Effaith hyn fyddai lleihad o 1.2 pwynt canran yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg nag a fyddai'n cael ei wireddu o dan senario taflwybr poblogaeth sail-14 Llywodraeth Cymru (52.0%).

Effaith ffigyrau Mudo Gros

6. Mae gan ragdybiaethau'r Strategaeth a Ffefrir ynghylch mewnfudo net (yn nhermau pa gyfran o'r boblogaeth sy'n debyg o drosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r nesaf ('atgynhyrchu')) oblygiadau allweddol hefyd ar gyfer gwireddu llinell sylfaen y tafllwybr o 95,608 o siaradwyr Cymraeg.
7. Fel y trafodwyd yn **Atodiad 2.2** y canfyddiadau allweddol o ran mudo gros a net yw:
 - Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod graddfa mudo net yn 2019/20 wedi lleihau'n sylweddol o'i chymharu â'r sefyllfa ddwy flynedd yn gynharach a bod allfudo wedi gostwng 14.5% a mewnfudo wedi gostwng 8.7%.
 - Mae cyfran sylweddol o fewnfudo yn fewnol i Gymru a daeth 39% o'r cyfanswm o siroedd cyfagos yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Daeth 43% o rannau eraill o'r DU.
 - Mae cyfran sylweddol o'r allfudo hefyd yn fewnol i Gymru a symudodd 44% o siroedd cyfagos yn yr un Rhanbarthau Canolbarth a Gorllewin a 18% arall i Ranbarth y De-ddwyrain.
 - Symudodd oddeutu tri o bob wyth i fannau eraill y tu allan i Gymru ac roedd oddeutu traean o'r rhain yn y garfan oedran 16 - 29.
 - Mae'r dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad Poblogaeth 2011 ar gyfer y bobl a symudodd o gyfeiriad y tu allan i'r Sir yn ystod y deuddeng mis blaenorol yn awgrymu bod tua thraean o'r mewnfudwyr i Sir Gaerfyrddin o aelwydydd lle roedd o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg.
 - Yn yr un modd, roedd gan tua un ym mhob chwe aelwyd a symudodd o'r tu allan i Gymru o leiaf un oedolyn sy'n siarad Cymraeg.
 - Ar sail y cyfraddau mudo a adroddwyd yn 2019/20 a rhagdybiaethau bras a wnaed ynghylch cyfran y mudwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, mae posibilrwydd bod nifer net y siaradwyr Cymraeg, oherwydd mudo, yn gostwng 1957 y flwyddyn.
 - O'i gymhwyso fel ffigwr blynyddol cyfartalog i weddill Cyfnod y Cynllun (13 blynedd) awgryma hyn y gallai nifer y siaradwyr Cymraeg o bosib ostwng 25,441 dros gyfnod y Cynllun o ganlyniad i fudo net.

2.3.2 Yr Efen "Cynhyrchu"

8. Mae cynhyrchu siaradwyr Cymraeg newydd yn deillio o ffynonellau y tu allan i'r cartref. Fel y dangosir yn Atodiad 2.6 bydd effeithiolrwydd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, fersiwn 2017–20 a fersiwn 2022–32, yn sbardun hollbwysig o ran gallu a defnydd y Gymraeg ymhlith disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd, yn enwedig plant 3 - 15 oed, ac felly, gallu a defnydd y Gymraeg yn gyffredinol.

Trafodaeth

9. Mae'r holl senarios yn rhagdybio mai mewnfudo net fydd prif sbardun newid yn y boblogaeth o hyd. Er na ddywedir hynny'n benodol, rhagdybir yma y bydd newid naturiol yn parhau i fod yn negyddol gan leihau'r gronfa neu'r stoc o siaradwyr Cymraeg presennol dros amser.
10. Mae'r Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd 2022 yn awgrymu cynnydd yn nifer y trigolion (y tu allan i Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) o 8,271 yn fwy na Phrif Amcanestyniad 2018 Llywodraeth Cymru (LIC18) o 6,197 o drigolion.⁵⁰ Byddai nifer net y cartrefi sydd eu hangen yn cynyddu 3,777.

Tabl A3.2-1: Newid poblogaeth yn ôl grŵp oedran dan y senarios demograffig (2018 - 2033)

Senario	Newid Poblogaeth Nifer 2018 - 2033			Newid Poblogaeth % 2018 - 2033		
	0 - 15	16 - 64	65+	0 - 15	16 - 64	65+
10YTBP	-1,090	-2,298	16,797	-4%	-2%	43%
WG 2018 Prif	-1,727	-3,189	11,113	-10%	-3%	25%
Gwahaniaeth Net	637	891	5,684	6%	1%	17%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awduron eu hunain (Tachwedd 2022)

Carfan 3-15

11. Ar sail yr Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd, byddai'r boblogaeth 0-15 oed yn gostwng -4% tra bod Prif Amcanestyniad Amrywiolion 2018 Llywodraeth Cymru yn rhagweld gostyngiad o -10%, gwahaniaeth net o 6%.
12. Byddai effaith net Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd o gymharu â Phrif Amcanestyniad Amrywiolion 2018 Llywodraeth Cymru yn gweld gostyngiad yn y grŵp oedran 0-15 o **637**.

Goblygiadau i'r Gymraeg

⁵⁰ Cyngor Sir Caerfyrddin (Tachwedd 2022) Adroddiad i'r Cabinet, Atodiad 3.

13. Mae'n debyg mai'r prif ddylanwad ar gyfran y garfan â'r gallu i siarad Cymraeg yw effeithiolrwydd y system addysg yn hytrach na throsoglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r nesaf yn y cartref (er bod tystiolaeth yn awgrymu bod llwyddiant yn fwy tebygol os siaredir Cymraeg yn y cartref).
14. Uchelgais Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yw y bydd 75% o'r holl ddisgyblion Blwyddyn 1 yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2033. Mae hyn wedi ei seilio ar darged bod 75% o ddisgyblion oed Meithrin (3-4 oed) a 78.5% o ddisgyblion oed Derbyn (4-5 oed) yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2033. Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun, felly, yr uchelgais yw y byddai 698 yn fwy o ddisgyblion y flwyddyn yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg na'r ffigur llinell sylfaen ar gyfer 2021, gan adeiladu ar y cynnydd o 4.5 pwynt canran (tua 85 o ddisgyblion ychwanegol) a gyflawnwyd rhwng 2018 a 2021. Erbyn 2033, felly, oherwydd y bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi mynd trwy system addysg Sir Gaerfyrddin, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 oed yn hynod debygol o fod o leiaf 75%.
15. Amcangyfrifir mai 26,158 fydd nifer amcanestynedig y disgyblion rhwng 3-15 oed yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2033. Pe bai'r targed o 75% yn cael ei gyrraedd, mae hyn yn awgrymu bod posibilrwydd realistig y bydd 26,158 (* 75% = 19,618) o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae hyn yn gynydd gros o 4,104 (19,618 – 15,414) yn fwy na'r ffigur a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011.
16. Y rhagdybiaeth a wneir ar gyfer y taflwybr llinell sylfaen (Taflwybr Llywodraeth Cymru) yw y bydd 55% o ddisgyblion 15 oed yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2031. Yn achos Sir Gaerfyrddin byddai hyn yn 26,158 (* 55% = 14,387). Mae'r gwahaniaeth yn gynydd gros o 19,618 – 14,387 = 5,231.
17. Byddai hyn yn cynyddu nifer net y siaradwyr Cymraeg o gymharu â'r Taflwybr (95,608 + 5,231) = 100,839.

Grŵp oedran 16-64

18. Mae'r Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd yn rhagweld gostyngiad net yn y boblogaeth yng nharfan oedran 16-64 o -2,298 (-2%) ar gyfer y cyfnod 2018 - 2033. (Mae Amcanestyniad 2018 Llywodraeth Cymru yn rhagweld gostyngiad o 3,189 (-2.9%)).

19. Byddai hyn yn rhoi cynnydd cadarnhaol net yn y grŵp oedran 16 – 64 o gymharu â LIC2018 o +891. O ran y newid yn y grŵp oedran 16 – 64, mae taflwybr LIC2018 yn rhagweld cynnydd net o 1,296 yn y grŵp oedran 60 – 64.
20. Mae'r dadansoddiad yn **Nhabl A2.2.5** yn dangos bod posibilrwydd realistig, o'r ffigwr mewnfudo net blynyddol o 1,058 yn y grŵp oedran 16 – 59, y byddai gostyngiad net o 213 o siaradwyr Cymraeg y flwyddyn. Dros 15 mlynedd, byddai hyn yn gyfystyr â cholled net o 3,194.
21. Mae tabl **A2.2.5** yn awgrymu y byddai ychydig o gynnydd net yn y grŵp oedran 60+ o 29 y flwyddyn. Mae'n annhebygol y bydd y grŵp oedran 60 – 64 yn gyfran sylweddol o'r ffigwr hwn ac felly rhagdybir mai 0 fydd y ffigwr mudo net o ran gallu i siarad Cymraeg.
22. I grynhoi,
 - Mae'n bosibl y gallai senario Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd ar sail Cyfrifiad 2011 ostwng nifer y siaradwyr Cymraeg 16-59 oed - 3,194 o gymharu â senario LIC18.⁵¹
 - Byddai hyn yn newid nifer net y siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd ym mharagraff 17 uchod fel a ganlyn:

$$(95,608 + 5,231 - 3,194) = 97,645$$

Carfan 65+

23. Mae amcanestyniadau senario LIC14 yn rhagweld cynnydd net yn y boblogaeth erbyn 2033 yn y grŵp oedran 65+ o +20,084 (+31%) uwchben poblogaeth 2014.
24. Mae Prif Amcanestyniad Amrywiolion 2018 Llywodraeth Cymru yn rhagweld cynnydd net yn y boblogaeth yn y garfan oedran 65+ o 11,113+ (+25) erbyn 2033 uwchben poblogaeth 2018.
25. Mae'r Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd yn rhagweld cynnydd yn y garfan 65+ o 16,797 erbyn 2033 ers 2018. Mae hyn yn gynnydd o +5,684 o gymharu â Phrif Amcanestyniad Amrywiolion 2018 Llywodraeth Cymru.
26. Mae'r dadansoddiad yn **Nhabl A2.2.5** yn dangos bod posibilrwydd realistig, o'r ffigwr mewnfudo net blynyddol o 477 yn y grŵp oedran 60+, y byddai cynnydd net o 29 o

⁵¹ Mae'n bosibl bod y ffigyrau hyn ar gyfer mewnfudwyr o rannau eraill o Gymru tuag at ran isaf y sbectrum oherwydd bod y ganran o fewnfudwyr Cymreig o rannau eraill o Gymru yn debyg o fod yn uwch os yw'r targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws Cymru.

siaradwyr Cymraeg y flwyddyn. Fel y disgrifir uchod, mae'n annhebygol y byddai cynnydd pe bai'r grŵp oedran 59 – 64 yn cael ei ddiystyru. Dros 15 mlynedd, byddai hyn yn gyfystyr â chynnydd net o 439.

27. I grynhoi,

- Ar gyfer Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd, ar sail canlyniadau gallu ieithyddol mudwyr fel y'u proffiliwyd yng Nghyfrifiad 2011, gallai hyn o bosibl gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 60+ oed 439 o gymharu â senario LIC18.⁵²
- Byddai hyn yn newid nifer net y siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd ym mharagraff 25 uchod fel a ganlyn:

$$(95,608 + 5,231 - 3,194 + 439) = 98,084$$

Goblygiadau i'r Gymraeg

28. Mae rhagweld effeithiau tebygol newid yn niferoedd poblogaeth grwpiau oedran 16+ ar y Gymraeg yn fwy heriol, yn arbennig gan fod rhagdybiaethau mawr yn cael eu seilio ar ganlyniadau un flwyddyn yn y gorffennol yn ailddigwydd dros ugain mlynedd wedyn.

29. Yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch nodweddion mewnfudwyr o Gyfrifiad 2011, y newid net yn ffigyrau senarios poblogaeth ar gyfer Amcanestyniad Poblogaeth yn Seiliedig ar Duedd 10 Mlynedd 2022 o gymharu â LIC18 a chyfradd llwyddiant Strategaeth Addysg Gymraeg Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, mae'n bosibl y gallai niferoedd siaradwyr Cymraeg fod yn uwch na Thafllwybr Llywodraeth Cymru:

$$\text{Cyfanswm nifer y siaradwyr Cymraeg} = 95,608 + 5,231 - 3,194 + 439 = 98,084$$

$$\text{Canran y siaradwyr Cymraeg 3+ oed} = 98,084 \text{ rhannu } \hat{=} 196,460 = 49.9\%.$$

30. Mae hyn yn awgrymu posibilrwydd realistig o 0.9% pwynt canran o leihad dros senario tafllwybr LIC18 (50.8%). Mae'n bwysig nodi bod 55% o'r cynnydd yn cael ei gyflawni trwy ymyrraeth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn hytrach nag o ganlyniad i'r Opsiwn Twf a Ffefrir, er ei bod hefyd yn rhesymol nodi bod ymyriadau polisi sydd wedi'u cynllunio i gadw neu gynyddu nifer y bobl ifanc yn debygol o gyfrannu at nifer

⁵² Fel yr uchod.

uwch o ddisgyblion ysgol sy'n gallu siarad Cymraeg ac felly rhoi hwb i'r gyfran gyffredinol.

31. Mae'n bwysig nodi hefyd bod canran uchel o fewnfudwyr yn y blynyddoedd diwethaf yn deillio o bobl yn symud o siroedd cyfagos ac o fannau eraill yng Nghymru. Mae'n debyg y bydd canran yr aelwydydd lle bydd o leiaf un oedolyn a chyfran uchel o blant dibynnol yn gallu siarad Cymraeg, yn cynyddu dros amser.

* * * * *

Atodiad 2.4: Sail dystiolaeth ar gyfer Aseiad o Effaith y Strategaeth Ofodol a Ffeirir ar y Gymraeg

1. Nod yr Atodiad hwn yw ceisio datblygu sail dystiolaeth gadarnach y gellir ei defnyddio fel sail i'r gwaith o gynnal Aseiad Effaith ar y Gymraeg o'r Strategaeth Ofodol a Ffeirir. Y man cychwyn yw nodi sefyllfa pob clwstwr ar adeg Cyfrifiad 2011 – y casgliad mwyaf diweddar o ddata cynhwysfawr o ran y defnydd a'r ddealltwriaeth o'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, disgwylir i ganlyniadau mwy diweddar Cyfrifiad 2021 yn ymwneud â'r Gymraeg gael eu rhyddhau yn gynnar yn 2023.

Tabl A2.4-1: Safle Llinell Sylfaen Clystyrau⁵³

		Trigolion Oed 3 a Throsodd	Siaradwyr Cymraeg	
Clwstwr		Nifer	Nifer	Percentage
Clwstwr 1	Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig	32447	15191	46.8%
Clwstwr 2	Llanelli a Gwendraeth Isaf	70729	22736	32.1%
Clwstwr 3	Aman a Gwendraeth Uchaf	41010	24069	58.7%
Clwstwr 4	Dyffryn Teifi	12475	6745	54.1%
Clwstwr 5	Tywi Uchaf	10071	4742	47.1%
Clwstwr 6	Gorllewin Sir Gâr	9910	4008	40.4%
Cyfansymiau		176642	77491	43.9%

Ffynhonnell: Dadansoddiad yr awduron eu hunain o ddata Cyfrifiad 2011

2. Fel y gwelir yn **Nhabl A2.4-1**, ceir y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn Aman a Gwendraeth Uchaf, sef 24,069. Yn ail agos mae clwstwr Llanelli a Gwendraeth Isaf, gyda 22,736 o siaradwyr Cymraeg.

⁵³ Gwnaethpwyd ymgais i addasu cyfansymudiadau poblogaethau'r clystyrau er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod canran fach yn byw ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. At ddibenion yr ymarfer hwn, rhagdybiwyd bod y boblogaeth (oddeutu 1,000) yn byw yng Nghlwtwr Tywi Uchaf (Clwstwr 5).

- Aman a Gwendraeth Uchaf yw'r clwstwr â'r ganran uchaf a all siarad Cymraeg hefyd, sef 58.7%. Clwstwr 4 (Dyffryn Teifi) sy'n dilyn gyda 54.1%. Canrannau Clwstwr 1 (Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig) a Chlwstwr 5 (Tywi Uchaf) yw 46.8% a 47.1%, yn y drefn honno.
- Er mai yng Nghlwstwr 2 (Llanelli a Gwendraeth Isaf) mae'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg, hwn sydd â'r ffigur isaf mewn termau canrannol.
- Mae'r fethodoleg a ffafwrn ar gyfer pennu Gwytnwch y Gymraeg wedi'i seilio ar normaleiddio'r data ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg ac adio'r sgôr wedi'i normaleiddio at y pwysoliad trothwy. Mae **Tabl A2.4-2** yn dangos canlyniadau Gwytnwch y Gymraeg ar gyfer pob clwstwr.


Tabl A2.4-2: Sgôr Gwytnwch y Gymraeg fesul clwstwr

Clwstwr	Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig	Preswylwyr Arferol 3 oed a throsodd	Siarad Cymraeg	Cyfrif Wedi ei Normaleiddio	Siarad Cymraeg	GIG = NSC + CSC wedi ei bwysoli	
		Nifer	Nifer		Canran	Pwysoliad	Sgôr
Clwstwr 1	Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig	32447	15191	0.76	46.8%	1	1.76
Clwstwr 2	Llanelli a Gwendraeth Isaf	70729	22736	1.13	32.1%	1	2.13
Clwstwr 3	Aman a Gwendraeth Uchaf	41010	24069	1.20	58.7%	2	3.20
Clwstwr 4	Dyffryn Teifi	12475	6745	0.34	54.1%	2	2.34
Clwstwr 5	Tywi Uchaf	10071	4742	0.24	47.1%	1	1.24
Clwstwr 6	Gorllewin Sir Gâr	9910	4008	0.20	40.4%	1	1.20
Cyfansymiau		176642	77491.44132		43.9%		
ISAFSWM			4008		0.32		
UCHAFSWM			24069		0.59		

Ffynhonnell: Dadansoddiad yr awduron eu hunain o ddata Cyfrifiad 2011

- Mae **Tabl A2.4-2** yn cadarnhau mai gan Aman a Gwendraeth Uchaf roedd y clwstwr mwyaf gwydn o ran y Gymraeg yn 2011 o gymharu â gweddill Sir Gaerfyrddin oherwydd y nifer fawr o siaradwyr Cymraeg. O ran gweddill Cymru, mae'r ganran yn is na'r trothwy o 70% sef y trothwy isaf sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i ddiffinio ardal wydn o ran siarad Cymraeg.
- Mae **Ffigur A2.4-1** yn mapio Gwytnwch y Gymraeg yn ôl clwstwr ac yn rhoi asesiad wedi'i seilio ar ei safle o gymharu â'i gilydd. Mae'n cadarnhau mai Clwstwr 3 (Aman a Gwendraeth Uchaf) yw'r un mwyaf gwydn ac mai clystyrau 5 a 6 (Tywi Uchaf a Gorllewin Sir Gaerfyrddin) sydd â'r sgorau gwytnwch isaf.


Ffigur A2.4-1: Gwytnwch y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn ôl clwstwr



Ffynhonnell: Adain Blaen-gynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin (Rhagfyr 2019) – addasiad o ffigurau Cyfrifiad 2011 ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ôl ward

8. Nid oes modd cynhyrchu map yn dangos sgorau'r clystyrau o gymharu â gweddill Cymru gan na ellir normaleiddio'r cyfrifiadau yn erbyn Mwyafswm a Lleiafswm clystyrau tebyg.
9. Fodd bynnag, mae **Ffigur A2.4-2** yn mapio Gwytnwch y Gymraeg ar lefel ward ar sail gwytnwch y wardiau hyn o gymharu â wardiau ynghweddill Cymru. Mae'n cadarnhau bod y ward fwyaf gwydn (Llanon) yng nghlwstwr 3, a bod y wannaf (Glanymôr) yng nghlwstwr 2. At ei gilydd mae'r ardaloedd mwy gwydn yng nghlystyrau 3 a 4, ac yn gyffredinol mae'r ardaloedd llai gwydn yng nghlystyrau 1 (Caerfyrddin a hyd at ben deheuol y clwstwr), 5 a 6.


Ffigur A2.4-2: Gwytnwch y Gymraeg yn wardiau Sir Gaerfyrddin



Ffynhonnell: Adain Blaen-gynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin (Rhagfyr 2019) – addasiad o ffigurau Cyfrifiad 2011 ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ôl ward

10. Mae **Ffigur A2.4-3** yn dangos sefyllfa Gwytnwch y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

Ffigur A2.4-3: Gwytnwch y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru



Ffynhonnell: Adain Blaen-gynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin (Rhagfyr 2019) – addasiad o ddadansoddiad yr Athro David Demeritt o ffigyrau Cyfrifiad 2011 ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ôl Awdurdod Lleol.

11. Mae **Tabl A2.4-3** yn dadansoddi niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg ar gyfer pob clwstwr yn ôl grŵp oedran. Mae'r sgorau uchaf ac isaf ar gyfer y niferoedd a'r canrannau wedi'u hamlygu â lliw coch a gwyrdd yn y drefn honno.

Tabl A2.4-3: Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn ôl grŵp oedran ym mhob clwstwr

		All usual residents aged 3-15			All usual residents aged 16-64			All usual residents aged 65 and over		
		Total	Can speak Welsh		Total	Can speak Welsh		Total	Can speak Welsh	
Cluster		Count	Count	%age	Count	Count	%age	Count	Count	%age
Cluster 1	Cardiff and its Rural Areas	4588	2758	60.1%	20559	8853	43.1%	7169	3639	50.8%
Cluster 2	Llanelli a Gwendraeth Isaf	11147	4778	42.9%	45153	11973	26.5%	14249	5985	42.0%
Cluster 3	Aman a Gwendraeth Uchaf	6322	4600	72.8%	25986	14000	53.9%	8702	5223	60.0%
Cluster 4	Dyffryn Teifi	1820	1407	77.3%	7753	3872	49.9%	2902	1633	56.3%
Cluster 5	Tywi Uchaf	1449	1006	69.4%	6704	2920	43.6%	2918	1251	42.9%
Cluster 6	Western Sir Gâr	1407	843	59.9%	6301	1994	31.6%	2202	820	37.2%
Totals		26,733	15,392	57.6%	112,456	43,612	38.8%	38,142	18,551	48.6%

Ffynhonnell: Dadansoddiad yr awduron eu hunain o ddata Cyfrifiad 2011

Preswylwyr 3 – 15 oed

12. Ceir y nifer fwyaf o breswylwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yng nghlwstwr Llanelli a Gwendraeth Isaf (Clwstwr 2) (4,778) a'r nifer leiaf yng nghlwstwr Gorllewin Sir Gaerfyrddin (Clwstwr 6) (843). Mewn termau canrannol, ceir y ganran uchaf yn Nyffryn Teifi, Clwstwr 4, (77.3%) a'r ganran isaf yng Nghlwstwr 2 (42.9%).
13. Mae'n awgrymu bod dau glwstwr (Clystyrau 3 a 4) yn 2011 yn llwyddo i sicrhau bod mwy na 70% o ddisgyblion yn ddwyieithog, a bod Clwstwr 5 yn agos iawn at gyrraedd y ganran hon. Mae dau glwstwr arall wedi sicrhau tua 60%, a dim ond yng nghlwstwr 2 y ceir canran o dan 50%.
14. Mae casglu data CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion), a gofnodir bob mis Ionawr, yn caniatáu inni fonitro a diweddarau'r sefyllfa ynghylch disgyblion 5 – 15 oed a'u gallu yn y Gymraeg, fel y nodwyd gan eu rhieni. Er bod angen trin y data hwn yn ofalus o ran ei ddibynadwyedd, mae'n rhoi arwydd o lefelau canfyddedig

rhieni o ruglder eu plant yn y Gymraeg. Mae **Tabl A2.4-4** yn crynhoi sefyllfa disgyblion Sir Gaerfyrddin yn gyfan ym mis Ionawr 2019 sy'n cyfateb agosaf i linell sylfaen yr Ail Fersiwn Adneuo o'r CDLI.

Tabl A2.4-4: Disgyblion 5 - 15 oed â gallu yn y Gymraeg⁵⁴

Carmarthenshire PLASC data 2018/2019									
Age groups	Fluent in Welsh		Not fluent in Welsh		Cannot speak Welsh		Total	Ability (Fluent + Not Fluent)	
	Count	Percentage	Count	Percentage	Count	Percentage	Count	Count	Percentage
5 to 10	4,855	39.8%	3,330	27.3%	4,020	32.9%	12,205	8,185	67.1%
11 to 15	4,075	42.2%	3,190	33.1%	2,380	24.7%	9,645	7,265	75.3%
Totals	8,930	40.9%	6,520	29.8%	6,400	29.3%	21,850	15,450	70.7%

Ffynhonnell: Data CYBLD Llywodraeth Cymru Ionawr 2019⁵⁵

15. Er ei bod yn anodd cymharu preswylwyr arferol rhwng 3 a 15 oed ar adeg Cyfrifiad 2011 (nifer yr holl breswylwyr arferol 26,733) â chofrestrï ysgolion (disgyblion 5-15 oed), mae **Tabl A2.4-4** yn awgrymu bod y gallu i siarad Cymraeg wedi cynyddu'n sylweddol o 57.6% i 70.7% yn erbyn cefndir o boblogaeth oedran ysgol sy'n gostwng.
16. Atgyfnerthir y duedd hon gan ffurflenni CYBLD ar gyfer 2021/22 fel y dangosir yn **Nhabl A2 6-5**.

Tabl A2.4-5: Disgyblion 5 - 15 oed â gallu yn y Gymraeg⁵⁶

⁵⁴Y Gallu i Siarad Cymraeg' a 'Siarad Cymraeg Gartref', fel yr aseswyd gan rieni

⁵⁵ 'Gallu i Siarad Cymraeg' a 'Siarad Cymraeg Gartref', fel yr aseswyd gan rieni, o ddisgyblion 5 oed a throsodd mewn ysgolion cynradd gan awdurdod lleol (llyw.cymru) a 'Gallu i Siarad Cymraeg' a 'Siarad Cymraeg Gartref', fel yr aseswyd gan rieni, o ddisgyblion 11-15 oed mewn ysgolion uwchradd gan awdurdod lleol (llyw.cymru). Mae'r sgôr Gallu'n cynnwys disgyblion sy'n 'rhugl yn y Gymraeg' a'r rhai 'nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg'. Mae'r data'n cynnwys pob disgybl sydd wedi'i gategoreiddio gan rieni fel "Amherthnasol"


⁵⁶ Y Gallu i Siarad Cymraeg' a 'Siarad Cymraeg Gartref', fel yr aseswyd gan rieni

Carmarthenshire PLASC data 2021/2022									
Age groups	Fluent in Welsh		Not fluent in Welsh		Cannot speak Welsh		Total	Ability (Fluent + Not Fluent)	
	Count	Percentage	Count	Percentage	Count	Percentage	Count	Count	Percentage
5 to 10	4,175	34.7%	6,485	53.9%	1,370	11.4%	12,030	10,660	88.6%
11 to 15	4,265	42.3%	3,845	38.2%	1,965	19.5%	10,075	8,110	80.5%
Totals	8,440	38.2%	10,330	46.7%	3,335	15.1%	22,105	18,770	84.9%

Ffynhonnell: Data CYBLD Llywodraeth Cymru Mawrth 2022

17. Eto, mae hyn yn dangos bod gallu disgyblion i siarad Cymraeg (fel yr aseswyd gan rieni) yn parhau i dyfu'n gyflym ac mae **Tabl A2.4-5** yn awgrymu bod nifer a chanran y disgyblion sydd â'r gallu i siarad Cymraeg yn oedran ysgol gynradd, yn arbennig, wedi tyfu o 8,185 (a 67.1%) i 10,660 (a 88.6%). Yn yr un modd, mae'r niferoedd a'r canrannau a aseswyd fel rhai "nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg" wedi gostwng o 4,020 (32.9%) i 1,370 (11.4%).
18. Fodd bynnag, mae niferoedd cyffredinol disgyblion 5 -15 oed sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn achos pryder gan fod y grŵp hwn wedi gostwng 490 o 8,930 (40.0%) yn 2019 i 8,440 (38.2%) yn 2022. Mae ymchwil yn dangos bod plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac yn siarad Cymraeg gartref yn debygol o fod yn rhai sy'n defnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac felly, gallai adlewyrchu dirywiad yng ngwytnwch yr iaith o ran defnydd yn y gymuned.
19. Ym mhob grŵp oedran, mae gallu'r garfan i siarad Cymraeg a'i rhuglder yn cynyddu yn ôl oedran. Mae hyn yn argoeli'n dda yn nhermau strategaeth twf a gofodol sydd ag uchelgais i gadw mwy o bobl ifanc a thyfu'r Gymraeg yn un o'i phrif nodau.


Ffigur A2.4-4: Newid o ran canran y disgyblion 5-11 oed ac 11-15 oed yn Sir Gaerfyrddin yn ôl gallu i siarad Cymraeg rhwng 2019 a 2022



Ffynhonnell: Data CYBLD Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019 a 2022


20. Mae **Ffigurau A2.4-5, A2.4-6, A2.4-7, A2.4-8** yn dangos canran y poblogaethau ysgol ym mhob clwstwr fesul gallu i siarad Cymraeg yn ôl data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a gasglwyd ym mis Ionawr 2019 a mis Ionawr 2022.
21. Mae'r ffigurau hyn yn dangos patrwm clir sydd hefyd i'w weld yn Nhablau **A2.4-4** ac **A2.4-5**, yn ogystal â **Ffigur A 2.4-4**. Hynny yw, mae'r categori 'Nid yn rhugl yn y Gymraeg' wedi tyfu ar draul y categori 'Nid yw'n gallu siarad Cymraeg' yn ogystal â'r categori 'Rhugl yn y Gymraeg'. Mae hyn yn fwy amlwg mewn rhai ardaloedd, a'r enghraifft fwyaf amlwg yw 'Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig' ymysg y grŵp oedran 5-11.

Ffigur A2.4-5: Canran disgyblion 5-11 oed mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yn ôl clwstwr ac yn ôl gallu i siarad Cymraeg, Ionawr 2019




Ffynhonnell: CYBLD, Ionawr 2019

Ffigur A2.4-6: Canran disgyblion 5-11 oed mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yn ôl clwstwr ac yn ôl gallu i siarad Cymraeg, Ionawr 2022




Ffynhonnell: CYBLD, Ionawr 2022

Ffigur A2.4-7: Canran disgyblion 11-16 oed mewn ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yn ôl clwstwr a gallu i siarad Cymraeg, Ionawr 2019



Ffynhonnell: CYBLD, Ionawr 2019

Ffigur A2.4-8: Canran disgyblion 11-16 oed mewn ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yn ôl clwstwr a gallu i siarad Cymraeg, Ionawr 2022



Ffynhonnell: CYBLD, Ionawr 2022

Preswylwyr rhwng 16 a 64 oed

22. Ceir y nifer fwyaf o breswylwyr a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 fel rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yng nghlwstwr 3 (Aman a Gwendraeth Uchaf) (14000) a'r nifer leiaf eto yng Ngorllewin Sir Gaerfyrddin (Clwstwr 6) (1,994). Mewn termau canrannol, ceir y ganran uchaf yng nghlwstwr 3 (53.9%) a'r ganran isaf yng nghlwstwr 2 (26.5%).

Preswylwyr 65 oed a throsodd

23. Ceir y nifer fwyaf o breswylwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yng nghlwstwr 2 (Llanelli a Gwendraeth Isaf) (5,985) a'r nifer leiaf yng Ngorllewin Sir Gaerfyrddin (Clwstwr 6) (820). Mewn termau canrannol, ceir y ganran uchaf yng nghlwstwr 3 (60.0%) a'r ganran isaf yng nghlwstwr 6 (37.2%).

Taflwybr 2033

24. Mae'r Strategaeth Dwf wedi'i seilio ar ddyrannu'r lefel twf a ffefrir yn ôl ardal glwstwr. Mae **Tabl A2.4-6** yn dangos canlyniadau dyrannu twf i bob clwstwr a defnyddio'r twf poblogaeth rhagdybiedig fel sail twf er mwyn dyrannu'r twf poblogaeth i bob clwstwr. Wedyn gwneir rhagdybiaeth ynghylch y boblogaeth 3 oed a throsodd (ar sail cyfran Cyfrifiad 2011 sef 97.2%) i gael y ffigwr taflwybr poblogaeth ar gyfer pob clwstwr.

Tabl A2.4-6: Tafllwybr twf poblogaeth yn ôl ardal glwstwr

Cluster		Estimated no. of units in the cluster(HOM1 Land Allocations) Percentage		10yTB Pop Increase	Disaggregation of 10YTB 14468 Pop Increase Population aged 3 and over @97.2%	
Cluster 1	Carmarthen and its Rural Areas	1690	24.8%			3,583
Cluster 2	Llanelli a Gwendraeth Isaf	2840	41.6%	6,021		5853
Cluster 3	Aman a Gwendraeth Uchaf	1267	18.6%	2,686		2611
Cluster 4	Dyffryn Teifi	218	3.2%	462		449
Cluster 5	Tywi Uchaf	162	2.4%	343		334
Cluster 6	Western Sir Gâr	647	9.5%	1,372		1333
Total		6824	100.0%	14468	14,468	14,063

Ffynhonnell: dadansoddiad ac amcangyfrif yr awdur o ddadgyfuniad o dwf poblogaeth amcanestynedig PG 10 (Adendwm 2019) yn ôl clwstwr.

Newid yn y Boblogaeth 2011 – 2018

25. Mae dadansoddiad o ddata amcangyfrifon canol-blwyddyn Edge Analytics ar gyfer Twf Poblogaeth rhwng 2011 a 2018 yn awgrymu bod y boblogaeth wedi tyfu 4,685. Mae **Tabl A2.4 -7** yn dangos amcangyfrif o'r cynnydd ym mhob grŵp oedran drwy ddyrannu'r dadansoddiad grŵp carfan oedran i'r tri grŵp oedran (3 oed a throsodd.)

Tabl A2.4-7: Cynnydd amcangyfrifedig yn y boblogaeth yn ôl grŵp oedran rhwng 2011 a 2018

Grŵp Oedran	Newid a amcangyfrifwyd 2011 - 2018
0 i 2	406
3 – 15	1,292
16 – 64	2,319
65+	668
Cyfanswm	4,685

Ffynhonnell: Dadansoddiad yr awduron eu hunain yn seiliedig ar Adroddiad Adendwm Edge Analytics (2019)

Newid yn y Boblogaeth 2018 – 2033

Opsiwn 1 (Busnes fel Arfer)

26. Mae tystiolaeth gefndir i'r CDLI presennol yn cynnwys amcangyfrifon poblogaeth amcanestynedig hyd at 2026 wedi'u seilio ar y Strategaeth Twf a Ffeirir ar y pryd. Mae'n amcangyfrif mai canlyniad y Strategaeth Dwf a Ffeirir fydd poblogaeth o 197,100 erbyn 2026. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth amcangyfrifedig o 195,012 o dan y PG (Senario Adendwm 2019).
27. Mae **Tabl A2.4-8** yn cyfrifo poblogaeth amcanestynedig ar gyfer Ardal y Cynllun erbyn 2033 ar sail ymestyn y gyfradd gyfwerth dros gyfnod 2021-26 hyd at 2026-31.

Tabl A2.4-8: twf poblogaeth amcanestynedig yn ardal CDLI Sir Gaerfyrddin erbyn 2033

Cyfrifiad	Amcangyfrifon Canol Blwyddyn							Amcanestyniadau CDLI Op 1		
2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2021	2026	2033
183,961	184,332	184,669	184,968	185,247	185,754	186,452	187,568	192,740	197,100	199,631

28. Mae hyn yn rhoi inni boblogaeth amcanestynedig o 199,631 erbyn 2033. Drwy ragdybio mai 97.24% yw'r gyfran o'r boblogaeth ar hyn o bryd sy'n 3 oed a throsodd, mae hyn yn rhoi ffigwr o 195,638 ar gyfer nifer y preswylwyr 3 oed a throsodd.
29. Mae **Tabl A2.4-9** yn cyfrifo nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn ôl clwstwr a'r cyfanswm ar gyfer Ardal y Cynllun.

Tabl A2.4-9: Niferoedd a chanrannau amcanestynedig y siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd erbyn 2033 (Busnes Fel Arfer)

		Amcanestyniad CDLI Opsiwn 1		
Clwstwr		Preswylwyr Oed 3+	Siaradwyr Cymraeg	
Clwstwr 1	Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig	35936	18742	52.2%
Clwstwr 2	Llanelli a Gwendraeth Isaf	78335	28051	35.8%
Clwstwr 3	Aman a Gwendraeth Uchaf	45420	29696	65.4%
Clwstwr 4	Dyffryn Teifi	13817	8322	60.2%
Clwstwr 5	Tywi Uchaf	11154	5851	52.5%
Clwstwr 6	Gorllewin Sir Gâr	10976	4945	45.1%
Cyfansymiau		195638	95608	48.9%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awduron eu hunain

Y Strategaeth Ofodol a Ffefrir

30. Mae **Tabl A2.4-10** yn atgynhyrchu tabl Edge Analytics sy'n dangos y newid amcanestynedig yn y boblogaeth rhwng 2018 a 2033. Mae adio'r ddwy set o ffigurau yn rhoi inni dafllwybr ar gyfer newid yn y boblogaeth hyd 2033 o gymharu â ffigwr llinell sylfaen 2011.

Tabl A2.4-10: Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Age Group	2018	Percentage	2033	Percentage
3 – 15	28,171	15%	28453	14%
16 – 64	114,906	62%	112608	57%
65+	38,844	21%	55,641	28%
Totals	186,568	100%	196,702	100%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awduron eu hunain

31. Fel y nodir ym mhob un o'r senarios amcanestyniadau poblogaeth, bydd y twf mwyaf yn y boblogaeth yn digwydd yn y garfan 65 oed a throsodd, gyda rhywfaint o gynnydd yn y boblogaeth 3 – 15 oed ac ychydig o ostyngiad yn y boblogaeth 16 - 64 oed.
32. Er mwyn cyfrifo'r boblogaeth amcanestynedig erbyn 2033 fesul clwstwr, rydym wedi dyrannu'r twf rhagdybiedig hwn yn gymesur i daflwybr y dyraniadau tai a gynigir ar gyfer pob clwstwr (rydym wedi rhagdybio mai 2.26 o breswylwyr yw maint aelwyd cyfartalog ar draws yr holl glystyrau). Rydym hefyd wedi rhagdybio bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn unol â'n dadansoddiad o effaith y Strategaeth Twf a Ffeirir ar nifer y siaradwyr Cymraeg ac wedi dyrannu hyn yn gymesur i bob clwstwr (**Tabl A2.4-11**).

Tabl A2.4-11: Rhagamcanestyniadau o'r nifer a chanran siaradwyr 3 oed a throsodd erbyn 2033 fesul clwstwr

Tabl A2.4-11: Rhagamcanestyniadau o'r nifer a chanran siaradwyr Cymraeg oed 3 a throsodd erbyn 2033 yn ôl clwstwr

Clwstwr		Rhagamcanestyniad CDLI 1 (Opsiwn 1)			Y strategaeth Twf a Ffafrir (CDLL2) 10YTB		Y Strategaeth Dfodol a Ffafrir (CDLI2) 10YTB		Gwhaniaeth	
		Preswylwyr Oedran 3+	Siaradwyr Cymraeg		Preswylwyr Oedran 3+	Siaradwyr Cymraeg	Nifer	Pwyntiau Canran		
Clwstwr 1	Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig	35936	18742	52.2%	36132	19567	54.2%	825	2.2	
Clwstwr 2	Llanelli a Gwendraeth Isaf	78335	28051	35.8%	78751	29285	37.2%	1234	1.5	
Clwstwr 3	Aman a Gwendraeth Uchaf	45420	29696	65.4%	45667	31002	67.9%	1306	2.8	
Clwstwr 4	Dyffryn Teifi	13817	8322	60.2%	13892	8688	62.5%	366	2.6	
Clwstwr 5	Tywi Uchaf	11154	5851	52.5%	11215	6109	54.5%	257	2.2	
Clwstwr 6	Gorllewin Sir Gâr	10976	4945	45.1%	11035	5163	46.8%	218	2.0	
Cyfansymiau		195638	95608	48.9%	196702	99814	50.7%	4206	1.6	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awduron eu hunain

* * * * *

Atodiad 3.1: Ail Fersiwn Adneuo o CDLI Sir Gaerfyrddin - Polisiâu Cymraeg

Polisi Strategol – SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae'r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y Sir. Ni fydd cynigion datblygu sy'n cael effaith anfanteisiol ar fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu caniatáu oni bai y gellir lliniaru'r effaith. Bydd disgwyl i'r holl gynigion datblygu y mae WL1 yn berthnasol iddynt nodi mesurau sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

11.172 Mae gan y Gymraeg a diwylliant Cymru rôl bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd preswylwyr ag ymwelwyr â Sir Gaerfyrddin. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn sylweddol uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru a chan hynny mae'n rhan arwyddocaol o wead cymdeithasol cymunedau'r Sir, gan ddarparu ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth.

11.173 Ystyrir bod Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae Cyfrifiad 2011 yn dynodi bod 19.0% o boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg, tra bo'r ffigwr cyfatebol yn Sir Gaerfyrddin yn 43.9%. O ran dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ledled y Sir, mae ar ei hisaf yn ward etholiadol Glan-y-môr lle mae 19.2% yn siarad Cymraeg, ac ar ei uchaf yn Chwarter Bach lle mae 68.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir, ac am y rheswm hwn yn bennaf y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn sensitif yn ieithyddol. Hefyd, mae data'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y Sir sy'n dangos natur fregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin.

11.174 Mae'r Cynllun yn ceisio 'hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru' ac mae'n cynnwys ymrwymiad i gyfrannu at nod hirdymor Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gyrraedd y nod hwn bydd y Cyngor yn cefnogi, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw trwy sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth a thai digonol a chymesur i gynnal cymunedau gwledig a threfol yn y Sir a thrwy roi fframwaith monitro effeithiol ar waith. Wrth wneud hynny, mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod y boblogaeth leol yn cael y cyfle i aros yn Sir Gaerfyrddin yn hytrach na gadael i chwilio am gyfleoedd gwaith a

thai, yn ogystal â'r cyfle i ddychwelyd. Trwy amcanu at dwf cynaliadwy, bydd y Cynllun hefyd yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i siaradwyr di-Gymraeg sy'n symud i mewn i'r Sir gael eu hintegreiddio i fywyd cymunedol ar raddfa a chyflymder na fydd yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru.

11.175 Mae'r angen i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg yn berthnasol i ddatblygiadau a gynigir ledled y Sir ac nid yw'n gyfyngedig i ardaloedd penodol yn y Sir. Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu gydnabod statws swyddogol y Gymraeg ac ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

11.176 Mae polisiâu penodol yn darparu canllawiau pellach i sicrhau bod datblygiadau ar raddfa ac o fath a chymeriad priodol yn cael eu cyflawni i ddiwallu anghenion y cymunedau. Ar ben hynny, bydd y CDLI Diwygiedig yn ceisio sicrhau bod datblygu'n digwydd ar gyflymder sy'n golygu y gellir eu hamsugno a'u cymhathu heb niweidio cymeriad y gymuned.

11.177 Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio diogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin trwy amcanion polisi perthnasol eraill, sef trwy ddarparu tai a thai fforddiadwy, hybu economi ffyniannus a chyfleoedd cyflogaeth a darparu a chadw cyfleusterau cymunedol, ymhlith eraill.

WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd

Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu ledled Sir Gaerfyrddin ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg.

Bydd yn ofynnol i'r cynigion datblygu canlynol gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith, a hwnnw'n nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg:

Datblygiadau preswyl o 5 neu fwy o anheddau a fydd yn unigol neu gyda'i gilydd yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai ddangosol a nodir ar gyfer yr anheddiad ym Mholisiâu HOM1 a HOM3; neu

Datblygiad preswyl o 5 neu fwy o anheddau ar safleoedd wedi'u dyrannu neu hap-safleoedd nad ydynt yn mynd i'r afael â thystiolaeth o'r angen a'r galw am dai a gofnodwyd mewn Asesiad o'r Farchnad Dai neu ffynonellau tystiolaeth lleol sy'n berthnasol; neu ,

Datblygiadau adwerthu, masnachol neu ddiwydiannol â chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy ar arwynebedd sy'n fwy nag 1 hectar.

Mae'n ofynnol i gynigion ar hap-safleoedd nas rhagwelwyd ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n arwain at lif gweithlu sylweddol gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.

Bydd yn ofynnol bod cynigion nad ydynt yn gyson â dosbarthiad tai'r Cynllun (Atodiad 7) yn darparu cynllun fesul cyfnod sy'n nodi'r graddfeydd amser ar gyfer darparu'r tai a gynigir ar y safle, a dangos na fyddent yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na ellir ei lliniaru.

11.178 Mae'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg. Dylai'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg nodi hefyd sut y mae'r datblygiad yn cynnig gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at grwpiau iaith Gymraeg y gymuned. Gallai hyn, ymhlith mesurau eraill, gynnwys rhoi cymorth a chyllid i sefydliadau a chyrrff sy'n darparu gweithgareddau, cyfleusterau ac addysg ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, a chymorth a chyllid tuag at ddsbarthiadau Cymraeg. Bydd yn ofynnol bod Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi effeithiau disgwylidig y datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg yn y Sir. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol y Gymraeg yn rhoi canllawiau pellach ynghylch pryd mae angen Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg, gan egluro beth yw datblygiad ar raddfa fawr, yn ogystal â sut i lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

11.179 Er y gellir rhoi cymorth i brosiectau trwy gyfraniadau ariannol, gellir ei roi trwy ddulliau eraill hefyd. Bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi gydag amodau neu'n amodol ar gytundebau cyfreithiol i sicrhau bod y mesurau lliniaru a gwella a gynigir yn y Cynllun Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Bydd canllawiau pellach ar gynnwys Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg yn cael eu darparu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

11.180 Mae dosbarthiad tai'r CDLI wedi'i nodi yn Atodiad 7 y Cynllun. Mae effeithiau graddfa, lleoliad a chyfradd datblygu wedi cael eu hasesu yn unol â'r dosbarthiad y cytunwyd arno. O ganlyniad nid yw cynigion ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn gyson â graddfeydd amser y dosbarthiad yn cael eu hasesu'n llawn. Felly bydd angen i gynigion o'r fath gael eu hategu gan gynllun fesul cyfnod sy'n nodi nifer yr anheddau a fydd yn cael eu cyflawni ym mhob blwyddyn ariannol. Mewn achosion o'r fath, gellir rhoi caniatâd cynllunio gydag amod i sicrhau bod anheddau'n cael eu cyflawni yn unol â'r cynllun fesul cyfnod lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

11.181 Mae Strategaeth y Cynllun yn darparu ar gyfer twf organig ar raddfa fach yn y Pentrefi Gwledig ac mae polisiau HOM1 ac HOM3 yn adeiladu ar hyn gan ganiatáu datblygu ar raddfa

briodol ac mewn lleoliadau priodol. Ystyrir bod datblygiad bob yn dipyn ar y raddfa hon yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at dwf cynaliadwy'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig, a bod unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o gael eu hamsugno gan y gymuned. Efallai nad yw datblygiad nas rhagwelwyd ar raddfa sylweddol nas caniateir ym mholisiau'r Cynllun yn gydnaws â Strategaeth y Cynllun, ac felly mae ei heffeithiau heb eu hasesu ac yn anhysbys. Os caiff cynigion o'r fath eu cyflwyno i gael eu hystyried, bydd angen cyflwyno asesiad llawn gyda hwy sy'n nodi eu heffeithiau tebygol ar y Gymraeg.

11.182 Mae'n ofynnol bod yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y CDLI yn asesu effeithiau tebygol y CDLI ar y Gymraeg. Gwneir hyn yn ailadroddol ar adegau allweddol trwy gydol y broses o gynhyrchu'r Cynllun. Caiff yr effeithiau disgwylidig tebygol eu cyflwyno yn yr adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael o fewn sail dystiolaeth y CDLI.

11.183 Mae'r CDLI yn darparu canllawiau pellach ynghylch darparu hysbysebion dwyieithog ym Mholisi PSD9 – Hysbysebion. Er mwyn hybu hunaniaeth ddiwylliannol ac i ddiogelu cymeriad ieithyddol lleol Sir Gaerfyrddin, bydd y Cyngor yn rhoi anogaeth i farchnata datblygiadau tai a masnachol newydd yn ddwyieithog yn ogystal â rhoi anogaeth i roi enwau Cymraeg i strydoedd a datblygiadau. Caiff canllawiau ychwanegol ynglŷn â darparu enwau strydoedd Cymraeg eu darparu ym Mholisi Enwi a Rhifo Strydoedd Sir Gaerfyrddin.

* * * * *

Atodiad I
Aseiad o'r
Effaith ar
Gydraddoldeb

Atodiad I: Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Y ddogfen hon yw'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y CDLI Diwygiedig Adneuo (y 'Cynllun'). Mae'n seiliedig ar dempled a grëwyd gan y Tîm Gydraddoldeb yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Er ei fod yn aseiad annibynnol, dylid ei ddarllen gan roi ystyriaeth i'r effeithiau cymdeithasegol a amlinellir o fewn yr Aseiad Effaith Integredig, ac ochr yn ochr â'r cynlluniau, y polisiau, a'r weledigaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun ar gyfer cyd-destun pellach. Yn ogystal â'r 9 nodwedd warchoddedig a amlinellir yn *Neddf Gydraddoldeb 2010*¹, mae'r Cyngor yn cydnabod yr effeithiau gwahanol o bosibl y gallai'r CDLI diwygiedig eu cael ar y Gymraeg, ac felly mae'r nodwedd hon wedi cael ei sgrinio i mewn i'r broses hon. Bydd yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei adolygu'n briodol gan ystyried unrhyw newidiadau a wnaed i'r Cynllun mewn ymateb i'r broses ymgynghori ac ar ôl ei fabwysiadu, a bydd deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig yn cael eu monitro er mwyn sicrhau bod ein gofynion deddfwriaethol yn cael eu cyflawni. I ddechrau nododd Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o'r strategaeth a ffefrir (a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018) y gallai effeithiau negyddol a allai fod yn uchel effeithio'n anghymesur ar oedran, anabledd, hil, a'r Gymraeg. Yn ogystal ag effeithiau ac ystyriaethau cymdeithasegol eraill, rhoddwyd sylw arbennig i'r nodweddion hyn drwy gydol y broses o lunio'r Cynllun a chawsant eu monitro (ochr yn ochr â'r holl nodweddion gwarchoddedig) yn ystod y broses ailadroddol rhwng yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Cynllun.

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	2
1.1 Deddf Gydraddoldeb 2010	2
1.2 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?	2
1.3 Ymagwedd Cyngor Sir Caerfyrddin tuag at yr Effaith ar Gydraddoldeb	3
1.4 Cyhoeddi adroddiad ynghylch aseidiadau	3
1.5 Aseidiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb	3
1.6 Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol	4
2. Aseiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (CDLI diwygiedig)	4
3. Aseiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb (CDLI diwygiedig)	20
4. Adolygu yn dilyn diwygiadau dilynol i'r CDLI	26

¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15>

1. Rhagarweiniad

1.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

1.2 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd newydd ar y sector cyhoeddus sy'n ymestyn cwmpas hyn i gynnwys oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

1.3 Ymagwedd Cyngor Sir Caerfyrddin tuag at yr Effaith ar Gydraddoldeb

I sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisïau a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r aseiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

1.4 Cyhoeddi adroddiad ynghylch aseidiadau


Os yw'n amlwg o'r aseiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

1.5 Aseidiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Aseiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisïau, y swyddogaethau, y gweithdrefnau, a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Aseiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a lle bo'n berthnasol rhaid atodi Aseiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel papur cefndirol gydag adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu.

1.6 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol



2. Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (CDLI diwygiedig)

Adran: Blaen-gynllunio (Lle a Chynaliadwyedd – Yr Amgylchedd)	Cwblhawyd gan (arweinydd): Ian R Llewelyn	Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Ionawr 2020 Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2022
Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)	Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig Adneuo Cyngor Sir Caerfyrddin 2018–2033	
Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a yw'n un newydd?	Polisi newydd	
Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestrwch yn unig)		
Wrth baratoi'r Cynllun hwn, mae ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i ystod o ofynion a ffactorau sy'n dylanwadu, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Deddfwriaeth - gan gynnwys <i>Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004</i>, <i>Deddf Cynllunio (Cymru) 2015</i>, <i>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015</i>, <i>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016</i> a Chyfarwyddebau Ewropeaidd; • Polisi Cynllunio Cenedlaethol; • <i>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2015</i>; • Cynllun ac Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin - "Y Sir Gâr a Garem"; • Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin - Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018 – 2023 (diweddariad 2019); • Cynllun Adfer Economaidd Sir Gaerfyrddin (Ebrill 2021) 		

- Tystiolaeth a gesglir - gan gynnwys amcanestyniadau o ran poblogaeth ac aelwydydd; ac
- Adborth ac ymgysylltu.
- Data sylfaenol wedi'i goladu yn Atodiad B (yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig)
- Cynllun, Polisiâu, a Rhaglenni a gynhwysir o fewn Atodiad A (yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig)

Mae'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig Adneuo wedi dechrau yn sgil ymagwedd gadarn o ran casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae Panel Ymgynghorol y CDLI wedi cynnal 12 cyfarfod ers Tachwedd 2017 (hyd at yr ymgynghoriad a gynllunnir yn Ionawr 2023). Mae'r Panel yn cynnwys Aelodau Etholedig a'i brif ddiben yw cymryd perchenogaeth wleidyddol ar y CDLI Diwygiedig. Mae pwyslais cryf wedi bod ar ymgysylltu a chreu consensws. Mae'r canlynol hefyd wedi'u cynnal ers Ionawr 2018:

- Cyfarfodydd Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol y CDLI;
- Gweithdy/seminar y CDLI ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned;
- Cyfarfodydd Fforwm Datblygwyr;
- Nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau gyda grwpiau gwleidyddol;
- Adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor Sir llawn;
- Adroddiadau Monitro Blynyddol; a
- Cyhoeddi'r Strategaeth a Ffeirir cyn-Adneuo ar gyfer ymgynghori yn ei chylch (ynghyd ag Asesiad cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb).
- Ymgynghoriad ar-lein i gefnogi a llywio'r broses o nodi materion, gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, ynghyd â'r Arfarniad Cynaliadwyedd cychwynnol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth yn dangos bod llawer o gyrff dŵr afonol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn methu â chyrraedd safonau ffosfforws (e.e. Afon Teifi). Mewn ymateb, bu'n rhaid gwneud newidiadau i'r Cynllun i sicrhau bod datblygiadau posibl yn niwtral o ran maetholion

yn y dalgylchoedd yr effeithir arnynt. Yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn gyfredol ac yn gadarn, cafodd ei ddiweddarau'n barhaus i adlewyrchu tystiolaeth a gwybodaeth newydd, ac, felly gwnaed newidiadau eraill hefyd am amryw o resymau.

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad arfaethedig a phwy fydd yn cael budd ohonynt.

O dan ddarpariaethau *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio CDLI mabwysiedig a'i roi ar waith. Llywodraethir y gwaith o lunio'r CDLI a'i gynnwys gan ddeddfwriaeth a rheoliadau gweithdrefnol. Mabwysiadwyd y CDLI presennol ym mis Rhagfyr 2014, ond penderfynodd y Cyngor ym mis Ionawr 2018 i ddechrau gwaith ar CDLI Diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2018-2033.

Ar ôl cael ei fabwysiadu, y CDLI Diwygiedig fydd y cynllun defnydd tir ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal honno sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ac felly bydd penderfyniadau'n cael eu seilio ar ei gynnwys, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Roedd y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir ar gyfer y CDLI Diwygiedig (y Strategaeth) yn gam cyntaf pwysig o'r broses o lunio'r Cynllun.

Roedd y Strategaeth hon yn cynnwys sawl elfen allweddol, yn nodedig:

- Materion Allweddol y mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hwy;
- Gweledigaeth ynghylch sut y bydd Sir Gaerfyrddin yn edrych yn 2033;
- Amcanion Strategol i fynd i'r afael â'r materion a gwireddu'r Weledigaeth;
- Strategaeth Dwf yn ymwneud â nifer y tai a'r swyddi sydd eu hangen ystod cyfnod y cynllun;
- Strategaeth Ofodol yn ymwneud â lleoliad y tai a'r swyddi arfaethedig yn ystod cyfnod y cynllun;
- Polisiâu strategol;

Bydd y cynllun ei hun yn adeiladu ar yr elfennau hyn ymhellach a bydd hefyd yn cynnwys polisiâu penodol; safleoedd datblygu ymgeiswyr; gweithredu a monitro; a mapiau cynigion ar sail ddaearyddol, ymhlith ystyriaethau eraill.

Cafodd y materion allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r rhesymwaith arfaethedig eu grwpio o dan y nodau llesiant cenedlaethol, sy'n golygu eu bod yn cael eu fframio yng nghyd-destun *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Roedd hyn yn sicrhau bod buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu gwreiddio yn y broses o lunio'r Cynllun. Mae'r materion yn tynnu sylw at rai o'r heriau nodedig hynny i'r Sir, a cheir rhagor o wybodaeth ym Mhapur Pwnc y Materion, y Weledigaeth a'r Amcanion (a ailgyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019 fel y diweddarwyd).

Mae'r weledigaeth yn cynnwys y weledigaeth a nodir yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor "*Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin - y 5 mlynedd nesaf - 2018-2023*". Er nad oes gweledigaeth i fanteisio ar Gynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin, mae gweledigaeth y CDLI Diwygiedig yn adlewyrchu ei bedwar amcan llesiant, sef (1) Arferion Iach (2) Ymyrraeth Gynnar (3) Cysylltiadau Cryf a (4) Phobl a Lleoedd Ffyniannus. Mae ymagwedd "Un Sir Gâr" yn cydnabod yr angen i gydbwysu gofynion a buddiannau sy'n tynnu'n groes i'w gilydd ac yn darparu cyfle ar gyfer consensws a pherchenogaeth a rennir ar y CDLI Diwygiedig.

Mae'r Cyngor wedi cyrraedd carreg filltir bwysig wrth i'r CDLI Diwygiedig gael ei gyhoeddi i ymgynghori arno ym mis Ionawr 2022. Mae'r CDLI Diwygiedig Adneuo yn cynnwys nifer o elfennau allweddol sy'n adlewyrchu'r camau a gymerwyd wrth ei baratoi. Mae wedi ceisio adeiladu ar y gwaith o baratoi'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir a'r ymatebion i'r ymgynghoriad arni. Ymatebwyd hefyd i argymhellion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig - Asesiad Amgylcheddol Strategol lle bo'n briodol. Yn hyn o beth, mae ymgysylltu, yn unol â darpariaethau'r Cytundeb Cyflawni, wedi bod yn agwedd bwysig ar y gwaith o baratoi'r Strategaeth, ac mae cyfraniad ymgynghoreion technegol a grwpiau ffocws eraill wedi bod yn allweddol wrth lywio cynnwys y Cynllun Adneuo.

Mae elfen allweddol o'r Cynllun Adneuo yn seiliedig ar yr angen i'r Cynllun sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer twf cynaliadwy y gellir ei gyflawni - gan adlewyrchu uchelgeisiau'r Sir a diwallu anghenion ei chymunedau. Cefnogwyd hyn gan dystiolaeth gadarn a diweddar wrth geisio sicrhau dylanwadau strategol allweddol gan gynnwys:

- Cynllun Adfywio Strategol y Cyngor 2015 – 2030 – Trawsnewidiadau;
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe – yn cynnwys yr Egin a'r Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd;
- Y Strategaeth Gorfforaethol Newydd 2018 – 2023;
- Amcanion Llesiant y Cyngor; a
- Phenderfyniadau diweddar y Cyngor – gan gynnwys datgan Argyfwng Hinsawdd a'r cynnig ynghylch Cynllunio a'r Gymraeg;
- Adroddiad y Tasglu Gwledig a'i argymhellion;
- Polisi cynllunio cenedlaethol a'r agenda ddeddfwriaethol;
- Ein Hymrwymiad i Dai Fforddiadwy 2015 – 2020 a Chynllun Cyflawni Tai Fforddiadwy 2016-2020;
- Adeiladu Mwy o Dai Cyngor - 'Ein huchelgais a'n cynllun gweithredu';
- Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf

Mae'r CDLI yn ceisio hyrwyddo a datblygu'r economi ar draws Sir Gaerfyrddin ac mae'r Cynllun Adneuo Diwygiedig yn nodi dyraniadau tir priodol i ddangos Sir Gaerfyrddin fel Sir uchelgeisiol sy'n denu buddsoddiad, sy'n darparu cyfleoedd i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymunedau ac sy'n rhan allweddol o gyd-destun rhanbarthol Bae Abertawe.

Byddai'r lefelau twf arfaethedig hefyd yn ceisio herio a mynd i'r afael â phatrymau demograffig presennol, yn enwedig patrymau allfudo fel y gwelwyd yn y grŵp oedran 16-19. Mae'n rhoi cyfleoedd i wrthbwysu demograffeg y Sir drwy

gadw a mewnfudo oedolion iau (gan gynnwys y rheiny sy'n dychwelyd) i'r Sir, a mynd i'r afael â rhai o'r problemau y gellid eu canfod o boblogaeth sy'n heneiddio.

Wrth gydnabod y sylfaen dystiolaeth newidiol mewn perthynas â newid demograffig, mae adroddiad ategol ynghylch Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin wedi'i baratoi. Mae'n nodi'r amcanestyniadau diweddaraf o ran poblogaeth ac aelwydydd gan adlewyrchu natur ailadroddol y broses o lunio'r Cynllun.

Mae'r dull gofodol o ddyrannu tir yn cynrychioli Strategaeth Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy, sef newid o ran dull y CDLI presennol ac un sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion a amlygir yn yr Adroddiad Adolygu, yn ogystal ag adlewyrchu'r adborth wrth lunio'r strategaeth a ffeirir. Bydd yr hierarchaeth ofodol ddiwygiedig a'r dosbarthiad twf felly'n cael eu mynegi drwy'r fframwaith aneddiadau fel y grwpwyd o dan glystyrau perthnasol sy'n ceisio nodweddu ardaloedd ar draws y Sir. Nodir y rhain yn y Cynllun Adneuo.

Mae'r themâu allweddol a'r meysydd polisi a nodir yn y CDLI Adneuo Diwygiedig yn cynnwys y canlynol:

- Darparu ar gyfer y gofyniad o 8,882 o dai newydd;
- Darparu cynifer o dai fforddiadwy â phosibl gan ddarparu >1,000 o dai fforddiadwy newydd. Noder: bydd y ffigur hwn yn amodol ar fireinio ymhellach cyn cyhoeddi'r CDLI Adneuo. Bydd y gwaith o gasglu tystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â hyfywedd a'r effaith ar y targed a'r polisiâu tai fforddiadwy hefyd yn parhau;
- Darpariaeth ar gyfer dros 71.21 ha o dir cyflogaeth;
- Lefelau diffiniedig o ran hyfywedd datblygiad;
- Nodi lefelau o gyfraniadau gan ddatblygwyr (adran 106) a meysydd blaenoriaeth allweddol;
- Cydnabod y cyfleoedd economaidd i gynnal a gwella economïau gwledig;

- Cefnogi uchelgeisiau strategol ac adfywio ar gyfer y Sir a'r rhanbarth;
- Hybu fframwaith aneddiadau sy'n cefnogi cydlynid rhwng aneddiadau a chymunedau;
- Adlewyrchu anghenion ieithyddol y Sir a'i chymunedau a'u nodweddion diwylliannol;
- Dosbarthu datblygiad yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau, gan adlewyrchu nodweddion cynaliadwyedd a swyddogaethol yr aneddiadau;
- Parchu a gwella rhinweddau amgylcheddol cyfoethog ac amrywiol y sir.
- Adlewyrchu'r angen am dai newydd mewn ardaloedd gwledig;
- Adlewyrchu materion sy'n ymwneud â chapasiti seilwaith - yn benodol yn nhalgylch Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Llanelli;
- Cyfrannu at gyflawni Amcanion Cadwraeth Statudol Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr;
- Cyfrannu at ddarparu cyfleoedd adfywio ffisegol a chymdeithasol;
- Creu datblygiadau a chymunedau amrywiol a chydlynol;
- Adlewyrchu'r amrywiaeth ar draws y sir, ac o fewn ei haneddiadau a'i chymunedau.
- Canolbwyntio newid adwerthu mewn canolfannau sefydledig wrth ddarparu cyfleoedd a fydd yn helpu i sicrhau aneddiadau hunangynhaliol, hyfyw a chymunedau cynaliadwy;
- Diffinio ardaloedd chwilio ar gyfer lleoli datblygiadau ynni adnewyddadwy megis ynni'r gwynt ac ynni'r haul;
- Cydnabod cyfraniad 'tir a ddatblygwyd o'r blaen';
- Darparu cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar botensial economi ymwelwyr y Sir.
- Gwarchod a gwella rhinweddau naturiol, hanesyddol a chadwraeth adeiledig Sir Gaerfyrddin; a
- Chyfrannu at rwydwaith trafniadaeth integredig yn y Sir a'r rhanbarth.

Wrth fwrw ymlaen â'r uchod, mae'r CDLI Adneuo, ei sylfaen dystiolaeth a'i ddylanwadau cyd-destunol yn cynnwys sawl maes polisi newydd a/neu sylw ychwanegol ar agweddau yn ymwneud â'r canlynol:

	<ul style="list-style-type: none"> • Creu Lleoedd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; • Seilwaith Gwyrdd; • Newid yn yr Hinsawdd a Datblygu Cynaliadwy; • Y Gymraeg; • Osgoi llifogydd; • Safleoedd Adfywio wrth gefn; a • Pholisi Cynllunio Gwledig. <p>Mae'r CDLI Adneuo Diwygiedig yn ceisio cydnabod ac ymateb i newidiadau yn y dystiolaeth ac ystyried y darpariaethau twf sy'n datblygu yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg wrth iddo symud ymlaen drwy'r broses adrodd. Bydd y CDLI Diwygiedig yn parhau i ddatblygu wrth i dystiolaeth, canllawiau polisi a deddfwriaeth newydd ddod i'r amlwg. Dylid nodi hefyd y bydd newidiadau ansylweddol yn cael eu gwneud i'r Cynllun a'i ddogfennau ategol er mwyn sicrhau bod ei gynnwys yn gyflawn cyn yr ymgynghoriad ar y CDLI Adneuo. Bydd hefyd yn sicrhau bod y cynllun yn gyfoes ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ffeithiol a thystiolaethol ddiweddaraf.</p>				
<p>Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:</p> <p>(1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon;</p>	<p>2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchoddedig o ran tri nod y ddyletswydd?</p> <p>Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.</p>	<p>3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchoddedig?</p> <table border="1" data-bbox="1111 1203 1865 1390"> <tr> <td data-bbox="1111 1203 1413 1390">Risgiau</td> <td data-bbox="1413 1203 1865 1390">Yr Effeithiau Cadarnhaol</td> </tr> </table>	Risgiau	Yr Effeithiau Cadarnhaol	<p>4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych chi wedi'u hystyried?</p>
Risgiau	Yr Effeithiau Cadarnhaol				

<p>(2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a</p> <p>(3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau</p> <p>(gweler y nodiadau esboniadol)</p>					
<p>Nodweddion gwarchoddedig</p>	<p>Oedran</p>	<p>Effaith fawr</p>	<p>Mae'r Cynllun yn methu â chydabod proffil oedran y Sir. Nodwyd yn y materion allweddol fod gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio.</p>	<p>Mae'r Cynllun yn ceisio adfer cydbwysedd ym mhroffil demograffig y Sir. Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd bresennol o allfudo ymhlith grwpiau oedran iau a dibyniaeth ar fewnfudo fel yr ysgogwr ar gyfer newid yn y boblogaeth. Mae'r Cynllun, wrth geisio adfer cydbwysedd yn y proffil oedran, yn darparu cyfleoedd ar gyfer amgylchedd gwaith a byw da i bawb, gan greu cymunedau ffyniannus a deniadol. O ran darparu cartrefi newydd, mae pwyslais ar</p>	

				gymysgedd o fathau o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n canolbwyntio ar angen y gymuned.	
	Anabledd	Effaith fawr	Mae'r Cynllun yn cyfeirio datblygiad at leoliadau nad oes modd eu cyrraedd.	Mae'r Cynllun yn ceisio cyfeirio datblygiad at leoliadau cynaliadwy y gellir eu cyrraedd drwy ddefnyddio ystod o ffyrdd o deithio gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus. Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais cryf ar gydraddoldeb. Cyfeiriwyd yn benodol at Amcanion Strategol 4 a 10.	
	Ailbennu rhywedd	Dim effaith o gwbl		Bydd y Cynllun yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell.	

Hil	Effaith fawr	Mae'r Cynllun yn methu â chydabod anghenion cymunedau penodol.	Mae'r Cynllun yn cynnwys fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell. Cyfeiriwyd at anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Gaerfyrddin. Yn hyn o beth mae'r Cynllun yn gwneud darpariaethau penodol ar gyfer eu hanghenion drwy Bolisi Strategol SP9 a pholisïau manwl cysylltiedig.	
Crefydd/Cred	Dim effaith o gwbl		Mae'r Cynllun yn darparu fframwaith defnydd tir sy'n ymateb i'r materion a nodir drwy ei gweledigaeth, ei hamcanion strategol a'i pholisïau strategol sy'n cynnwys crefydd/cred neu ystyriaethau cymdeithasol eraill.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Effaith fach		Bydd y Cynllun yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer	

			cynhwysiant gwell. Mae'r Cynllun yn ceisio integreiddio cynlluniau a strategaethau eraill a hyrwyddo hygyrchedd i wasanaethau.	
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith o gwbl		Bydd y Cynllun yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell.	
Rhyw	Dim effaith o gwbl		Bydd y Cynllun yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell.	
Yr Iaith Gymraeg	Effaith fawr	Mae'r Cynllun yn methu â gwneud darpariaethau digonol i hyrwyddo a diogelu buddiannau o ran yr iaith	Mae'r Gymraeg yn cael sylw penodol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Mae'r ddau'n darparu cymorth priodol ynghylch sut i	

			<p>Gymraeg ac agweddau sensitifrwydd ieithyddol.</p>	<p>ar ystyried yr iaith Gymraeg wrth lunio CDLI.</p> <p>Drwy ei amcanion strategol a Pholisi Strategol SP7 (a pholisïau manwl cysylltiedig) bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer cefnogi cynigion sy'n diogelu ac yn hyrwyddo'r iaith.</p> <p>Rhaid i'r Cyngor hefyd gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Cyfeirir at y Papur Pwnc a'r dystiolaeth a baratowyd mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a gyhoeddir ar y cyd â'r CDLI Adneuo.</p>	
	<p>Priodas/Partneriaeth Sifil</p>	<p>Dim effaith o gwbl</p>		<p>Bydd y Cynllun yn ceisio datblygu fframwaith defnydd tir sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant gwell.</p>	

	Unrhyw faes arall	Rhaid i'r cynllun roi sylw dyledus i'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd.			
--	--------------------------	---	--	--	--

5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchoddedig priodol?	DO <input type="checkbox"/> NADDO <input type="checkbox"/> AMHERTHNASOL <input checked="" type="checkbox"/> - Oherwydd mae'r Cynllun Adneuo yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn (fel yn achos y Strategaeth a Ffefrir).
6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai?	
<p>Bydd y posibilrwydd o unrhyw effaith anghymesur yn cael ei fonitro trwy gydol y broses o lunio'r Cynllun. Yn hyn o beth bydd y Cynllun yn destun ailgyflwyno parhaus hyd nes y caiff ei fabwysiadu a bydd hefyd yn amodol ar lunio Arfarniad Cynaliadwyedd a fydd hefyd yn ystyried ei effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â hynny. Bydd Fersiwn Hawdd ei Darllen yn cael ei gyflwyno gyda'r CDLI Adneuo Diwygiedig ac roedd dogfen debyg ar gael ochr yn ochr â'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir. Yn ogystal, bydd y CDLI Diwygiedig Adneuo ac unrhyw ddeunyddiau cysylltiedig ar gael mewn fformatau eraill ar gais.</p>	
7. Caffael	
<p>Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth?</p> <p>Amh.</p> <p>Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.</p>	

8. Adnoddau Dynol

Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth?

Amh.

9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Asesiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)

DYLAI

NA DDYLAI

3. Asesiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb (CDLI diwygiedig)

Adran:	Blaen-gynllunio (Lle a Chynaliadwyedd – Yr Amgylchedd)
Cwblhawyd gan (arweinydd):	Ian R Llewelyn
Dyddiad yr asesiad manwl:	Rhagfyr 2022
Y maes a asesir: (<i>Polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad ariannol</i>)	Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig Adneuo Cyngor Sir Caerfyrddin 2018–2033
Ydy'r swyddogaeth/polisi/gweithdrefn/arfer dan sylw yn bodoli'n barod neu a yw'n un newydd?	Polisi newydd

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddiben y swyddogaeth/polisi, yr arfer neu'r weithdrefn a phwy fydd yn cael budd ohonynt.	Gweler yr asesiad cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb uchod.
--	---

2. Rhestrwch unrhyw ddogfennau, tystiolaeth, ymchwil a ddefnyddiwyd wrth gwblhau'r Asesiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb. (Mae'n rhaid i hyn gynnwys data perthnasol a ddefnyddiwyd yn yr asesiad hwn)	Gweler yr asesiad cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
3. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchodedig er mwyn darparu gwybodaeth i'r asesiad hwn? (rhowch fanylion ynghylch y dull ymgynghori a'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw a sut)	Gweler yr asesiad cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
4. Beth yw'r union effaith/effaith debygol?	O fewn yr asesiad cychwynnol, nodwyd effeithiau mawr posibl mewn perthynas â'r nodweddion canlynol:

	Oedran; Anabledd; Hil; a'r Gymraeg.			
<p>5. Pa gamau y bwriedir eu cymryd i ymdrin â'r effaith? <i>(Mae angen i'r camau gweithredu fod yn benodol, yn fesuradwy ac yn seiliedig ar ddeilliannau)</i></p>	<p>Yr hyn yr ydym yn mynd i'w wneud?</p>	<p>Pwy fydd yn gyfrifol?</p>	<p>Pryd y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau?</p>	<p>Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni ein hamcan?</p>
	<p>O ran oed, mae'r Cynllun yn darparu cyfleoedd ar gyfer cadw oedolion iau yn y Sir a'u denu - yn fwyaf nodedig drwy ddarparu o leiaf 5,295 o swyddi newydd. Mae'r Cynllun hwn yn darparu ar gyfer ystod o grwpiau oedran gan gydnabod y ddemograffeg amrywiol sydd ar draws y sir. Er nad yw'r Cynllun yn clustnodi tai yn benodol ar gyfer yr henoed neu gynlluniau byw â chymorth, gall y rhain gael eu cynnwys a'u hystyried yn fframwaith polisi y Cynllun</p>	<p>Aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor Sir a phartneriaid gwasanaethau perthnasol.</p>	<p>Mabwysiadu'r Cynllun yn 2023 a monitro'r broses o'i roi ar waith yn barhaus drwy gydol cyfnod y Cynllun.</p>	<p>Mabwysiadu'r CDLI Diwygiedig ac yna drwy fonitro'r Cynllun yn flynyddol.</p>

	<p>(ac mae hynny'n digwydd). Mae'r broses o lunio'r Cynllun wedi cael ei chefnogi gan ymgysylltu ag ystod o gyrff statudol ac anstatudol. Mae hyn wedi cynnwys integreiddio seilwaith cymunedol strategol o fewn cynigion a pholisïau'r Cynllun. Cyfeirir at Bolisi HOM9.</p>			
	<p>O ran anabledd, mae'r Cynllun yn ceisio darparu datblygiadau sy'n hygyrch ac yn integredig, a thrwy hynny sicrhau mynediad hwylus i bawb. Cyfeirir at Bolisi Strategol 11 a Pholisi PSD1.</p>	<p>Aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor Sir a phartneriaid gwasanaethau perthnasol.</p>	<p>Mabwysiadu'r Cynllun yn 2023 a monitro'r broses o'i roi ar waith yn barhaus drwy gydol cyfnod y Cynllun.</p>	<p>Mabwysiadu'r CDLI Diwygiedig ac yna drwy fonitro'r Cynllun yn flynyddol.</p>

	<p>O ran hil, mae'r Cynllun yn diwallu angen a nodwyd o ran darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr. Cyfeirir at Bolisi Strategol 9 a Pholisi GTP1.</p>	<p>Aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor Sir a phartneriaid gwasanaethau perthnasol.</p>	<p>Mabwysiadu'r Cynllun yn 2023 a monitro'r broses o'i roi ar waith yn barhaus drwy gydol cyfnod y Cynllun.</p>	<p>Mabwysiadu'r CDLI Diwygiedig ac yna drwy fonitro'r Cynllun yn flynyddol.</p>
	<p>O ran y Gymraeg, mae'r Cynllun yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae'n cynnwys ymrwymiad i gyfrannu at nod hirdymor Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cyfeirir at Bolisi Strategol 7, Polisi WL1 a Pholisi PSD9.</p>	<p>Aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor Sir a phartneriaid gwasanaethau perthnasol.</p>	<p>Mabwysiadu'r Cynllun yn 2023 a monitro'r broses o'i roi ar waith yn barhaus drwy gydol cyfnod y Cynllun.</p>	<p>Mabwysiadu'r CDLI Diwygiedig ac yna drwy fonitro'r Cynllun yn flynyddol.</p>
<p>6. Sut y caiff y camau gweithredu eu monitro?</p>	<p>Mae Aelodau etholedig y Cyngor yn berchen ar y CDLI Diwygiedig. O ganlyniad, bydd yr Aelodau etholedig yn craffu ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran cyflwyno'r camau gweithredu uchod, yn ogystal â'r CDLI Diwygiedig ehangach. Cyfeirir hefyd at Gytundeb Cyflawni'r CDLI Diwygiedig rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir sy'n nodi sut y bydd y Cynllun yn cael ei lunio a'r amserlen.</p>			

Mae proses baratoi'r CDLI Diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun fod yn destun Archwiliad Annibynnol. A bwrw bod yr Arolygydd CDLI yn dod i'r casgliad bod y Cynllun yn gadarn. Cam monitro allweddol o ran cynnydd y camau uchod fydd mabwysiadu'r CDLI Diwygiedig. Dylid nodi y bydd canfyddiadau'r Arolygydd yn rhwymo'r Cyngor.

Yn sgil mabwysiadu'r Cynllun, bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar ei roi ar waith. Bydd y Cynllun yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'n ofynnol llunio Adroddiad Monitro Blynyddol, a hefyd mae'n ofynnol cynnal adolygiad bob 4 blynedd. Dylid nodi efallai y bydd rhai o'r camau gweithredu uchod yn destun dangosyddion monitro penodol.

4. Adolygu yn dilyn diwygiadau dilynol i'r CDLI

Bydd y bennod hon yn cael ei diweddarau'n unol â hynny.

Diwygiedig 2018-2033
Cynllun Datblygu Lleol

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)

2il Gynllun Adneuo
Chwefror 2023

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales